

S4C

**Adroddiad Blynyddol
a Datganiad Ariannol**
ar gyfer y cyfnod 12 mis
hyd at 31 Mawrth 2018

**Annual Report and
Statement of Accounts**
for the 12 month period
to 31 March 2018





**Adroddiad Blynyddol a
Datganiad Ariannol S4C ar
gyfer y cyfnod 12 mis hyd
at 31 Mawrth 2018**

Cyflwynir Adroddiad Blynyddol a
Datganiad Ariannol S4C i'r Senedd
yn sgîl paragraffau 13(1) a 13(2) i
atodlen 6 Deddf Darlledu 1990.

**S4C Annual Report and
Statement of Accounts for
the 12 month period to
31 March 2018**

The Annual Report and Statement
of Accounts for S4C are presented
to Parliament pursuant to paragraphs
13(1) and 13(2) of schedule 6 to the
Broadcasting Act 1990.



Mae S4C yn darparu cynnwys a gwasanaethau cyfryngol yn yr iaith Gymraeg sydd o safon uchel, sy'n cynnig adloniant, gwybodaeth ac sy'n ysbrydoli, ac sy'n anelu i gyrraedd cymaint o bobl â phosibl ar y llwyfannau cyfoes mwyaf priodol.

S4C provides high quality content and media services in the Welsh language, offering entertainment, information and inspiration, and which aim to reach the widest audience possible across a range of contemporary platforms.

Cynnwys Contents

4	S4C a'r iaith Gymraeg	4	S4C and the Welsh language
6	Y prif ffeithiau	6	Key facts
8	Cyflwyniad y Cadeirydd	8	Chairman's Introduction
14	Cyflwyniad y Prif Weithredwr	14	Chief Executive's Introduction
20	Sut berfformiodd S4C yn 2017/18	20	How S4C performed in 2017/18
42	Mesur Perfformiad S4C:	42	Measuring S4C's Performance:
44	Defnydd a Chyrhaeddiad	44	Usage and Reach
54	Gwerthfawrogiad	54	Appreciation
64	Effaith	64	Impact
74	Gwerth am Arian	74	Value for Money
84	Gwasanaethau Cymorth i'n Cynulleidfa	84	Support Services for our Audience
86	Gweithagreddau S4C ledled Cymru	86	S4C's activities across Wales
88	Partneriaeth S4C gyda'r BBC	88	S4C's partnership with the BBC
90	Adolygiad S4C	90	Review of S4C
92	Gweithagreddau Masnachol S4C	92	S4C's Commercial Activities
94	Canolfan S4C Yr Egin	94	Canolfan S4C Yr Egin
96	Adroddiad Llywodraethiant	96	Governance Report
112	Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Rheoli Risg, Personel a Chydnabyddiaeth	112	Report of the Chairman of the Audit, Risk management, Personnel and Remuneration Committee
116	Adroddiad Polisi Cyflogaeth S4C	116	S4C's Employment Policy Report
	Datganiad Ariannol		Statement of Accounts
120	Adroddiad yr Awdurdod	121	Report of the Authority
122	Oriau a ddarllledwyd a chyfarteledd cost yr awr	123	Hours transmitted and average cost per hour
124	Datganiad o Gyfrifoldebau	125	Statement of Responsibilities
126	Adroddiad yr Archwilywyr Annibynnol i Aelodau Awdurdod S4C	127	Independent Auditor's report to the Members of the S4C Authority
130	Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr	131	Consolidated Statement of Comprehensive Income
132	Mantolen Gyfun	133	Consolidated Balance Sheet
134	Mantolen S4C	135	S4C Balance Sheet
136	Datganiad Cyfun o Newidiadau Mewn Ecwiti	137	Consolidated Statement of Changes in Equity
138	Datganiad Llif Arian Cyfun	139	Consolidated Cash Flow Statement
140	Nodiadau i'r Cyfrifon	140	Notes to the Accounts

© S4C 2018

Caniateir atgynhyrchu testun y ddogfen hon yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng yn amodol ar gywirdeb yr atgynhyrchu ac nad yw'n cael ei wneud mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod hawlfraint S4C a nodi teitl y ddogfen.

Gellir lawrlwytho'r ddogfen hon o s4c.cymru

© S4C 2018

The text of this document may be reproduced free of charge in any format or medium providing that it is done so accurately and not in a misleading context.

The material must be acknowledged as S4C copyright and the document title specified.

This document is available for download from s4c.cymru

S4C a'r iaith Gymraeg S4C and the Welsh language



Mae S4C wedi ymrwymo i gefnogi defnydd a datblygiad yr iaith Gymraeg. S4C is committed to supporting the use and development of the Welsh language.

Mae'r iaith Gymraeg yn greiddiol i fodolaeth S4C.

The Welsh language is central to S4C's existence.

Mae S4C yn chwarae rhan allweddol wrth adlewyrchu diwylliant a chymdeithas Cymru a hyrwyddo'r Gymraeg - un o drysorau Cymru a'r DU.

S4C plays a key role in reflecting Welsh culture and society and promoting the Welsh language - one of the treasures of Wales and the UK.

Mae 19% o boblogaeth Cymru a 40% o blant rhwng 5-15 oed yn siarad Cymraeg.

19% of the population of Wales and 40% of children between 5-15 years old speak Welsh.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan ei nod o weld nifer y bobl sy'n gallu mwynhau siarad a defnyddio'r Gymraeg yn cyrraedd miliwn erbyn 2050.

The Welsh Government has stated its aim to see the number of people able to enjoy speaking and using Welsh reach a million by 2050.

Mae S4C wedi sefydlu partneriaeth iaith newydd gydag Urdd Gobaith Cymru, yr Eisteddfod Genedlaethol, y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer dysgu Cymraeg, y mentrau iaith a Llywodraeth Cymru i sicrhau ein bod yn cael yr effaith fwyaf posibl wrth i ni chwarae rhan allweddol yn natblygiad yr iaith.

S4C has established a new language partnership with Urdd Gobaith Cymru, the National Eisteddfod, the National Centre for Learning Welsh, the Mentrau Iaith and the Welsh Government to ensure we maximise our impact in the key role that we play in the development of the language.

S4C - Y flwyddyn yn gwyno



+91%


Cynnydd o 91% yn nifer y sesiynau gwyllo ar gyfryngau cymdeithasol. An increase of 91% in the number of social media viewing sessions.



Roedd mwy o bobl yn gwyllo S4C ar deledu nac unrhyw bryd ers 2004 - Cynnydd o 12% ar draws y DU a 5% yng Nghymru. More people watched S4C on TV than at any time since 2004 - A 12% increase across the UK and 5% in Wales.

9.4m

9.4 miliwn o bobl wylodd S4C drwy'r DU ar ryw adeg yn 2017/18 (2016/17: 9.1m). 9.4 million individuals watched S4C throughout the UK at some time during 2017/18 (2016/17: 9.1m).



+77%

Ymgysylltiadau gydag S4C ar gyfryngau cymdeithasol wedi cynyddu 77% blwyddyn ar-flwyddyn. Engagement with S4C on social media has increased by 77% year on year.

37m

37 miliwn o sesiynau gwyllo ar lwyfannau cymdeithasol. 37 million viewing sessions on social platforms.

8.2m


8.2 miliwn o sesiynau gwyllo ar Clic ac iPlayer. 8.2 million viewing sessions on Clic and iPlayer.

690,000

690,000 o bobl yn gwyllo S4C ar deledu bob wythnos drwy'r DU (2016/17: 614,000). 690,000 people watched S4C on TV every week throughout the UK (2016/17: 614,000).

45m

Mae gwyllo ar-lein yn parhau i dyfu'n sylweddol - 45 miliwn o sesiynau gwyllo ar-lein (i holl raglenni a chynnwys S4C ar Clic, iPlayer a chyfryngau cymdeithasol). Online viewing continues to grow considerably - 45 million online viewing sessions (for all S4C programmes and content on Clic, iPlayer and social media).



S4C's year in a nutshell



+6%

Mae gwylwyr ieuengach yn troi at S4C - ar deledu ac arlein - Mae nifer y gwylwyr rhwng 16-34 wedi cynyddu 6%. Younger viewers are turning to S4C - on television and online Viewers between 16-34 have increased by 6%.

£0.79


Dim ond 79 ceiniog yr wythnos y mae'n costio i ddarparu gwasanaeth S4C fesul gwylwr teledu. It costs only 79 pence a week to provide S4C's service for each TV viewer.

50

Gweithiodd S4C gyda mwy na 50 o gwmnïau cynhyrchu a phartneriaid yn y sector creadigol yng Nghymru a'r DU. S4C worked with more than 50 production companies and partners in the creative sector in Wales.

4.9m

Hansh - 4.9 miliwn o sesiynau gwyllo ar-lein - gyda mwyafrif y gwyllo gan y gynulleidfa 16-34 oed. Hansh - 4.9 million online viewing sessions - with most viewing from 16-34 year olds.



Mae pob £1 yn werth £2.09 i economi Cymru. Mae gwaith S4C yn cael effaith economaidd sylweddol ar economi Cymru. Mae bob £1 sy'n cael ei fuddsoddi gan S4C yn yr economi yn mwy na dyblu yn ei werth. Every £1 is worth £2.09 to the Welsh economy - S4C's work has a significant economic impact on the Welsh economy Every £1 invested by S4C in the economy more than doubles in value.

32,000

32,000 o wylwyr wedi mynychu digwyddiadau cyhoeddus S4C. 32,000 viewers attended S4C's public events.

6.9m

6.9 miliwn o sesiynau gwyllo i eitemau byrion Heno a Prynawn Da. 6.9 million viewing sessions to short form items from Heno and Prynawn Da.



Cyflwyniad y Cadeirydd

Chairman's Introduction

Huw Jones



Gwyllo

Ar deledu'n gyffredinol, mae hon wedi bod yn flwyddyn dda. Mae gwyllo cynnwys S4C wedi cynyddu'n sylweddol - yng Nghymru, lle roedd i fyny 5%, ac hefyd ar draws y DU, lle cafwyd cynnydd o 12%. Gwelwyd gostyngiad bychan mewn gwyllo gan siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, ond mae'r ffigur hwnnw'n sefydlog dros gyfnod o bedair blynedd, ac o gymryd defnydd ar-lein i ystyriaeth, mae'n debygol fod defnydd cyffredinol o'n gwasanaethau gan siaradwyr Cymraeg mewn gwirionedd wedi bod ar i fyny. Ar lein, mae defnydd o gynnwys S4C ar Clic ac ar iPlayer ill dau wedi cynyddu eleni. Felly hefyd, ac yn sylweddol, y defnydd o gynnwys S4C trwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol.

Viewing

On television overall, this has been a good year. Viewing of S4C content has increased substantially, both in Wales, where it was up 5% and across the UK, where the increase was 12%. There was a small decline in viewing by Welsh speakers in Wales, but the number is steady across a four year period and, taking on-line consumption into account, it is likely that overall usage of our services by Welsh speakers has actually increased. On-line, use of S4C content on both S4C Clic and iPlayer has increased this year, as has, substantially, consumption of S4C content via social media platforms.

Mae'n galonogol bod cynifer o elfennau gwahanol o raglenni S4C wedi cyfrannu i'r llwyddiant hwn. Gwneir defnydd brwd o raglenni plant, yn arbennig ar lein. Mae brandiau adloniant newydd, megis Priodas Pum Mil a Ffit Cymru wedi dod yn destun trafod. Mae ein cyfresi drama nos Sul, o safon uchel ac yn aml yn heriol, wedi dal sylw a dychymyg cenedlaeth iau o wylwyr sydd yn reddfod yn gwneud defnydd trwm o wyllo 'dal i fyny' ac ar lein. Mae fersiynau Saesneg neu ddwyieithog o Un Bore Mercher / Keeping Faith a Craith / Hidden (y ddau yn gyd-gynrychiadau gyda BBC Cymru), wedi mynd ymlaen i ddenu cynulleidfaoedd sylweddol a chlodd gan y beirniaid ar sianeli a rhwydweithiau Saesneg eu hiaith. Mae Bang a Byw Celwydd wedi gweld cyfresi drama Cymraeg wedi eu his-deitlo yn cael eu gwerthu i Ewrop a Gogledd America.

It is heartening that many different elements of S4C programming have contributed to this success. Children's programmes are consumed avidly, particularly on-line. New entertainment brands, such as Priodas Pum Mil and Ffit Cymru, have become talking points. Our high quality, often challenging, Sunday night drama series have caught the attention and imagination of a younger generation of viewers, for whom catch-up and on-line viewing is second nature. English-language or bilingual versions of Un Bore Mercher/Keeping Faith and Craith/Hidden (both co-productions with BBC Wales), have gone on to secure substantial audiences and critical acclaim on English-language channels and networks. Bang and Byw Celwydd have seen subtitled Welsh-language drama sold to Europe and North America.



Mae darparu deunydd deniadol ar gyfer siaradwyr Cymraeg ifanc, yn yr oed hwnnw pan maen nhw'n gwneud penderfyniadau greddfyl ynglŷn â'u defnydd iaith personol, yn eithriadol o bwysig ar gyfer datblygiad yr iaith. Providing attractive material for young Welsh speakers, at the age when they are instinctively making decisions regarding their personal language use, is critically important for the development of the language.

Dim ond 70% o amser gwyllo'r sgrin deledu sydd bellach yn digwydd adeg y darllediad cyntaf. Mae'r un patrwm yn berthnasol i S4C. Mae nifer o'r cyfresi drama yma wedi dyblu eu ffigurau gwyllo yn dilyn y darllediad byw. Mae cynnig casgliadau bocs o gyfresi penodol wedi hwyluso'r patrymau gwyllo yma ymhellach.

Gwnaeth chwaraeon gyfraniad mawr i'r gwyllo eleni, yn arbennig pan enillwyd yr hawl i ddarlledu gemau Cymru yn rowndiau rhagbrofol Cwpan y Byd. Mae chwaraeon yn elfen graidd i ganiatáu i ni gadw mewn cysylltiad gyda siaradwyr Cymraeg ifanc a gwylwyr llai rhugl.

Un achos arbennig i'w ddathlu oedd lawnsiad llwyddiannus Hansh, ein brand arbennig ar gyfer pobl ifanc. Mae hyn wedi caniatáu datblygu arddull newydd a dull newydd o ymwneud â'r gynulleidfa o fewn ein cynnwys - ar y teledu ac ar gyfer deunydd digidol penodol. Mae darparu deunydd deniadol ar gyfer siaradwyr Cymraeg ifanc, yn yr oed hwnnw pan maen nhw'n gwneud penderfyniadau greddfyl ynglŷn â'u defnydd iaith personol, yn eithriadol o bwysig ar gyfer datblygiad yr iaith. Ry'n ni'n credu fod y fenter newydd yma'n cynnig gobaith mawr ar gyfer y dyfodol yn y cyswllt hwn.

Cerrig Milltir

Ym mis Tachwedd, fe wnaethon ni arwyddo ein Cytundeb Partneriaeth newydd gyda'r BBC. Mae'n tynnu ynghyd holl agweddau gwahanol y berthynas rhwng y ddau gorff - cyllido, cyflenwi rhaglenni, cydweithio technegol a chreadigol - mewn un datganiad o fwriad cynhwysfawr, sy'n cael ei seilio ar ymrwymiad allweddol yn Siarter y BBC. Mae'n garreg filltir bwysig yn y berthynas, gan danlinellu pwysigrwydd cydweithio er budd y gynulleidfa ac annibyniaeth y ddau ddarlledwr.

Only 70% of time spent watching a TV screen is now in real time. The same pattern applies to S4C. Many of these drama series have doubled their viewing figures after live transmission. The introduction of box sets for selected series has further facilitated these viewing patterns.

Sport made a big contribution to viewing this year, particularly the coverage of the Wales World Cup Qualifiers to which we were able to obtain rights. Sport is a key element in enabling us to keep in touch with young Welsh-speakers and less fluent viewers.

A particular cause for celebration was the successful launch of Hansh, our dedicated brand for young people. This has allowed a new style and a new form of engagement to emerge both within TV content and digital-only material. Providing attractive material for young Welsh speakers, at the age when they are instinctively making decisions regarding their personal language use, is critically important for the development of the language. We believe that this new initiative offers great hope for the future in this regard.

Milestones

In November, we signed our new Partnership Agreement with the BBC. It brings together the different aspects of the relationship between our two organisations - funding, programme supply, technical and creative cooperation in a single, overarching statement of intent, underpinned by a key commitment in the BBC's Charter. It is an important landmark in the relationship, underlining the importance of co-operation for the benefit of audiences and of the independence of both broadcasters.



Dim ond 70% o amser gwyllo'r sgrin deledu sydd bellach yn digwydd adeg y darllediad cyntaf. Only 70% of time spent watching a TV screen is now in real time.

Roedd cyhoeddi adolygiad Euryn Ogwen Williams o S4C, ochr yn ochr ag ymateb y Llywodraeth iddo, yn garreg filltir bwysig arall yn ein hanes. Mae yma gydnabyddiaeth fod angen ail-ddiffinio cylch gorchwyl statudol S4C i gynnwys anghenion yr oes ddigidol. Fel mae'r Adolygiad yn ei argymhell, gallwn bellach fwrw mlaen yn hyderus â'n strategaeth ddigidol gan wybod fod yna gytundeb eang y dylai S4C fod yn darparu gwasanaethau cyfryngau cyhoeddus Cymraeg ar ystod o lwyfannau, hen a newydd.

Un o dasgau cyntaf Owen Evans fel ein Prif Weithredwr newydd oedd adolygu ein strategaeth ddigidol. Mae ei gyflwyniad i'r Adroddiad Blynnyddol yma'n gosod allan ei phrif bwyntiau ac roedd Bwrdd yr Awdurdod yn falch o gymeradwyo clustnodi £1m y flwyddyn ar gyfer ei rhoi ar waith yn ystod y tair blynedd nesaf. Bydd yr arian hwn yn fan cychwyn i sefydlu'r ganolfan ddata a phersonoleiddio newydd fydd yn rhan o'n pencadlys newydd yng Nghaerfyrddin. Mae'r cynlluniau ar gyfer y symud yn dilyn yr amserlen sydd wedi ei gosod ac mae symud pencadlys corff cenedlaethol i Dde-Orllewin Cymru yn cael ei weld yn lleol fel datganiad anferth o hyder ym mhotosial economaidd a chreadigol yr ardal ac yn gam i wrthsefyll y duedd gyffredinol i dwf gael ei ganoli ar brifddinasoedd. Mae'r cysylltiad rhwng cyfleoedd economaidd a ffyniant cymunedau Cymraeg hefyd yn glir.

Yr Iaith Gymraeg

Mae hi wastad wedi bod yn fater o synnwyr cyffredin fod sianel deledu lwyddiannus yn elfen allweddol o gynnal iaith leiafrifol yn y byd modern. Gyda pholisi iaith yn faes cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru, a pholisi darlledu yn parhau'n gyfrifoldeb San Steffan, awgrym yr Adolygiad yw y dylai S4C sefydlu partneriaeth ffurfiol gyda Llywodraeth Cymru ac asiantaethau eraill sydd â'r gwaith o gefnogi'r iaith Gymraeg. Mae gan yr Adolygiad eiriau cryfion am yr angen am bartneru effeithiol ac mae'n rhaid i ni gymryd sylw o'r rhain. Cymerwyd camau pwysig eisoes, gyda'r prif gyrff yn y maes yn awr yn cyfarfod yn rheolaidd i adnabod a chydweithio ar brosiectau allweddol. Y meysydd amlwg ar gyfer y fath gydweithio, gan adeiladu ar ymdrechion y presennol, fydd addysg, dysgu Cymraeg, plant, pobl ifanc a sgiliau.

The publication of Euryn Ogwen Williams' review of S4C, together with the Government's response, was another important milestone in our history. The need for S4C's statutory remit to be redefined to encompass the needs of the digital age has been acknowledged. As the Review recommends, we can now pursue our digital strategy confident in the knowledge that there is broad support for the view that S4C should be a comprehensive Welsh language media service provider on a range of platforms, old and new.

One of Owen Evans's first tasks as our new Chief Executive was to review our digital strategy. His introduction to this Annual Report sets out its main points and the Authority Board was pleased to approve the allocation of £1m per annum specifically for its implementation during the next three years. This funding will kick-start the establishment of the new data and personalisation centre which will be based at our new headquarters in Carmarthen. Plans for the move are on track and moving the HQ of a national organisation to South West Wales is seen locally as a huge statement of confidence in the area's economic and creative potential and a counterbalance to the prevailing trends for growth to be centred exclusively on capital cities. The link also between economic opportunities and the survival of Welsh-speaking communities is clear.

The Welsh Language

It has always been a matter of common sense that a successful television channel is a key element in sustaining a minority language in the modern world. With language policy being the preserve of the Welsh Government, and broadcasting policy remaining a Westminster responsibility, the Review suggests that S4C should establish a formal partnership with the Welsh Government and other agencies which have a remit to support the Welsh language. The Review has some strong words about the need for effective partnership and we must heed these. Important steps have already been taken, with the lead organisations now meeting regularly to identify and work together on key projects. The obvious fields for such collaboration, building on existing efforts, will be education, language learning, children, young people and skills.



Mae'n oes aur i gynhyrchwyr cynnwys. Mae'r byd yn fwy agored nag erioed i gynnyrch gwych ym mha iaith bynnag y'i gwneir. It is a golden age for content producers. The world is more open than ever to high quality content in whatever language it is made.

Cyllido

Roeddem yn falch iawn fod Llywodraeth y DU, wrth ymateb i'r Adolygiad, wedi cytuno i gadw ein cyllido DCMS ar ei lefel bresennol am y ddwy flynedd nesaf ac i dderbyn argymhelliad yr Adolygiad bod angen sicrhau bod ariannu S4C yn cael ei roi ar seiliau sefydlog a thryloyw ar gyfer y dyfodol. Mae'n glir nad yw'n ddymunol i gwestiwn cyllido S4C godi ei ben bob tro y bydd y Llywodraeth yn cynnal adolygiad gwariant, yn ogystal â phan fydd lefel y ffi drwydded yn cael ei drafod. Gwelir y math o sicrwydd ariannu pum mlynedd y mae'r Siarter yn ei roi i'r BBC fel ffon fesur, ac mae hyn yn ymddangos yn ffordd synhwyrol ymlaen.

Rydym yn deall goblygiadau hyn ar gyfer lefel setliad y ffi drwydded yn ei chyfarwydd yn 2022. Nodwn fodd bynnag fod cyfrifoldeb am benderfynu lefel cyllido S4C yn aros gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac na fydd hyn yn newid hyd yn oed os bydd y cyfan o gyllido S4C yn y pen draw yn dod o'r ffi drwydded. Mae hyn, yn ogystal â'r ymrwymiad clir i annibyniaeth S4C a welir yn ymateb yn Llywodraeth, ac hefyd yr ymrwymiad cyfatebol a roddir yn ein Cytundeb Partneriaeth newydd gyda'r BBC, a arwyddwyd ym mis Tachwedd, yn rhoi hyder i ni na fyddai newid o'r math yn tanseilio annibyniaeth S4C.

Llywodraethiant

Mae'r Adolygiad yn argymhell y dylai S4C gael ei ail-gyfansoddi ar ffurf Bwrdd Unedol, tebyg i fodel llywodraethiant newydd y BBC. Yn rhy aml yn y gorffennol fe fu canfyddiad fod S4C a'r Awdurdod yn gyrrff ar wahân, felly rydym yn croesawu hyn. Fe fyddwn yn hapus i esblygu'r strwythur presennol i ffurfio bwrdd cysgodol tra'n disgwyl deddfwriaeth. Bydd ein tasg yn hyn o beth yn cael ei helpu'n fawr gan benodiad tri aelod newydd i Fwrdd yr Awdurdod.

Mae'r Adolygiad hefyd yn awgrymu integreiddio gweithgareddau masnachol S4C yn fwy agos gyda'n hamcanion ar gyfer y gwasanaeth cyhoeddus. Mae adolygiad y Prif Weithredwr o'n strategaeth fasnachol hefyd yn gwneud hyn yn rhywbeth i'w ddymuno'n fawr. Er gwaethaf colled i'n cronfeydd masnachol yn sgîl mentrau masnachol megis Loteri Cymru, sydd i'w resynu, mae'n werth nodi fod perfformiad gweithgareddau masnachol yn eu cyfarwydd wedi parhau'n gadarnhaol.

Funding

We were very glad that the UK Government, in responding to the Review, agreed to maintain our DCMS funding at existing levels for the next two years and to accept the review's conclusion that there is a need to ensure S4C funding is on a stable and transparent footing. Clearly, it is not desirable for the question of S4C funding to raise its head every time there is a government spending review, as well as when the level of the licence fee is discussed. Identifying as a benchmark the kind of five year funding visibility which the Charter provides for the BBC, seems a sensible way forward.

We understand the implication this has for the overall level of the licence fee settlement in 2022. We note however that responsibility for deciding the level of S4C funding remains with the Secretary of State for Digital, Culture, Media and Sport and that this will not change even if the whole of S4C funding eventually derives from the licence fee. This, together with the clear commitment to S4C independence in the Government's response, as well as the corresponding commitment in our new Partnership Agreement with the BBC agreed in November, gives us confidence that such a move would not undermine S4C's independence.

Governance

The Review recommends that S4C be reconstituted in the form of a Unitary Board, similar to the BBC's new governance model. Too often in the past there has been a perception that S4C and the Authority are separate bodies, so we welcome this. We will be happy to evolve the present structure to form a shadow board while awaiting legislation. We will be greatly helped in this task by the appointment of three new members to the Authority Board.

The Review also suggests integrating S4C's commercial activities more closely with our public service ambitions. The Chief Executive's review of our commercial strategy also makes this highly desirable. It is worth noting that despite regrettable losses to our commercial reserves caused by the exposure to commercial ventures, including Loteri Cymru, the overall contribution of commercial activities to our mission has remained positive.



Ar ystod o lwyfannau ac mewn ffyrdd amrywiol, mae'n rhaid i ni geisio bodloni anghenion yr holl siaradwyr Cymraeg - cynulleidfa heddiw yn ogystal ag un yfory. On a range of platforms and in different ways, we must seek to meet the needs of all Welsh speakers - today's audience as well as that of tomorrow.

Yn ogystal, dros y pum mlynedd diwethaf, mae £15m o gyllid cyd-gynhyrchu, llawer ohono ar ffurf hawliau darlledu ar gyfer marchnadoedd eraill sy'n cael eu gwerthu ymlaen llaw, wedi gwneud cyfraniad ychwanegol pwysig i werthoedd cynhyrchu ar y sgrin.

Y Ffordd Ymlaen

Mae S4C wedi hen ennill ei le fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, gyda swyddogaeth benodol, o fewn y drefn ryngwladol a Phrydeinig. Er y bydd arian yn dyn, mae yna ymrwymiad o sefydlogrwydd am beth amser i ddod, sydd ddim ar gael i bob corff cyhoeddus. Mae'n oes aur i gynhyrchwyr cynnwys. Mae'r byd yn fwy agored nag erioed i gynnyrch gwych ym mha iaith bynnag y'i gwneir. Mae rhai o'n cynyrchiadau diweddar yn rhoi sylfaen wych i adeiladu arno.

Wrth i siâp cyfryngau adloniant a chyfathrebu'r dyfodol barhau i esblygu, fe fydd gan S4C ran ganolog ac unigryw i'w chwarae yn y gwaith o sicrhau amlygrwydd a llewyrch i'r iaith Gymraeg. Ar ystod o lwyfannau ac mewn ffyrdd amrywiol, mae'n rhaid i ni geisio bodloni anghenion yr holl siaradwyr Cymraeg - cynulleidfa heddiw yn ogystal ag un yfory. Bydd y pynciau a'r cwestiynau y bydd yn rhaid eu hwynebu yn rhan allweddol o waith yr Awdurdod, ac o'r Bwrdd Unedol fydd yn ei ddilyn, yn y blynyddoedd i ddod.

Furthermore, over the past five years, £15m of co-production funding, much of it in the form of pre-sales of broadcasting rights to other markets, has made an important additional contribution to on-screen production values.

The Way Ahead

S4C has a clearly defined and well-established role as a public service broadcaster within the UK and international order. Funding will be tight, but there is a commitment to stability for some time to come, which is not available to every public body. It is a golden age for content producers. The world is more open than ever to high quality content in whatever language it is made. Some of our recent productions provide a wonderful basis from which to move forward.

As the shape of future entertainment and communication media continues to evolve, S4C will have a central and unique role to play in the work of ensuring prominence and success for the Welsh language. On a range of platforms and in different ways, we must seek to meet the needs of all Welsh speakers - today's audience as well as that of tomorrow. The issues and choices to be faced will be a key part of the work of the Authority and the Unitary Board which will follow it, in the years to come.

Cyflwyniad y Prif Weithredwr

Chief Executive's Introduction

Owen Evans



Hwn yw fy adroddiad blynyddol cyntaf fel Prif Weithredwr S4C. Hoffwn ei ddefnyddio i adrodd ar y flwyddyn ddiwethaf ond hefyd i edrych ar y ffordd y mae'r flwyddyn honno yn cefnogi ein dyfodol, dyfodol fel darparwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus yn hytrach na dim ond Darlledwr Gwasanaeth Cyhoeddus. Wrth wneud hyn, byddaf yn amlinellu ein gweledigaeth i fod yn arloeswr ym maes darlledu'r cyfryngau, gan ddefnyddio'r amrywiaeth o sianeli sydd ar gael i ni i wasanaethu ein cynulleidfa yn well. Mae'r ffaith bod gennym bellach dair blynedd o sefydlogrwydd yn ein cyllid yn droednodyn pwysig oherwydd gallwn 'nawr gynllunio ar gyfer y dyfodol.

This is my first annual report as Chief Executive of S4C. I'd like to use it to report on the past year but also with an eye on how that year supports our future, a future as a Public Service Media provider rather than just a Public Service Broadcaster. In doing this I will spell out our vision to be an innovator in media broadcast, using the range of channels at our disposal to better serve our audience. The fact that we now have three years of stability in our funding is an important footnote to now being able to plan for the future.

'Times they are a changin' chwedl Bob Dylan. Gyda dyfodiad Netflix, Amazon, Facebook a Facebook Watch, Youtube yn ei amryw ffurfiau, ac, yn fwyaf diweddar, Apple, mae'r byd darlledu wedi newid am byth, gan ddod â chyfleoedd a bygythiadau yn ei sgîl. Un o'r manteision yw nad yw'r gwylwr wedi cael cymaint o ddewis ac nad oes cymaint o gynnwys wedi cael ei gynhyrchu erioed o'r blaen, ond, ar y llaw arall, mae'n rhaid i ddarlledwyr llai gystadlu mewn byd darlledu cymhleth sy'n newid yn gyflym. Ond rwyf o'r farn y gallwn ni wneud hynny.

Mae llawer o sylwebyddion a darlledwyr yn dechrau sylwi ar y newidiadau yn y patrymau gwyllo, a goblygiadau hynny ar gyfer eu dyfodol. Mae pobl ifanc, yn arbennig, yn troi eu cefn ar raglennu lliniol neu raglennu wedi'i drefnu, gan fwynhau cynnwys ar ffurf fyrrach, a ddarperir yn aml gan eu cyfoedion. Mae llwyddiant Hansh wedi amlygu hyn, wrth i ni fuddsoddi mewn modelau a oedd yn addas i'r gynulleidfa honno o ran y cynnwys a'r dull dosbarthu. Mae fy ngrŵp oedran fy hun yn mynnu cael gwasanaeth mwy personol, ac yn gwyllo eu cynnwys yn gynyddol trwy'r gwasanaeth dal i fyny ar y brif sgrin, neu drwy ddyfeisiau symudol neu glyfar. Mae miloedd ar filoedd, wrth gwrs, yn parhau i fwynhau ein cynnwys yn y modd traddodiadol trwy ein prif sianel.

'Times they are a changin' as Bob Dylan sang. With the emergence of Netflix, Amazon, Facebook and Facebook Watch, Youtube in its many guises and most recently Apple, the broadcast landscape has irrevocably changed bringing with it opportunities and threats. Good is that the viewer has never had so much choice and so much content being produced, the downside is that smaller broadcasters must compete in a complex and rapidly changing landscape, but I believe we can.

Many observers and broadcasters are beginning to witness the shifts in viewing patterns and what that means for their futures. Young people in particular are moving away from linear or scheduled programming, enjoying shorter form content, often provided by their peers. The success of Hansh has demonstrated this as we invested in content and distribution models that suit that audience. My own age group are demanding a more personalised service and increasingly watching their content via catch up on the main screen or via mobile or smart devices. Many thousands, of course, continue to enjoy our content in the traditional means through our main channel.

Cyflwyniad y Prif Weithredwr Chief Executive's Introduction Owen Evans



Personoli, ynghyd â chynnwys gwyb, fydd yr ateb. Personalisation, allied to great content will be the key.

Er i ni ystyried, ar un adeg, bod hyn yn golygu gorfod dilyn dau lwybr, un traddodiadol ac un digidol, byddwn yn gallu achub ar y cyfle yn y dyfodol i ddyfeisio cyfres o lwyfannau hyblyg ond heini sy'n addas ar gyfer pob cynulleidfa. Er bod llawer o bobl yn darogan y bydd rhaglennu lliniol yn diflannu oddi ar ein prif sianel ddarlledu yn ystod y deg i bymtheng mlynedd nesaf, yr her i ni 'nawr fydd cydbwysu'r hyn yr ydym yn ei ddosbarthu er mwyn gwasanaethu ein cynulleidfa oedd yn y ffordd orau. Personoli, ynghyd â chynnwys gwyb, fydd yr ateb.

Dyna pam yr ydym wedi cyhoeddi buddsoddiad o £3 miliwn yn y technolegau a'r cynnwys a fydd yn ein galluogi i ddarparu gwasanaeth mwy personol i'n gwylwyr. Ac rydym yn edrych ymlaen at sefydlu ein Pencadlys newydd yng Nghaerfyrddin yn ganolbwynt ar gyfer y datblygiad digidol arloesol hwn. Bydd hyn yn golygu y gallwn adeiladu ein perthynas â'r gynulleidfa, a hynny o fod yn berthynas un i filoedd i fod yn brofiad sy'n nes at berthynas un i un. Ond beth am y cynnwys?

Mae S4C wedi cael blwyddyn dda. Cyrhaeddwyd y gynulleidfa fwyaf ledled y Deyrnas Unedig oddi ar 2004, diolch yn rhannol i flwyddyn ragorol o ran darlledu chwaraeon. Bu cynnydd o 12% yn un o'n grwpiau demograffig allweddol, sef pobl rhwng 45 a 64 oed. Bu cynnydd o 7% yn nifer y bobl a oedd yn gwyllo ar-lein. I'r rheiny sy'n ddigon ffodus i fod rhwng 16 a 34 oed, cofnodwyd bron i bum miliwn o sesiynau gwyllo ar gyfer Hansh. Rydym hefyd wedi gwneud tipyn o gynnydd o ran gweithio gyda darlledwyr partner. Comisiwn gwreiddiol gan S4C oedd Un Bore Mercher (neu Keeping Faith), a ddosbarthwyd gyda'n partneriaid, BBC Cymru. Erbyn hyn, ymddengys mai hon fydd y gyfres gyntaf a gomisiynwyd gan S4C i gael ei darlledu ar BBC1. Rydym

Whilst once we viewed this as having to ride two paths, one traditional, one digital, the future presents the opportunity for us to grasp the opportunities and devise a flexible but nimble series of platforms suited to each audience. Whilst many can see the eventual demise of linear programming such as on our main broadcast channel over the next ten to fifteen years, for us now the challenge will be to rebalance our distribution so as to best serve our audiences. Personalisation, allied to great content will be the key.

That's why we have announced a £3m investment in the technologies and content that will allow us to deliver a more personalised service for our viewers. And we're looking forward to establishing our new HQ in Carmarthen as the hub for this digital innovation. This will mean that we can build our relationship with the audience from being one to thousands to a more one to one experience. But what of the content?

S4C has had a good year. Its highest reach across the UK since 2004, thanks in part to a bumper year for sports coverage. A 12% increase in reach for one of our key demographics, the 45-64 year olds. A 7% rise in viewing online. For those lucky enough to be 16-34 Hansh has attracted nearly 5 million viewing sessions. We've also made great inroads into working with partner broadcasters. Un Bore Mercher (or Keeping Faith) was an S4C originated commission, delivered with our partners BBC Wales, now destined to be the first S4C commissioned series to be shown on BBC1. We've also had success in co-commissioning with Channel 4 and Channel 5 have now invested in commissioning 35 Days, another S4C original developed and produced by Boom.



Rwyf wedi gosod y nod o sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar gefnogi'r gwaith o ddatblygu cynnwys gwyb, llwyfannau dosbarthu hyblyg a marchnata greddfoll yn y dyfodol. I have set the goal of ensuring that our focus is on supporting the development of great content, flexible distribution platforms and intuitive marketing as our future.

hefyd wedi llwyddo i gyd-gomisiynu gyda Channel 4, ac mae Channel 5 bellach wedi buddsoddi mewn comisiynu 35 Diwrnod, sef cyfres wreiddiol arall ar S4C, a ddatblygwyd ac a gynhyrchwyd gan Boom.

Rydym wedi ailwampio nifer o'n hoff frandiau, gan gynnwys Cefn Gwlad a Dechrau Canu Dechrau Canmol, a hynny yn llwyddiannus iawn. Rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda'n cynulleidfa yn ystod y flwyddyn i ddod, gan gymryd mwy o risgiau, ond hefyd ailadrodd rhai o'n llwyddiannau, boed y rheiny'n ddramâu eithriadol, yn rhaglenni plant difyr ac addysgol, yn rhaglenni adloniant a ffeithiol na ellir eu colli, neu'n rhaglenni chwaraeon rhagorol.

Hoffwn dalu teyrnged i'r gwaith a wnaed gan Amanda Rees a'i thim, yn ogystal â'n myrdd o bartneriaid cynhyrchu, o ran gwella ein rhaglenni, treialu fformatau ac amserlenni newydd, a rhoi bywyd newydd i rai o'n rhaglenni mwy sefydledig, a hyn oll yn wyneb cyllidebau sy'n lleihau a disgwyladau uwch gan y gynulleidfa.

Rwyf wedi gosod y nod o sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar gefnogi'r gwaith o ddatblygu cynnwys gwyb, llwyfannau dosbarthu hyblyg a marchnata greddfoll yn y dyfodol. Mae hyn wedi golygu adolygu llawer o'n gweithgareddau parhaus. Un o'r gweithgareddau pwysicaf fu ail-ffocysu ein his-gwmnïau masnachol i gefnogi'r nodau hyn. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i gadeirydd ymadawol ein Bwrdd Masnachol, Carol Bell, am ei hegni a'i phenderfyniad wrth sefydlu portffolio masnachol cytbwys sydd wedi cyflawni ar gyfer S4C. Bydd y gronfa fasnachol yn parhau i weithredu dull portffolio cytbwys ac yn cymryd risgiau, ond bydd hynny yn fwyfwy o ran buddsoddiadau neu weithgareddau sy'n cefnogi ein nodau allweddol.

Bydd S4C yn parhau i fod yn ddarlledwr annibynnol a phenderfynol sy'n gweithio gydag eraill i gyflwyno rhaglenni gwyb, ond sydd hefyd yn cofio ei etifeddiaeth a'r rhesymau dros ei sefydlu. Rydym wedi dangos ein hymrwymiad i lunio partneriaethau ac i feddwl mewn ffordd ffres am y modd yr ydym yn gweithio. Wrth agor ein Pencadlys newydd, bydd gennym yr hyblygrwydd a'r cryfder a ddaw yn sgil gweithio o dair gwahanol swyddfa, yng Nghaerfyrddin, Caerdydd a Chaernarfon. Byddwn hefyd yn gweithio gyda'n partneriaid cynhyrchu i adlewyrchu

We've revamped many of our cherished brands, including Cefn Gwlad and Dechrau Canu Dechrau Canmol to considerable success. I'm looking forward to working with our audience over the coming year to take more risks but to also replicate some of the successes we've had whether it's been our extraordinary dramas, entertaining and educational children's programmes, our must watch entertainment and factual and outstanding sports coverage.

I'd like to pay tribute to the work that Amanda Rees and her team and our myriad of production partners have done in improving our programming, trialling new formats and schedules, breathing life into some of our more established programmes with a backdrop of decreasing budgets and rising audience expectations.

I have set the goal of ensuring that our focus is on supporting the development of great content, flexible distribution platforms and intuitive marketing as our future. This has meant reviewing many of our on-going activities. One of the most pressing has been the re-focusing of our commercial subsidiaries to support these aims. I'd like to take this opportunity to thank the out-going chair of our Commercial Board, Carol Bell, for her energy and drive in establishing a balanced commercial portfolio that has delivered for S4C. The commercial fund will continue to operate a balanced portfolio approach and will take risks but increasingly in investments or activities that support our key goals.

S4C will continue to be an independent and determined broadcaster that works with others to deliver great programming but also remembers its heritage and the reasons for its inception. We have shown our commitment to partner and to think afresh about how we work. With our new HQ we will have the flexibility and strength of working from three diverse offices, in Carmarthen, Cardiff and Caernarfon. We will also work with our production partners to better reflect the geography of Wales. We have also signed a ground-breaking partnership with the BBC, outsourcing our transmission and other technical services but also deepening our strategic relationship. We will use that strength and diversity to work closely with our partners to support the development of the Welsh language, focusing our attention



Bydd S4C yn parhau i fod yn ddarledwr annibynnol a phenderfynol sy'n gweithio gydag eraill i gyflwyno rhaglenni gwych, ond sydd hefyd yn cofio ei etifeddiaeth a'r rhesymau dros ei sefydlu. S4C will continue to be an independent and determined broadcaster that works with others to deliver great programming but also remembers its heritage and the reasons for its inception.

daearyddiaeth Cymru yn well. At hynny, rydym wedi llofnodi partneriaeth arloesol gyda'r BBC, gan allanoli ein gwasanaethau darlledu a gwasanaethau technegol eraill, a dyfnhau ein perthynas strategol ar yr un pryd. Byddwn yn defnyddio'r cryfder a'r amrywiaeth honno i weithio'n agos gyda'n partneriaid i gefnogi datblygiad y Gymraeg, gan ganolbwyntio ar raglenni allweddol y gallwn eu cefnogi. Yn sail i hyn fydd ein hymrwymiad i'r sector yng Nghymru, sector sy'n parhau i gyflenwi buddion arloesol ac economaidd ledled y wlad.

Mae gennym uchelgais rhyngwladol hefyd. Mae ein fformatau yn gystadleuol ac mae ein brand yn gryf. Trwy werthu rhaglenni yn rhyngwladol, er enghraifft dramâu mewn arddull 'Sgandi' i Sgandinafia, a rhaglenni am gynllwynion gwleidyddol i'r Unol Daleithiau, mae yna awgrym ein bod ni a'n partneriaid cynhyrchu yn gwneud rhywbeth yn iawn. Hoffwn gyflwyno ein cynnwys i'r byd, ond hefyd ddod â'r gorau i Gymru wrth i ni sicrhau persbectif rhyngwladol ar gyfer cynulleidfa sy'n gofyn am hynny yn gynyddol.

Ysgrifennodd Dr Elain Price, 'Nid Sianel Gyffredin Mohoni'. Ein natur unigryw yw ein cryfder. Mae'n amlwg eleni bod gennym lawer i adeiladu arno, a llawer i'w wneud.

on key programmes we can support. Underpinning this will be our commitment to the sector in Wales, a sector that continues to deliver innovation and economic benefits across the nation.

Internationally too, we have ambition. Our formats are competitive and our brand strong. With international sales of Scandic style drama to Scandinavia, programmes with political intrigue to the US, it's enough to suggest that we and our production partners might be doing something right. I'd like to take our content to the world but also to bring the best to Wales as we ensure an international perspective for an audience that increasingly demands it.

Dr Elain Price wrote, 'Nid Sianel Gyffredin Mohoni' (This is no ordinary channel). Our uniqueness is our strength. This year demonstrates we have much to build on, and much to do.

Ar y Dibyn



Sut berfformiodd S4C yn 2017/2018

How S4C performed in 2017/2018

Mae sicrhau fod gwasanaethau iaith Gymraeg S4C yn ymateb i ddisgwyliadau'r gynulleidfa, ac yn cael eu gwerthfawrogi a'u defnyddio'n rheolaidd gan yr ystod ehangaf o bobl yn greiddiol i waith S4C.

Ensuring that S4C's Welsh language services respond to the audience's expectations, and are valued and regularly used by the widest audience is key to S4C's mission.

Sut mae S4C yn asesu perfformiad y gwasanaeth? How does S4C assess the performance of the service?

Mae gan Fwrdd Awdurdod S4C ddyletswydd i sicrhau fod gwasanaethau S4C yn ymateb i anghenion ein cynulleidfa. Mae hyn yn rhan greiddiol o atebolrwydd S4C i'r gynulleidfa. Mae'r Bwrdd yn asesu perfformiad gwasanaethau S4C yn gyson, a chyflwynir isod asesiad perfformiad S4C yn erbyn fframwaith mesuryddion perfformiad a Blaenoriaethau Strategol S4C ar gyfer y cyfnod Ebrill 2017 i Fawrth 2018.

The S4C Authority Board has a duty to ensure that S4C's services respond to the needs of our audience. This is a core part of S4C's accountability to the audience. The Board regularly assesses the performance of S4C's services. The performance assessment presented below is based on the performance measurement framework and S4C's Strategic Priorities for the period April 2017 to March 2018.

Rhoddir arweiniad i weithgareddau S4C gan bedair blaenoriaeth strategol sydd wedi eu datblygu er mwyn rhoi cyfeiriad i waith S4C a sicrhau fod holl wasanaethau S4C yn ymateb i anghenion y gynulleidfa:

S4C's activities are guided by four strategic priorities that have been developed to provide direction to S4C's work and to ensure that S4C's services respond to the needs of the audience:

1	2	3	4
Darparu gwasanaeth poblogaidd o safon uchel, ar amrywiaeth o lwyfannau cyfoes, gan sicrhau fod y cynnwys ar gael i'w dderbyn a'i ddefnyddio unrhyw amser, unrhyw le. Provide a high quality and popular service across a range of contemporary platforms, ensuring that the content can be accessed and viewed at anytime and anywhere.	Dyfnhau ein hadnabyddiaeth o'r gynulleidfa, ei gofynion a'i barn am y gwasanaeth, a sicrhau bod hyn yn greiddiol i waith S4C. Strengthen our understanding of the audience, its requirements and its response to the S4C service and ensure that this is central to S4C's operation.	Sicrhau perthynas effeithiol a chreadigol gyda chyflenwyr a phartneriaid eraill. Ensure an effective and creative relationship with suppliers and other partners.	Parhau i sicrhau gwerth am arian a manteisio ar gyfleoedd masnachol. Continue to deliver value for money and make the most of commercial opportunities.

Wrth asesu perfformiad gwasanaeth S4C, mae'n angenrheidiol i ystyried ystod o ffactorau, gan gynnwys ffigyrau gwyllo ar deledu ac arlein, gwerthfawrogiad ac ymateb y gynulleidfa i'r cynnwys a rhaglenni, yr effaith ehangach y mae S4C a'r gwasanaeth yn llwyddo i'w gael, a'r gwerth a chefnogaeth y mae S4C yn gallu ei ddarparu i bartneriaid a rhanddeiliaid eraill yng Nghymru.

In assessing the performance of the S4C service, it is necessary to consider a range of factors, including television and online viewing figures, appreciation and audience response to content and programmes, the wider impact created by S4C and its service, and the value and support that S4C can provide to partners and other stakeholders in Wales.

Mae Pwyllgor Cynnwys y Bwrdd yn ystyried adroddiadau ar gynnwys a pherfformiad y gwasanaeth rhaglenni yn rheolaidd, ac yn ystod 2017/18 rhoddwyd sylw arbennig i feysydd chwaraeon, digidol a phobl ifanc, ffeithiol, digwyddiadau, drama, adloniant a chomedi yn ogystal ag adolygiadau o berfformiad yr amserlen.

The Board's Content Committee regularly considers reports on the content and performance of the programme service, and during 2017/18 special attention was given to the sports, digital and young people, factual, events, drama, entertainment and comedy genres as well as reviews of the schedule's performance.

Mae'r Pwyllgor, sy'n cyfarfod bob deufis, hefyd yn ystyried rhaglenni a chyfresi unigol sy'n ymddangos yn ystod y flwyddyn. Mae adroddiadau'r Pwyllgor Cynnwys yn cael eu hystyried ymhellach yng nghyfarfodydd misol y Bwrdd.

The Committee, which meets every two months also considers individual programmes and series that are broadcast during the year. The Committee's reports are considered further in the Board's monthly meetings.

Mae'r trosolwg canlynol yn seiliedig ar y trafodaethau hyn.

The following overview is based on these discussions.

Mae Bwrdd yr Awdurdod yn falch o berfformiad calonogol gwasanaeth S4C yn ystod y flwyddyn.

Mae'r gwasanaeth yn parhau i gael ei ddefnyddio a'i werthfawrogi gan gynulleidfa eang - yng Nghymru, ar draws y DU a thu hwnt. Gwelwyd cynnydd unwaith eto o ran nifer y bobl sy'n gwyllo'r gwasanaeth yng Nghymru ac ar draws y DU, yn ogystal â chynnydd o ran defnydd o'n cynnwys arlein.

Cafwyd gwerthfawrogiad uchel gan y gynulleidfa o safon ac amrywiaeth y cynnwys oedd yn cael ei gynnig.

The Authority's Board is pleased to record an encouraging performance by S4C during the year.

The service continues to be used and valued by a wide audience - in Wales, across the UK and beyond. The number of people viewing the service in Wales and across the UK increased during the year, and usage of online content also increased.

Appreciation of the quality and variety of the content remained high amongst the audience.



Mae mwy o bobl yn gwyllo rhaglenni S4C - ar deledu ac arlein
More people are watching S4C's programmes - on TV and online

Patrymau gwyllo yn amrywio

Mae'n bwysig i S4C ddarparu gwasanaeth Cymraeg i'n cynulleidfa lle bynnag y bônt - boed hynny mewn cymunedau yng Nghymru, ar draws y DU ac i'r gwylwyr rhyngwladol sy'n awyddus i gadw cysylltiad gyda Chymru.

Mae nifer sylweddol o wylwyr erbyn hyn yn dewis gwyllo S4C ar lwyfannau arlein a chyfryngau cymdeithasol yn unig sy'n golygu fod nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n defnyddio'n cynnwys yn uwch na'r ffigur ar gyfer gwylwyr teledu yn unig.

Yng Nghymru, gwelwyd cynnydd o 5% yn nifer y bobl sy'n gwyllo S4C ar deledu. Gwelwyd gostyngiad bychan yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru sy'n gwyllo S4C ar deledu ond gwelir fod y nifer yma'n sefydlog dros nifer o flynyddoedd.

Changing viewing patterns

It is important that S4C provides a Welsh language service to our audience wherever they are-whether in communities in Wales, across the UK and international viewers who are keen to maintain contact with Wales.

A significant number of viewers are now choosing to watch S4C on online platforms and social media only which means that the number of Welsh speakers using the content is higher than the figure for TV viewers only.

In Wales, the number of people watching S4C on television has increased by 5%. There has been a slight decrease in the number of Welsh speakers watching S4C on television but this number is seen to be stable over a number of years.



Patrymau gwyllo yn amrywio
Viewing patterns continue to change

Rydym yn dal i weld patrymau gwyllo newydd yn datblygu y tu hwnt i Gymru, gyda chynnydd pellach ar deledu o 12% flwyddyn ar flwyddyn ar draws y DU. Bellach mae 325,000 o wylwyr bob wythnos yn gwyllo gwasanaeth S4C ar deledu tu allan i Gymru ar gyfartaledd. Mae'r defnydd arlein tu allan i Gymru hefyd wedi cynyddu.

Ar ôl degawd a mwy o ddarogan newidiadau'r byd digidol, yn 2017/18 gwelwom arferion gwyllo newydd yn cydio'n wirioneddol. Mae'n amlwg fod ein cynulleidfa'n gweld S4C fel darparwr cynnwys Cymraeg ar lwyfannau amrywiol, ac nid fel darlledwr teledu traddodiadol yn unig.

We continue to see new viewing patterns developing beyond Wales, with a further increase on television of 12% year on year across the UK. There are now 325,000 viewers on average every week for S4C on television outside Wales. Online usage outside Wales has also increased.

After a decade and more predicting the impact of digital technology, in 2017/18 we saw new viewing habits take hold. Our audience clearly sees S4C as a provider of Welsh language content on various platforms, and not just as a traditional television broadcaster.

+5%

Yng Nghymru, gwelwyd cynnydd o 5% yn nifer y bobl sy'n gwyllo S4C ar deledu. In Wales, the number of people watching S4C on television has increased by 5%.

Mae'r Awdurdod yn falch o berfformiad calonogol gwasanaeth S4C yn ystod y flwyddyn. The Authority is pleased to record an encouraging performance by S4C during the year.

Mae'r llwyfannau arlein traddodiadol - Clic a'r iPlayer - yn parhau'n ganolog ar gyfer ymestyn cyrhaeddiad cynnwys S4C ar lwyfannau sydd heb ffiniau daearyddol, ac mae'r gallu i wyllo'n cynnwys Cymraeg ar gyfryngau cymdeithasol hefyd wedi dod yn batrwm arferol i nifer sylweddol o'n gwylwyr.

Cafwyd dros 45 miliwn o sesiynau gwyllo i raglenni a chynnwys S4C ar ystod o lwyfannau arlein (gan gynnwys Clic, iPlayer a chyfryngau cymdeithasol).

Ar S4C Clic a'r iPlayer cafwyd dros 8 miliwn o sesiynau gwyllo - cynnydd o 7% flwyddyn ar flwyddyn. Mae nifer y sesiynau gwyllo ar Facebook yn unig bellach wedi cyrraedd cyfartaledd o 2.5 miliwn y mis.

Tu allan i Gymru mae'n cynulleidfa'n mwynhau arlwy eang o raglenni - ac yn benodol y ddarpariaeth ar gyfer plant, dramâu, digwyddiadau, chwaraeon a rhaglenni dyddiol. Ond maent yn dewis gwyllo'r cynnwys mewn ffyrdd gwahanol - y tu allan i Gymru mae dros dri chwarter y gwyllo ar deledu i gyfresi drama newydd yn digwydd ar ôl y darllediad cyntaf. Mae'r patrymau hyn yn parhau i esblygu ac, fel darlledwyr eraill, rydym yn dal i ddysgu sut y mae'n cynulleidfa am ddefnyddio ein cynnwys.

Dyma dystiolaeth fod yna gynulleidfa sylweddol ar gyfer cynnwys Cymraeg ar lwyfannau cyfoes o bob math.

Mae'r defnydd a'r ymateb yma'n rhoi seiliau cadarn ar gyfer sicrhau dyfodol gwasanaethau S4C. Mae gwerthfawrogiad y gynulleidfa o wasanaeth S4C yn parhau'n uchel, gyda newidiadau i'r arlwy yn ystod y flwyddyn eisoes wedi dwyn ffrwyth.

The traditional online platforms - Clic and the iPlayer - remain central to extending the reach of S4C's content on platforms that have no geographical boundaries, and the ability to watch Welsh content on social media has also become a normal pattern for a significant number of our viewers.

There were over 45 million viewing sessions for S4C programmes and content across a range of online platforms (including Clic, iPlayer and social media).

On S4C Clic and the iPlayer there were over 8 million viewing sessions - a 7% increase year on year. The number of viewing sessions on Facebook alone has by now reached an average of 2.5 million per month.

Outside Wales, the audience enjoys a wide range of programmes - and in particular the provision for children, drama, events, sports and our daily magazine programmes. Many of them choose to watch the content in alternative ways - outside Wales over three quarters of TV viewing to new drama series takes place after the first broadcast. These patterns continue to evolve and like other broadcasters, we are still learning how our audience chooses to access our content.

Here we have evidence that there is a significant audience for Welsh-language content on contemporary platforms of all kinds.

This use and response provide firm foundations for securing the future of S4C's services. The audience's appreciation of the S4C service remains high, with changes to the provision during the year already having an impact.



Drama Drama

Mae cynnal arlwy ddrama Gymraeg o safon yn rhan sylfaenol o bwrpas bodolaeth S4C, yn rhoi urddas i'r brand a chreu balchder yn y sianel ac yn yr iaith. Eleni roedd cyfresi oedd wedi cael eu cyd-gynhyrchu yn chwarae rhan amlwg yn yr arlwy. Mae cyd-gynhyrchiadau yn caniatáu safonau technegol a golygyddol uchel drwy gynyddu'r gyllideb sydd ar gael. Mae nhw'n cael eu hyrwyddo'n eang a thrwy hynny yn dod yn destun trafod. Trwy gael eu gwerthu i wledydd eraill a'u darlledu y tu allan i Gymru, mae ymwybyddiaeth o Gymru a'r iaith Gymraeg yn cael ei lledaenu.

Cafwyd blwyddyn gref iawn o ran drama wreiddiol gyda Bang, Un Bore Mercher a Craith oll yn cyfrannu at ddenu a chadw cynulleidfa newydd. Mae gwyllo ar amserau gwahanol, ar ôl y darllediadau byw, wedi cynyddu'n sylweddol iawn. Mae cyfleuster bocs set ar lein wedi cynyddu gwyllo i rai cyfresi cymaint â 25%. Denodd Craith y nifer fwyaf o sesiynau gwyllo ar lein erioed i gyfresi ddrama ar S4C. Arbrofodd Bang yn bur llwyddiannus gyda defnydd o ddeialog Cymraeg a Saesneg. Un peth ddenodd sylwadau oedd y ffaith fod y tair cyfresi yn bur dywyll a heriol eu natur. Mewn byd delfrydol, byddai cynnwys mwy amrywiol i'w groesawu, ond nid ar draul safon.

Wrth nodi llwyddiant cydgynhyrchiadau, rhaid hefyd nodi pwysigrwydd parhau i feithrin talent sy'n ysgrifennu trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.

Maintaining a high quality Welsh language drama provision is a fundamental part of S4C's purpose, giving status to the brand and creating pride in the channel and the language. Series that have been co-produced played a prominent role in the offering this year. Co-productions allow high technical and editorial standards by increasing the available budget. They are promoted widely and become the subject of discussion. When they are sold to other countries and broadcast outside Wales, awareness of Wales and the Welsh language is also increased.

Bang, Un Bore Mercher and Craith all contributed to a successful slate of original drama that attracted and retained a new audience. Viewing on a catchup basis, after the live broadcasts, has increased considerably. Online box-sets have increased viewing to some series as much as 25%. Craith attracted the greatest number of online viewing sessions to date to any drama series on S4C. Bang experimented with use of Welsh and English dialogue with considerable success. It was noted that all three series were fairly dark and challenging in nature. In an ideal world, more diverse content would be welcomed, but not at the expense of quality.

In identifying the success of co-productions, the importance of continuing to nurture Welsh language writing talent must also be noted.

Plant a phobl ifanc Children and young people

Bydd Cyw eleni yn dathlu ei phen-blwydd yn ddeng mlwydd oed ac yn gwneud hynny gyda'r cyrhaeddiad wedi cynyddu unwaith yn rhagor. Cafwyd perfformiad cryf iawn hefyd y tu allan i Gymru ac ar lein. Mae pwysigrwydd arlwy Cyw o ran cynnig cyfleoedd i blant ifanc gaffael a defnyddio'r iaith yn parhau.

Mae animeiddio rhyngwladol wedi'i drosi'n gelfydd i'r Gymraeg yn rhan ganolog o arlwy Cyw, ond mae'n bwysig sicrhau bod deunydd gwreiddiol, megis Cacamwni a Tref a Tryst yn dal i gyrraedd y sgrin, gan fod iddo apêl arbennig i blant.

Da hefyd gweld rhaglenni i blant ychydig yn hŷn, megis Deian a Loli, yn cynnal eu hapêl, ond mae'r her o gadw teyrngarwch plant hŷn yn parhau.

Cyw celebrates her tenth birthday this year and will do so with the service once again having increased its reach. Performance outside Wales and online was very strong during the year. Cyw continues to have a very important role in offering opportunities for young children to acquire and use the language.

International animation translated into Welsh is a central part of Cyw's offering. However, it is important to ensure that original content, such as Cacamwni and Tref a Tryst, continues to reach the screen, as it has a special appeal for children.

It is also good to see programmes for slightly older children, such as Deian a Loli, maintaining their appeal. The challenge of sustaining the loyalty of older children is a continuing one.

Deian a Loli

Stwnsh a phlant hŷn Stwnsh and older children

Cafwyd cyfle i ail gyflwyno darpariaeth byw Stwnsh Sadwrn, ac mae ymateb y gynulleidfa i'r rhaglen fyw a sioeau Stwnsh yn yr Eisteddfodau'n profi fod galw ar gyfer darpariaeth i bobl ifanc gan S4C.

Stwnsh Sadwrn's live Saturday morning provision returned, and the audience's response both to the live show and to the Stwnsh shows at the Eisteddfodau demonstrates that there is a demand for content for young people from S4C.

Hansh

Un o lwyddiannau mawr y flwyddyn oedd lawnsio Hansh – yn sianel ddigidol ar lein yn ogystal â rhaglen deledu. Dyma wasanaeth ffurf fer newydd ar gyfer pobl ifanc ar fwy nag un cyfrwng. Mae'n llwyfan i ddangos clipiau gyda chynnwys amrywiol iawn, gan ddefnyddio hiwmor a beiddgarwch. Denodd bron 5 miliwn o sesiynau gwyllo ers ei lawnsio ym mis Mehefin.

One of the year's great successes was the launch of Hansh – as an online digital channel as well as a television programme. This is a new short form service for young people provided across a range of platforms. It shows clips with a variety of content, and irreverent humour. It has already attracted nearly 5 million viewing sessions since its launch in June.

Hansh: Bocs Bry





Chwaraeon Sports

Rhaglenni Dyddiol, Hamdden a Nodwedd Daily, Leisure and Feature Programmes

Drwy'r flwyddyn mae Prynawn Da a Heno, ein rhaglenni dyddiol, yn rhoi sylw i weithgareddau a digwyddiadau cymunedol ledled Cymru. Maen nhw wedi llwyddo i gadw eu cynulleidfarn ystod y flwyddyn ac mae'r cynnydd yn y defnydd o glipiau o eitemau Heno ar gyfryngau cymdeithasol yn drawiadol iawn – 6.9 miliwn o sesiynau i gyd.

Llwyddodd Garddio a Mwy i gynyddu gwylwyr ers y gyfres flaenorol, cryfhaodd Ar Werth wrth fynd i ail gyfres ac roedd Pobl a'u Gerddi yn gysyniad newydd a weithiodd yn dda.

Throughout the year Prynawn Da and Heno, our daily magazine programmes, cover community activities and events across Wales. They have maintained their audience during the year and the increase in the use of clips from Heno's items on social media is impressive – 6.9 million sessions in total.

Garddio a Mwy's audience increased since the previous series, Ar Werth strengthened in its second series, and Pobl a'u Gerddi was a new concept that worked well.

Mae cyfraniad Chwaraeon at yr arlwy eleni wedi bod yn allweddol, a'r hyn sy'n denu'r gynulleidfa fwyaf yw chwaraeon byw o'r safon uchaf. Roedd llwyddiant Cymru yn Ewro 2016 yn dal i gael ei effaith wrth i'r tîm pêl-droed cenedlaethol geisio ennill ei le yn rowndiau terfynol Cwpan y Byd 2018. Methiant fu'r ymdrech honno ar ddiwedd y dydd, ond roedd sicrhau hawliau darlledu i nifer o'r gemau rhagbrofol yn gaffaeliad mawr i'r gwasanaeth. Denodd y gêm yn erbyn Iwerddon y ffigwr uchaf ar gyfer rhaglen unigol ers 2005.

Roedd rygbi rhanbarthol y Pro14 yn boblogaidd iawn.

Mae Sgorio Byw yn rhoi sylw unigryw i glybiau Cynghair Pêldroed Cymru ac mae hyn yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan ddilynwyr niferus y clybiau hyn.

Gyda chymaint o chwaraeon byw ar gael yn gyffredinol, mae apêl rhaglenni uchafbwyntiau'n lleihau. Eto i gyd, pan fydd cyfle i gynnig arlwy unigryw megis uchafbwyntiau gemau'r Llewod, mae hyn yn cael ei werthfawrogi'n fawr. Roedd cyfres Y Ffeit yn torri tir newydd i S4C. Cafwyd llawer o sylw ar gyfryngau cymdeithasol, ond siomedig ar ddiwedd y dydd oedd y niferoedd wnaeth wyllo.

Un o lwyddiannau llai amlwg y flwyddyn oedd y gwe-ddarllediadau sy'n ymwneud â seiclo, rygbi merched, rygbi'r prifysgolion ac ati, sydd oll wedi denu cyrhaeddiad arbennig o uchel ar lwyfannau cymdeithasol ac ar y wê.

Sport's contribution to this year's provision has been significant, and live high quality sports continues to attract an audience. The impact of the Welsh team's success in the Euro 2016 championships continued as the national football team fought to win a place in the 2018 World Cup finals. Sadly, this was not to be, but securing broadcast rights for a number of the qualifier matches was of great value to the service. The match against the Republic of Ireland attracted the highest viewing figure for an individual programme since 2005.

Pro14 rugby once again proved very popular with the audience.

Sgorio Byw provides exclusive coverage of the clubs of the Welsh Football League and this is greatly appreciated by the many fans of these clubs.

With so many live sports generally available, highlights programmes have less appeal for the audience. However, when there is an opportunity to offer a unique provision such as the highlights of the Lions' matches, this is greatly appreciated. The Ffeit series was a new development for S4C and attracted considerable attention on social media though the eventual viewing figures were disappointing.

One of the less obvious successes of the year were the webcasts that provide coverage of cycling, women's rugby, and university rugby, all of which have generated particularly extensive reach on social media platforms and on the web.



▲ Prynawn Da

▶ Bocsio



Adloniant a Chomedi Entertainment and Comedy

Roedd yna fwy o adloniant ffeithiol yn yr arlwy eleni a llai o ffocws ar adloniant 'pur'. Trwy gyfresi cymunedol llawn emosiwn, gan gynnwys Priodas Pum Mil, Hen Blant Bach ac Ar y Bysus, denwyd gwylwyr newydd ac iau. Gwelwyd yn aml fod yr elfen leol yn rhan bwysig o'u hapêl i wylwyr ysgafn. Roedd cymeriadau fel Elis James a Maggi Noggi yn newydd i'r sianel ac yn cynnig adloniant ffres ar ffurf comedi difyr a gwreiddiol Cymreig. Wrth addasu'r amserlen, crëwyd slot awr newydd ynghanol yr wythnos a weithiodd yn dda iawn ar gyfer cyfresi fel Priodas Pum Mil a Fferm Ffactor.

More factual entertainment was offered this year, with less focus on 'pure' entertainment. Community-based series, with a strong emotional engagement, such as Priodas Pum Mil, Hen Blant Bach and Ar y Bysus, attracted new and younger viewers. Having a local element appears to be an important part of the appeal to lighter viewers. Characters such as Elis James and Maggi Noggi were new to the channel and offered an original and entertaining take on Welsh comedy. In adapting the programme schedule, a new 60 minute slot was created mid-week. This has worked well for series such as Priodas Pum Mil and Fferm Ffactor.

Digwyddiadau

Events

Eisteddfod yr Urdd, Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen, Sioe Frenhinol Cymru, yr Eisteddfod Genedlaethol, Yr Ŵyl Gerdd Dant a'r Ffair Aeaf - dyma swmp sylweddol o raglenni, y rhan fwyaf yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr, yn ystod eu cyfnodau amrywiol. Yn gynyddol, gwelir cynnydd i'r gwylio ar lein o'r digwyddiadau hyn gan gynnwys yr ystod o glipiau newydd a gwahanol sy'n cael eu darparu ar y cyfryngau cymdeithasol.

Events coverage comprised the Urdd Eisteddfod, Llangollen International Musical Eisteddfod, the Royal Welsh Show, the National Eisteddfod, the Gŵyl Cerdd Dant festival and the Winter Fair - a significant programme output, the majority of which are greatly appreciated, during their various periods. Online viewing of these events continues to increase, including for a range of new and different clips that are provided on social media.

Rhaglenni Ffeithiol a Dogfen

Factual and Documentary Programmes

Maes eang sy'n amrywio o bynciau unigol i gyfresi estynedig, gyda'r pwnc yn aml iawn yn creu sŵn a siarad ar lein. Dogfennau unigol a wnaeth hyn trwy ganolbwyntio ar unigolion oedd Flex Lewis, Beti George: Colli David a Cofio Sioned James. Cafwyd canmoliaeth uchel iawn i'r gyfresi newydd Cynefin wnaeth gyflwyno chwech o ardaloedd gwahanol yng Nghymru mewn modd newydd a gafaelgar, gyda chyfuniad ffres o gyflwynwyr.

This is a wide-ranging genre encompassing individual subjects and extended series, with subjects which often generate impact and discussion online. A number of single documentaries achieved this by focusing on individuals such as Flex Lewis, Beti George: Colli David and Cofio Sioned James. The new series, Cynefin, received significant praise as it portrayed six different areas of Wales in a new and engaging way, with a new group of presenters.

Cynefin

Newyddion a Materion Cyfoes News and Current Affairs

Mae'r rhaglenni hyn yn gwneud cyfraniad pwysig i'r drafodaeth gyhoeddus yng Nghymru ac i ddealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd yn ein gwlad. Denodd Pwb a'i Farn ei chynulleidfa orau ers 2014 ac roedd y Byd ar Bedwar hefyd yn llwyddiannus wrth fynd i'r afael â phynciau bachog. Dechreuodd y gyfres newydd Ein Byd yn addawol, yn enwedig ar y wê, lle mae wedi bod yn fwy poblogaidd na chyfresi materion cyfoes eraill.

Cryfhaodd Newyddion 9 unwaith yn rhagor i adfer ei le fel gwasanaeth Cymreig unigryw a hanfodol.

These programmes make an important contribution to the public debate in Wales and to an understanding of what is happening in our country. Pwb a'i Farn attracted its largest audience since 2014 and Y Byd Ar Bedwar was also successful in tackling topical subjects. Ein Byd – a new current affairs series had a promising start, especially online, where it has proved more popular than other current affairs series.

Newyddion 9's provision strengthened to regain its place as a unique and essential Welsh service.

▼
Pobol y Cwm
▶
Newyddion 9



Operau Sebon Soap operas

Mae Pobol y Cwm a Rownd a Rownd yn greiddiol i'r amserlen. Eleni ail-gyflwynwyd omnibws Pobol y Cwm ar ddydd Sul ac mae awgrym cryf fod cynulleidfa newydd, gan gynnwys mwy o wylwyr di-Gymraeg, yn manteisio ar y dangosiad hwn.

Wrth newid amserlen yr oriau brig, rhoddwyd cyfle i Rownd a Rownd dargedu cynulleidfa ychydig yn iau. Mae sesiynau gwyllo ar lein y ddwy gyfres wedi parhau i gynyddu yn flynyddol.

Pobol y Cwm and Rownd a Rownd remain at the heart of the schedule. This year, Pobol y Cwm's omnibus was re-introduced on Sundays. It appears as though a new audience, including more non-Welsh speakers, are watching the omnibus.

Rownd a Rownd was given the opportunity to target a slightly younger audience when changes were introduced to the peak time schedule. Online viewing sessions for both series have continued to increase.



Cerddoriaeth a'r Celfyddydau
Music and the Arts

Gwelwyd ystod eang y sin gerddorol yng Nghymru ar y gwasanaeth eleni. Roedd ail gyfres Cerys Matthews a'r Goeden Faled yn gyfle i weld a chlywed cerddoriaeth werin ar draws Cymru, a rhoddwyd her i Ochr 1 fynd ati i ddenu cynulleidfau iau ar y cyfryngau digidol. Unwaith eto roedd cystadleuaeth Côr Cymru yn denu gwerthfawrogiad mawr a chafwyd canmoliaeth uchel i gyngerdd Hedd Wyn: A Oes Heddwch? Yn ôl ymchwiliad, gwelir S4C fel y sianel sy'n dangos y rhaglenni cerddoriaeth gorau yng Nghymru.

The wide gamut of the musical scene in Wales was showcased this year. The second series of Cerys Matthews a'r Goeden Faled provided an opportunity to see and hear folk music from across Wales, and Ochr 1 was challenged to attract a younger audience on digital media. The Côr Cymru competition once again was highly appreciated and the Hedd Wyn: A Oes Heddwch? concert was widely praised. According to research, S4C is seen as the channel that shows the best music programmes in Wales.


Crefydd
Religion

Rhoddwyd gwedd newydd ar Dechrau Canu Dechrau Canmol eleni gydag arwyddion fod hyn yn cael ei werthfawrogi gan fwyafrif y gynulleidfa. Roedd 'Y Dioddefaint yn ôl Ioan' yn gyfraniad sylweddol i gerddoriaeth grefyddol ar y teledu gan ddenu cyrhaeddiad parchus ar draws y DU ac ar gyfryngau cymdeithasol.

Dechrau Canu Dechrau Canmol's provision was refreshed during the year, and it appears that this has been appreciated by the majority of its audience. 'Y Dioddefaint yn ôl Ioan' (the Passion according to St John) was a substantial contribution to religious music on television and attracted respectable reach across the UK and on social media.

◀ Gig y Pafiliwn

▼ Dechrau Canu
Dechrau Canmol





Ffermio a Gwledig
Farming & Rural
programming

Mae Cefn Gwlad wedi newid i raglen 60 munud yn ddiweddar gydag arwyddion cynnar fod yna gynulleidfa newydd i'r fformat diwygiedig. Mae Ffermio'n dal yn unigryw o fewn teledu Prydeinig fel rhaglen sy'n canolbwyntio'n llwyr ar amaethyddiaeth.

Cefn Gwlad has changed recently to become a 60 minute programme. Early indications suggest that the revised format is attracting a new audience. Ffermio remains unique within British television as a programme focusing solely on agriculture.



Dysgwyr
Learners

Gall holl wasanaeth S4C fod yn adnodd gwerthfawr i'r rheiny sy'n dysgu'r iaith. Mae Dal Ati ar fore Sul yn rhaglen sy'n arbennig ar eu cyfer. Mae trafodaethau ar y gweill ar hyn o bryd gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gytuno sut orau y gall arlwy ac archif S4C fod o'r defnydd mwyaf yn y maes.

The whole of the S4C service is a potential resource for those who are learning the language. Dal Ati on Sunday mornings is tailored specifically for their needs. Discussions are currently under way with the National Centre for Learning Welsh to agree how S4C's content and archive can be of greatest value in this field.

Mesur Perfformiad S4C

Measuring S4C's Performance

Defnyddir ystod o fesuryddion er mwyn mesur ac asesu perfformiad gwasanaethau S4C.

Mae'r rhain yn cynnwys ffigyrau gwyllo ar gyfer teledu a gwasanaethau arlein, mesuryddion ansoddol sy'n cyflwyno darlun ehangach o ddefnydd, gwerthfawrogiad, effaith a gwerth gwasanaethau S4C.

S4C's services are assessed using a range of performance measures.

These include viewing figures for television and online services, qualitative indicators that present a wider picture of usage, appreciation and the impact and value of S4C's services.

			
Defnydd a Chyrhaeddiad Usage & Reach	Gwerthfawrogiad Appreciation	Effaith Impact	Gwerth am Arian Value for Money
<p>1 Dylai gwasanaethau S4C geisio cyrraedd y nifer fwyaf posibl o ddefnyddwyr o fewn eu cynulleidfaoedd targed gan gynnwys holl wylwyr a siaradwyr Cymraeg. (Mae'r targed hwn yn cyfeirio at Gymru, ond byddwn hefyd yn adrodd ar ffigyrau'r DU). The S4C services should seek to maximise their reach among target audiences including all viewers and Welsh speakers. (This target refers to Wales, but we will also report on UK figures).</p> <p>2 Cynnydd pellach o o leiaf 10% i wyllo arlein i gynnwys S4C ar lwyfannau digidol gan gynnwys S4C Clic ac iPlayer. Further increase of at least 10% to online viewing for S4C content on digital platforms including S4C Clic and iPlayer.</p>	<p>3 Gwerthfawrogiad o raglenni S4C ymysg siaradwyr Cymraeg i fod cystal â rhaglenni'r prif ddarlledwyr cyhoeddus eraill yng Nghymru. Appreciation of S4C's programmes amongst Welsh speakers to be as good as that of programmes by the other main public service broadcasters in Wales.</p> <p>4 S4C i gael ei ystyried â chryfderau uwchlaw sianeli eraill wrth adlewyrchu Cymru a'r Cymry. S4C to be considered as having strengths above other channels when reflecting Wales and the Welsh people.</p>	<p>5 Gweithgarwch darlledu S4C i gael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad yr iaith Gymraeg ac ymwybyddiaeth pobl o ddiwylliant Cymru. S4C's broadcast activity to have a positive impact on the development of the Welsh language and people's awareness of the culture of Wales.</p> <p>6 Gwerthfawrogiad a defnydd da o'r gwasanaethau ar gyfer plant. Appreciation and good use of the services for children.</p> <p>7 Cael canfyddiad ymysg Dysgwyr o'r Gymraeg fod S4C yn darparu ar eu cyfer yn llwyddiannus gyda rhaglenni a gwasanaethau addas. Achieve a perception amongst those learning Welsh that S4C successfully provides appropriate programmes and services for them.</p>	<p>8 Sicrhau bod gwasanaethau S4C yn darparu gwerth am arian i'r gynulleidfa. Ensure that S4C's services provide value for money to the audience.</p>



Y Ffigyrau Gwyllo The Viewing Figures

1

**Dylai gwasanaethau S4C geisio cyrraedd y nifer fwyaf posibl o ddefnyddwyr o fewn eu cynulleidfaoedd targed gan gynnwys holl wylwyr a siaradwyr Cymraeg. (Mae'r targed hwn yn cyfeirio at Gymru, ond byddwn hefyd yn adrodd ar ffigurau'r DU).
The S4C services should seek to maximise their reach among target audiences including all viewers and Welsh speakers. (This target refers to Wales, but we will also report on UK figures).**

Beth yw 'Cyrhaeddiad'? What is 'Reach'?

Cyrhaeddiad yw'r term a ddefnyddir ar gyfer nodi faint o bobl unigol sy'n gwyllo gwasanaethau S4C ar deledu (a lle nodir hynny ar lwyfannau eraill) dros gyfnod penodol.

Mae'r asesiad hwn yn seiliedig ar fesur wythnosol 3 munud safonol BARB, sef y mesur mwyaf addas ar gyfer gwasanaeth teledu S4C, fel sianel gydag amserlen amrywiol yn ystod y flwyddyn, a sianel sy'n darlledu hysbysebion. Rydym hefyd yn cyhoeddi ac yn cadw llygad ar feini prawf cyrhaeddiad eraill, gan gynnwys y mesur 15 munud misol a chyrhaeddiad blynyddol y sianel fel dangosydd o effaith y sianel dros gyfnod o flwyddyn.

Mae'r mesuryddion hyn yn cyfrannu at ddarlun mwy cynhwysfawr a chywir o'r defnydd o'r gwasanaeth gan ystod eang o wylwyr. Mae'r mesur cyrhaeddiad safonol a ddefnyddir gan ddarlledwyr ym Mhrydain yn gyfyngedig i fesur gwyllo ar deledu ac nid yw'n ystyried defnydd o gynnwys ar lwyfannau digidol.

Mae'r defnydd a wneir o gynnwys S4C ar lwyfannau digidol yn ystyriaeth bwysig, ac adroddir ar y defnydd hwn ar wahân. Nid yw'r data cyrhaeddiad teledu isod, oni nodir fel arall, yn cynnwys defnydd arlein o gynnwys S4C.

Reach is the term used to identify how many individual people watch S4C's services on television (and where indicated on other platforms) over a given period.

This assessment is based on the BARB standard 3 minute weekly measure, which is the most suitable measure for a service such as S4C's, as a channel with a varied schedule during the year, and a channel that broadcasts advertisements. We also publish and monitor other reach criteria, including the 15 minute monthly measure and the channel's annual reach as an indicator of the channel's impact during the year.

These measures contribute to a more comprehensive and accurate picture of the use of the service by a wide range of viewers. The standard measure of reach used by broadcasters in Britain is limited to measuring television viewing and does not consider the use of content on digital platforms.

The use made of S4C's content on digital platforms is an important consideration, and this is reported on separately below. Unless noted otherwise, the reach data below does not include online use of S4C content.






Ffigyrau gwyllo S4C ar deledu S4C Television viewing figures

Mae'r graffiau isod yn nodi cyrhaeddiad (ar deledu) gwasanaeth S4C ar sail blyneddol, misol ac wythnosol.


The graphs below sets out the reach (on television) of the S4C Service on an annual, monthly and weekly basis.

● DU / UK ● Cymru / Wales ● Tu Allan i Gymru / Outside Wales ● Siaradwyr Cymraeg yng Nghymru / Welsh Speakers in Wales


Cyrhaeddiad wythnosol
(o leiaf 3 munud olynol)
Weekly reach
(at least 3 consecutive minutes)



Cyrhaeddiad misol
(o leiaf 15 munud olynol)
Monthly reach
(at least 15 consecutive minutes)



Cyfanswm cyrhaeddiad y flwyddyn
(o leiaf 3 munud olynol)
Annual reach
(at least 3 consecutive minutes)





Gwyllo S4C arlein S4C online viewing

2

Cynnydd pellach o o leiaf 10% i wyllo arlein i gynnwys S4C ar lwyfannau digidol gan gynnwys S4C Clic ac iPlayer.
Further increase of at least 10% to online viewing for S4C content on digital platforms including S4C Clic and iPlayer

Mae'r cynnydd o ran y defnydd o wasanaethau arlein S4C ar draws y DU wedi parhau eto yn ystod 2017/18, ond gyda phatrymau newydd yn datblygu wrth i S4C barhau i gynnig rhaglenni a chynnwys ar gyfryngau cymdeithasol megis Facebook a dulliau newydd o gyflwyno'n cynnwys megis dramâu mewn casgliad boc. Mae'r defnydd o gynnwys ar S4C Clic a'r iPlayer yn parhau i fod yn sylweddol, gyda chyfanswm o bron i 8.2 miliwn o sesiynau gwyllo'n ystod y flwyddyn. Yn ogystal, ar Facebook, Twitter a YouTube cafwyd 37 miliwn o sesiynau gwyllo i raglenni a chynnwys S4C.


The increase in use of S4C's online services continued again across the UK during 2017/18, with new patterns developing as S4C continues to offer programmes and content on social media such as Facebook and via new delivery methods including box-set dramas. Usage on S4C Clic and iPlayer continues to be significant, with a total of almost 8.2 million viewing sessions during the year. In addition, 37 million viewing sessions were made to S4C's programmes and content on Facebook, Twitter and YouTube.

Sesiynau gwyllo rhaglenni S4C ar S4C Clic a'r BBC iPlayer
Viewing sessions for S4C programmes on S4C Clic and BBC iPlayer



*Newidiwyd dull mesur iPlayer yng Ngorffennaf 2016 i gynnwys pob sesiwn gwyllo yn hytrach na sampl o sesiynau gwyllo.
*All iPlayer viewing sessions, as opposed to a sample have been recorded following a change in methodology in July 2016.

Sesiynau Gwyllo Cyfryngau Cymdeithasol
Social Media Viewing Sessions



Ugain rhaglen neu eitem uchaf ar gyfryngau cymdeithasol Top twenty programmes and items viewed via social media

Mae'r ugain uchaf isod yn nodi'r math o gynnwys sy'n boblogaidd ar gyfryngau cymdeithasol.

The top twenty below indicate the type of content that is popular on social media.

	Fersiwn Type of Content	Cyfes Series	Teitl Title	Nifer y sesiynau gwyllo Number of viewing sessions
1	Clip	Heno	Amber Davies	173,018
2	Promo	Y Dioddefaint yn ôl Ioan	Promo'r Perfformiad	161,853
3	Fideo-byr	Hansh	Tân a Mwg: Epic Kebab	137,956
4	Promo	Bang	Promo Pennod 1	119,884
5	Clip	Sgorio	Cyfweliad Ben Woodburn	103,615
6	Promo	Flex Lewis	Schwarzenegger Cymru	95,158
7	Facebook Live	Rygbi Pawb	Varsity Caerdydd v Abertawe	93,185
8	Fideo-byr	Hansh	Tafodiaith Hywel Pitts a'r Welsh Whisperer	90,272
9	Promo	Le Tour de France	Bob Cymal yn Fyw	87,462
10	Fideo-byr	Hansh	Tân a Mwg: Hyrddyn mewn Halan	86,222
11	Promo	Mike Phillips a'r Senghenydd Sirens	Promo Pennod 1	85,857
12	Fideo-byr	Hansh	Cwmbran	75,333
13	Facebook Live	Rygbi	NationalCup Yr Aman v Caerffili	70,660
14	Fideo-byr	Hansh	Tân a Mwg: Chilli Dawg	70,079
15	Fideo-byr	Hansh	Bry yn Amsterdam	69,016
16	Facebook Live	Rygbi	Ffeinal Y Cwpan Pontypridd v RGC	67,164
17	Fideo-byr	Hansh	Tân a Mwg: Porc Chop Budur	66,455
18	Facebook Live	Clwb Rygbi Rhyngwladol	Cymru v Seland Newydd	65,210
19	Fideo-byr	Hansh	Tân a Mwg: Bomar o Frechdan Stêc	63,761
20	Clip	Peldroed Rhyngwladol S4C	Croeso cynnes i'r cefnogwyr!	63,421

10 Rhaglen uchaf S4C fesul genre yn 2017/18 S4C top 10 programmes by genre in 2017/18

Sgorio

Mae S4C yn awyddus i sicrhau fod nifer teilwng o raglenni yn rhoi cyfleoedd ar gyfer gwyllo torfol yn ystod y flwyddyn, ond gan sicrhau nad yw hyn yn digwydd ar draul pwrpas darlledu gwasanaeth cyhoeddus y sianel. O fewn un sianel deledu a gwasanaeth arlein, mae gwrthdaro cynhenid yn bodoli rhwng ceisio gwasanaethu cynulleidfia eang a cheisio sicrhau fod pob rhaglen yn denu ffigyrau gwyllo uchel.

Nodir gyferbyn y 10 rhaglen fwyaf poblogaidd fesul genre ar deledu.

S4C is eager to ensure that a sizeable number of programmes provide opportunities to attract substantial audiences during the year, but to ensure that this is not achieved to the detriment of S4C's public service purposes. Within one television channel and online service, there exists an inherent tension between the aim of serving a diverse audience and also aiming for every programme to achieve high viewing figures.

The top 10 most popular programmes within each genre on television are set out opposite.



Defnydd a Chyrrhaeddiad
Usage & Reach

Cyrrhaeddiad mewn miloedd
Reach in thousand

Drama a Ffilm / Drama & Film

1	Craith (Pennod 1)	89,000
2	Un Bore Mercher (Pennod 1)	89,000
3	Bang (Pennod 1)	85,000
4	Craith (Pennod 2)	73,000
5	Bang (Pennod 3)	67,000
6	Craith (Pennod 5)	65,000
7	Bang (Pennod 2)	61,000
8	Craith (Pennod 3)	61,000
9	Craith (Pennod 7)	56,000
10	Bang (Pennod 4)	56,000

Chwaraeon / Sport

1	Sgorio Rhyngwladol (Cymru v Gweriniaeth Iwerddon)	627,000
2	Sgorio Rhyngwladol (Moldofa v Cymru)	425,000
3	Sgorio Rhyngwladol (Georgia v Cymru)	369,000
4	Sgorio Rhyngwladol (Cymru v Awstria)	345,000
5	Sgorio Rhyngwladol (Serbia v Cymru)	291,000
6	Clwb Rygbi (Gweilch v Scarlets)	260,000
7	Clwb Rygbi (Dreigiau v Gweilch)	240,000
8	Clwb Rygbi (Scarlets v Caeredin)	212,000
9	Clwb Rygbi (Scarlets v Gleision)	211,000
10	Clwb Rygbi (Munster v Gweilch)	205,000

Celfyddydau / Arts

1	Gŵyl Cerdd Dant Llandysul a'r Fro 2017	109,000
2	Cyngerdd Heddwyn: A Oes Heddwch?	39,000
3	Ysgoloriaeth Bryn Terfel 2017	32,000
4	Gŵyl Cerdd Dant Llandysul a'r Fro 2017	26,000
5	Y Babell Lân 2017	26,000
6	Y Babell Lân 2017	26,000
7	Mwy o'r Babell Lân 2017	21,000
8	Pethe	20,000
9	Gŵyl Cerdd Dant Llandysul a'r Fro 2017	20,000
10	Pethe	19,000

Adloniant / Entertainment

1	Noson Lawen: Llyn ac Eifionydd	77,000
2	Noson Lawen Hogia'r Wyddfa: Dathlu'r 50	74,000
3	Noson Lawen: Teyrnged i Ryan	72,000
4	Noson Lawen: Llanfair Caereinion	69,000
5	Noson Lawen: O Lundain	68,000
6	Taith Bryn Terfel: Gwlad y Gân	66,000
7	Noson Lawen: Nadolig yr Ifanc	65,000
8	Jonathan	65,000
9	Jonathan	64,000
10	Noson Lawen: Gareth Owen	63,000

Sebon / Soaps

1	Pobol y Cwm (22/09)	71,000
2	Pobol y Cwm (10/11)	67,000
3	Pobol y Cwm (07/09)	66,000
4	Rownd A Rownd (26/12)	66,000
5	Pobol y Cwm (29/12)	66,000
6	Pobol y Cwm (25/12)	65,000
7	Pobol y Cwm (15/12)	64,000
8	Pobol y Cwm (11/09)	63,000
9	Pobol y Cwm (13/10)	61,000
10	Pobol y Cwm (07/11)	60,000

Cerddoriaeth / Music

1	Carolau Llandudno 2017	83,000
2	Llyr Williams: Cyngerdd Efrog Newydd	46,000
3	Ochr 1: Gwobrau'r Selar	45,000
4	Catrin Finch: Concerto Heddwyn	41,000
5	Nadolig Wynne	35,000
6	Cyngerdd Gwyn Hughes Jones	31,000
7	Gig Eden ac Elin Fflur	29,000
8	Carol Yr Ŵyl 2017	28,000
9	Gig Fawr 2017	28,000
10	Eisteddfod 2015: Seiniau'r Sgrin	26,000

Digwyddiadau / Events

1	Llangollen 2017 (Côr y Byd)	104,000
2	Eisteddfod Genedlaethol 2017 (Bore o'r Steddfod - Iau)	103,000
3	Eisteddfod Genedlaethol 2017 (Noson o Gystadlu - Gwener)	102,000
4	Eisteddfod yr Urdd 2017 (Uchafbwyntiau'r Dydd - Llun)	83,000
5	Eisteddfod Genedlaethol 2017 (Prynhawn o'r Steddfod - Gwener)	74,000
6	Eisteddfod Genedlaethol 2017 (Uchafbwyntiau)	66,000
7	Eisteddfod Genedlaethol 2017 (Prynhawn o'r Steddfod - Sul)	65,000
8	Eisteddfod Genedlaethol 2017 (Noson o Gystadlu - Mercher)	64,000
9	Eisteddfod yr Urdd 2017 (Cyngerdd Agoriadol)	62,000
10	Eisteddfod Genedlaethol 2017 (Prynhawn o'r Steddfod - Llun)	60,000

**Cyrhaeddiad mewn miloedd****Reach in thousand****Newyddion / News**

1	Newyddion 9 (07/09)	65,000
2	Newyddion 9 (14/08)	46,000
3	Newyddion 9 (11/08)	43,000
4	Newyddion 9 (10/08)	42,000
5	Newyddion 9 (22/03)	39,000
6	Newyddion 9 (25/07)	39,000
7	Newyddion 9 (07/08)	37,000
8	Newyddion 9 (31/07)	36,000
9	Newyddion 9 (09/08)	35,000
10	Newyddion 9 (26/07)	35,000

Materion Cyfoes / Current Affairs

1	Heno (24/01)	68,000
2	Heno (02/10)	59,000
3	Heno (27/07)	58,000
4	Heno (18/09)	56,000
5	Heno (08/11)	56,000
6	Heno (24/10)	55,000
7	Heno (03/11)	54,000
8	Heno (07/06)	54,000
9	Heno (07/04)	53,000
10	Heno (13/10)	52,000

Hamdden / Leisure

1	Garddio a Mwy (11/09)	47,000
2	Cegin Bryn: Y Dosbarth Meistr (26/04)	45,000
3	Cegin Bryn: Y Dosbarth Meistr (12/04)	43,000
4	Adre: Roy Noble (23/08)	42,000
5	Adre: Dafydd Iwan (16/08)	41,000
6	Adre: Cefyn Burgess (21/01)	38,000
7	Adre: Nia Roberts (07/01)	36,000
8	Garddio a Mwy (18/09)	36,000
9	Garddio a Mwy (23/10)	34,000
10	Garddio a Mwy (22/05)	34,000

Ffeithiol / Factual

1	Flex Lewis: Schwarzenegger Cymru	90,000
2	Iolo: Deifio yn y Barrier Reef	84,000
3	Llewod '71	84,000
4	Cefn Gwlad	78,000
5	Tân	68,000
6	Cefn Gwlad	59,000
7	Cynefin	57,000
8	Pobl a'u Gerddi	56,000
9	Cynefin	54,000
10	Mike Phillips: Y Gem Olaf	53,000

Cyw

1	Patrôl Pawennau	160,000
2	Patrôl Pawennau	160,000
3	Patrôl Pawennau	154,000
4	Patrôl Pawennau	140,000
5	Patrôl Pawennau	137,000
6	Patrôl Pawennau	135,000
7	Patrôl Pawennau	126,000
8	Patrôl Pawennau	123,000
9	Patrôl Pawennau	114,000
10	Patrôl Pawennau	113,000

Stwnsh

1	Crwbanod Ninja	50,000
2	Crwbanod Ninja	34,000
3	Dennis a Dannedd	34,000
4	Dennis a Dannedd	33,000
5	Kung Fu Anda	31,000
6	Y Dyfnfor	30,000
7	Tag	29,000
8	Dennis a Dannedd	27,000
9	Dennis a Dannedd	26,000
10	Crwbanod Ninja	26,000

Crefydd / Religion

1	Cymanfa Ganu Eisteddfod Genedlaethol Môn	61,000
2	Dechrau Canu Dechrau Canmol (03/12)	56,000
3	Dechrau Canu Dechrau Canmol (11/02)	56,000
4	Dechrau Canu Dechrau Canmol (01/04)	47,000
5	Dechrau Canu Dechrau Canmol (30/07)	45,000
6	Dechrau Canu Dechrau Canmol (30/04)	41,000
7	Dechrau Canu Dechrau Canmol (31/12)	40,000
8	Dechrau Canu Dechrau Canmol (05/11)	38,000
9	Dechrau Canu Dechrau Canmol (04/02)	38,000
10	Dechrau Canu Dechrau Canmol (17/12)	38,000

Dysgwyr / Learners

1	Dal Ati	18,000
2	Dal Ati	15,000
3	Dal Ati	14,000
4	Dal Ati	14,000
5	Dal Ati	13,000
6	Dal Ati	13,000
7	Dal Ati	12,000
8	Dal Ati	12,000
9	Dal Ati	11,000
10	Dal Ati	11,000





Gwerthfawrogiad gwasanaethau S4C
Appreciation of S4C's services

3

Gwerthfawrogiad o raglenni S4C ymysg siaradwyr Cymraeg i fod cystal â rhaglenni'r prif ddarlledwyr cyhoeddus eraill yng Nghymru.
Appreciation of S4C's programmes amongst Welsh speakers to be as good as that of programmes by the other main public service broadcasters in Wales.

Defnyddir mesur gwerthfawrogiad o raglenni S4C fel sail i fesur a gwerthuso ansawdd gwasanaeth S4C yn ei chyfanrwydd a genres penodol. Cyfeirir at y mesur hwn fel mesur "AI" ("Appreciation Index") - sgôr allan o 100. Mae trafodaethau am gynnwys S4C ar lwyfannau digidol hefyd yn fesur o werthfawrogiad y gynulleidfa. Mae'r mesur AI yn rhoi asesiad ansoddol o berfformiad rhaglenni ar y gwasanaeth teledu, ac yn cynorthwyo'r Awdurdod i asesu perfformiad gwasanaeth S4C yn ei gyfanrwydd ac o ran genres penodol.

An appreciation measure of S4C's programmes is used as the basis for measuring and evaluating the quality of the S4C service as a whole and its specific genres. This measure is referred to as a "AI" measure ("Appreciation Index") - a score out of 100. Discussions about S4C's content on digital platforms are also a measure of audience appreciation. The AI measure provides a qualitative assessment of programme performance on the television service, and assists the Authority to assess the performance of the S4C service as a whole and in terms of specific genres.

Canfu Arolwg Tracio Delwedd S4C fod gwylwyr S4C sy'n siarad Cymraeg o'r farn fod:
S4C's image tracking survey found that S4C's Welsh speaking viewers believe that:

61%

66%

69%

56%

S4C ar y cyfan yn dangos sioeau sydd wedi eu creu neu eu cynhyrchu'n dda
S4C tends to show well-made or well produced programmes

(cynnydd o +8)
(an increase of +8)

S4C yn sianel sy'n rhoi profiad unigryw i mi na allaf ei gael yn unrhyw le arall
S4C is a channel that gives me a unique experience that I can't get anywhere else

(ni holwyd yn 16/17)
(not asked in 16/17)

Ansawdd rhaglenni Cymraeg yn gwella ar S4C
The quality of Welsh language programming on S4C is improving

(cynnydd o +4)
(an increase of +4)

Gan S4C raglenni sy'n gwthio'r ffiniau ac yn herio'r gynulleidfa
S4C has programmes that push boundaries and challenge the audience

(cynnydd o +9)
(an increase of +9)

(Ffynhonnell: Arolwg Tracio Delwedd S4C - Gwylwyr sy'n siarad Cymraeg, Beaufort Research, 2018)
(Source: S4C Image Tracking Survey - Welsh speaking viewers, Beaufort Research, 2018)

81

Mae sgôr gwerthfawrogiad S4C wedi cynyddu i 81
S4C's appreciation score has increased to 81

Gwerthfawrogiad gwasanaeth S4C ymysg gwylwyr sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru (2016/17: 80) (Sy'n cymharu gyda 78 ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill yng Nghymru) (Ffynhonnell: TRP) Appreciation of S4C's Service among Welsh speaking viewers in Wales (2016/17: 80) (Compared to 78 for other public service broadcasters in Wales) (Source: TRP)

Mae gwylwyr S4C sy'n siarad Cymraeg yn parhau i werthfawrogi gwasanaeth S4C, ac maent yn nodi fod safon rhaglenni'n parhau i gynyddu.
S4C's Welsh speaking viewers continue to appreciate S4C's service, and state that the quality of programmes continues to increase.



Sgoriau gwerthfawrogiad uchaf ar gyfer rhaglenni 2017/18 Highest appreciation scores for programmes in 2017/18



Mae rhaglenni S4C yn ennill sgoriau gwerthfawrogiad uchel tu hwnt.
S4C's programmes gain very high appreciation scores.

Mae'r rhestr isod yn nodi'r sgoriau gwerthfawrogiad gan siaradwyr Cymraeg i'r 25 rhaglen uchaf yn ystod 2017/18 a hefyd cyfartaledd y genre perthnasol.

The list below sets out the appreciation scores from Welsh speakers for the top 25 programmes during 2017/18 and also the relevant genre average.

Mae'r rhestr yn cynnwys ystod eang o genres a rhaglenni sy'n dangos amrywiaeth y gwasanaeth a'r gwerthfawrogiad am y gwasanaeth a ddarperir.

The list includes a wide range of genres and programmes that demonstrate the variety within the service and the appreciation of the service provided.

Rhaglen Programme	AI	AI y Genre Genre AI	(+/-) Gwahaniaeth ar y Genre (+/-) Compared to Genre
Omg: Ysgol Ni!	96	86	+10
Huw Edwards a'r Cymry Estron: Stori Cymry Llundain	95	87	+8
Evan Jones a'r Cherokee	93	86	+7
Wil ac Aeron: Taith yr Alban	92	86	+6
Byw yn y Byd	92	86	+6
Grav: 'Sdim Cywilydd Mewn Llefain	92	86	+6
Gwyllt ar grwydr	92	87	+5
Ysbyty	92	90	+2
Arctig Gwyllt Iolo Williams	92	87	+5
Beti George: Colli David	92	86	+6
Llys Nini	92	86	+6
O Gymru Fach	92	86	+6
Uchafbwyntiau'r Sioe 2017	92	89	+3
Matt Johnson: Iselder a Fi	91	86	+5
Canwr y Byd 2017	91	83	+8
Cofio Sioned James	91	86	+5
Arfordir Cymru	91	86	+5
Yr Anialwch	91	86	+5
Gardd Pont y Tŵr	91	84	+7
999: Ambiwylans Awyr Cymru	91	86	+5
Llyr Williams: Cyngerdd Efrog Newydd	91	85	+6

(Ffynhonnell / Source: TRP)
(Yn seiliedig ar siaradwyr Cymraeg 16+, a gyda sampl o 25 neu'n fwy)
(Based on Welsh speakers 16+, and programmes with a sample of 25 or more)





Lleisiau'r gwylwyr trwy gyfryngau cymdeithasol a Nosweithiau Gwylwyr
Viewers' voices via social media and Viewers' Evenings

"Dramau @S4C yw y rhai gorau. Edrych mlaen at ddydd Sul nesa yn barod. #Craith"

"Just watched the first episode of #Craith on @S4C. There are some great dramas coming out of Wales at the moment"

"Wedi mwynhau arlwy @S4C eleni yn fwy nag ers blynyddoedd. @elisjames a #hunabedio ymhlith yr uchafbwyntiau. Cystal os nad gwell nag unrhywbeth yn Saesneg!"

"I would like to congratulate you all on a lovely night's viewing, especially the programme with the kids and the elderly folk. It was a magical series and much better than anything on any of the so called big channels. I watch your channel regularly in Liverpool, with the aid of the subtitles and your content betters anything else on most evenings. Thank you and seasons greetings to you all."

"Da iawn @S4C-wir yn mwynhau y gyfres Cynefin. Mae brwdfrydedd @sionmun yn fendigedig!"

"I love @S4C and it's been doing some amazing programmes, it is very important to Wales and the Welsh language"

"just watched a fab documentary on @S4C about the career of @StifynI even though i don't speak a word of welsh... thank god for subtitles"

"Yn gyntaf @BangTV Drama a nawr @unboremercher; tymor trosedd anhygoel @S4C. Gwych!"

"Blydi hel, mae hwn yn wych gwboi - heb werthin siwd gymaint ers âche! Da iawn i chi gyd, mwy o stwff fel hyn sy' eisie ar @S4C"

"Watched #dylanardaith yesterday. Blimey @S4C don't half put on some great shows."

"@S4C @CeginBryn Diolch am gyfres newydd ddi-ddorol - pleser pur!"

"If anybody wants to see a real unbiased report on the #CatalanReferendum get @S4C on now!"

"Rhaglen eithriadol o ddfyfr. Diolch @S4C a i'r criw #Cynefin."

"Wedi dala lan gyda'r ddwy rhaglen arall o 'Hen Blant Bach' @S4C o'r diwedd. Syniad mor syml yn gwneud cymaint o wahaniaeth i fywydau dau genhedlaeth #codicalon"

"Cytuno 100%. Rydym mor ffodus yng Nghymru i gael criw fel Dylan, Dai, Owain @NickyZ John Nic a Malcolm yn darlledu i ni. Pen a sgwyddau uwchben pob darlledwr arall. @sgorio #WALIRL"

"Being able to watch Welsh dramas on @S4C is one of my favourite things about being Welsh one day I won't need the subtitles as much... hopefully! #dysgucymraeg #isdeitlau"

"First there was #YGwyll, then #Bang and now #UnBoreMercher. @S4C do some absolutely amazing dramas."

". @elisjames has got me watching @S4C - great to see Welsh comedy that's not aimed at people sitting on bales of hay"

"Am rhyw reswm dwi'n caru'r ffaith bod fy mhlant yn gallu gwyllo Teenage Mutant Hero Turtles ar @S4C yn y Gymraeg."

"Ma Hen Blant Bach yn rhaglen amazing. A phwysig! @S4C"



Gwobrau Ffilm a Theledu 2017/18 Film and Television Awards 2017/18

Gwerthfawrogiad
Appreciation



Mae ennill, neu dderbyn enwebiad ar gyfer gwobr mewn gŵyl ffilm neu deledu yn arwydd o werthfawrogiad o ansawdd y rhaglenni a gynhyrchir gan y cwmnïau cynhyrchu annibynnol ar gyfer S4C.

Winning an award or nomination in a film or television festival is an indication of recognition of the quality of programmes produced by the independent production companies for S4C.

BAFTA Cymru 2017 BAFTA Cymru 2017

Gwobrau

Rhaglen Adloniant Orau
Bryn Terfel Gwlad y Gân
(Boom Cymru)

Rhaglen Blant Orau
Deian a Loli
(Cwmni Da)

Enwebiadau

Drama Deledu Orau
35 Diwrnod
(Boom Cymru)

Rhaglen Ddogfen Unigol Orau
Hillsborough:
Yr Hunllef Hir
(Rondo)

Iestyn Garlick:
Stori Mabwysiadu
(Antena)

Rhaglen Adloniant Orau
Cantata Memoria
(Rondo)

Y Salon
(Boom Cymru)

Awards

Best Entertainment Programme
Bryn Terfel Gwlad y Gân
(Boom Cymru)

Best Children's Programme
Deian a Loli
(Cwmni Da)

Nominations

Best Television Drama
35 Diwrnod
(Boom Cymru)

Best Single Documentary
Hillsborough:
Yr Hunllef Hir
(Rondo)

Iestyn Garlick:
Stori Mabwysiadu
(Antena)

Best Entertainment Programme:
Cantata Memoria
(Rondo)

Y Salon
(Boom Cymru)

Gwobrau Broadcast 2017 Broadcast Awards 2017

Enwebiadau

Rhaglen Gerddoriaeth Orau
Cantata Memoria
(Rondo)

Gwobrau C21 Media 2017 C21 Media Awards

Enwebiadau

Cyfres Ddrama Orau
Bang

Nominations

Best Music Programme
Cantata Memoria
(Rondo)

Nominations

Best Drama Series
Bang

Gŵyl Gwobrau Teledu a Ffilm Ryngwladol Efrog Newydd 2018 New York Festivals International Television & Film Awards 2018

Gwobrau

**Rhaglen Ddogfen Orau
Medal Efydd – Colli Dad:**
Siarad am Hynna
(BBC Cymru)

Medal Arian:
Hen Blant Bach
(Darlun)

**Rhaglen Adloniant Orau
(Drama Drosedd)**
Medal Efydd:
Bang
(Joio)

Awards

**Best Documentary
Bronze Medal: Colli Dad:**
Siarad am Hynna
(BBC Cymru)

Silver Medal:
Hen Blant Bach
(Darlun)

**Best Entertainment
(Crime Drama)**
Bronze Medal:
Bang
(Joio)

Gŵyl Cyfryngau Celtaidd 2018 Celtic Media Festival 2018

Gwobrau

Ysbryd yr Ŵyl
Hillsborough: Yr Hunllef Hir
(Rondo)

Cyfres Ddrama Orau
Bang
(Joio)

Rhaglen Adloniant Orau
Y Salon
(Boom Cymru)

**Rhaglen Ddogfen
Adloniannol Orau**
Hen Blant Bach
(Darlun)

Enwebiadau

Drama Unigol
Albi a Noa yn Achub yr Iwnifyrs
(Boom Cymru)

Rhaglen Ddogfen Chwaraeon
Hillsborough: Yr Hunllef Hir
(Rondo)

Awards

Spirit of the Festival
Hillsborough: Yr Hunllef Hir
(Rondo)

Best Drama Series
Bang
(Joio)

**Best Entertainment
Programme**
Y Salon
(Boom Cymru)

**Best Factual
Entertainment Programme**
Hen Blant Bach
(Darlun)

Nominations

Best Single Drama
Albi a Noa yn Achub yr Iwnifyrs
(Boom Cymru)

Best Sports Documentary
Hillsborough: Yr Hunllef Hir
(Rondo)



4


S4C i gael ei ystyried â chryfderau uwchlaw sianeli eraill wrth adlewyrchu Cymru a'r Cymry.
S4C to be considered as having strengths above other channels when reflecting Wales and the Welsh people.



Mae'r gynulleidfa'n parhau o'r farn fod S4C yn adlewyrchu Cymru'n llwyddiannus.
The audience continues to believe that S4C reflects Wales successfully.




Canfu Arolwg Tracio Delwedd S4C fod gwylwyr S4C sy'n siarad Cymraeg o'r farn fod S4C:
S4C's image tracking survey found that S4C's Welsh speaking viewers believe that S4C is:




Yn berthnasol i hunaniaeth Cymru a'i phobl
Relevant to the identity of Wales and its people

(cynnydd o +3)
(an increase of +3)




Yn sianel sy'n dangos sut beth yw hi i fyw yng Nghymru
A channel that shows what it's like to live in Wales

(cynnydd o +3)
(an increase of +3)




Yn sianel sy'n adlewyrchu bywyd modern yng Nghymru
A channel that reflects modern life in Wales

(ni holwyd yn 16/17)
(not asked in 16/17)




Yn sianel sydd wedi fy addysgu mewn rhyw ffordd ynghylch Cymru a'i phobl
A channel that has educated me in some way about Wales and its people

(cynnydd o +5)
(an increase of +5)




Yn sianel sy'n dangos rhaglenni am fy rhan i o Gymru
A channel that shows programmes about my part of Wales

(cynnydd o +5)
(an increase of +5)



Yn sianel sydd â'r arlwy gorau o ddigwyddiadau yng Nghymru
A channel that has the best coverage of events in Wales

(cynnydd o +1)
(an increase of +1)



Yn sianel sy'n adlewyrchu Cymru wledig
A channel that reflects rural Wales

(cynnydd o +6)
(an increase of +6)

(Ffynhonnell: Arolwg Tracio Delwedd S4C - Gwylwyr sy'n siarad Cymraeg, Beaufort Research, 2018)
(Source: S4C Image Tracking Survey - Welsh speaking viewers, Beaufort Research, 2018)



5

Gweithgarwch darlledu S4C i gael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad yr iaith Gymraeg ac ymwybyddiaeth pobl o ddiwylliant Cymru.
S4C's broadcast activity to have a positive impact on the development of the Welsh language and people's awareness of the culture of Wales.




Mae S4C yn wasanaeth pwysig ar gyfer cefnogi a hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant Cymraeg
S4C is an important service for supporting and promoting the Welsh language and culture

Mae gwylwyr S4C sy'n siarad Cymraeg yn datgan fod S4C yn cael effaith gadarnhaol ar eu hymwybyddiaeth o ddiwylliant Cymru ac ar ddatblygiad yr iaith Gymraeg.
Welsh-speaking S4C viewers state that S4C has a positive impact on their awareness of Welsh culture and the development of the Welsh language.

Heno



The government should consider amending current approval requirements to give S4C greater freedom to invest and generate commercial revenue.

Recommendation 6

The S4C Authority should be replaced with a new unitary board comprising executive and non-executive directors.

Recommendation 7

The government should consider whether S4C's current financial audit arrangements are suitable, including whether it would be appropriate to appoint the Comptroller and Auditor General as S4C's external auditor.

S4C will be working with the Department for Digital, Culture, Media and Sport to implement the recommendations in line with the Secretary of State's response.



Gweithgareddau Masnachol S4C

Mae S4C wedi mabwysiadu strategaeth fasnachol sy'n rhoi'r pwyslais ar fanteisio ar gyfleoedd i ymestyn a hyrwyddo brand S4C a chreu incwm ychwanegol neu werth cyfalaf hir dymor i S4C.

Mae S4C Masnachol – adain fasnachol S4C (sydd ar wahân i arian cyhoeddus S4C) yn gyfrifol am amrywiaeth o weithgareddau a buddsoddiadau masnachol sydd â'r nôd o greu ffrwd incwm cynaliadwy ychwanegol ar gyfer gwasanaeth cyhoeddus S4C. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys gwerthu hysbysebion a nawdd ar y gwasanaeth teledu ac ar safle Clic (gan weithio gydag asiant hysbysebu S4C, Sky Media), buddsoddi mewn cyd-gynhyrchu rhaglenni teledu, cynhyrchu deunyddiau sy'n hyrwyddo elfennau o'r gwasanaeth megis brand Cyw, buddsoddi mewn cronfeydd buddsoddi, a rhoi cefnogaeth ariannol, fel arfer ar sail buddsoddiadau ecwiti, i gwmnïau a mentrau ym meysydd cynnwys a digidol.

Mae gweithgareddau masnachol S4C yn cyfrannu oddeutu £2m y flwyddyn ar gyfartaledd i gronfa gwasanaeth cyhoeddus S4C. Er yn ganran fechan o holl incwm S4C, mae hwn yn gyfraniad ariannol pwysig sy'n galluogi S4C i fuddsoddi mewn cynnwys a gwasanaethau na fyddai modd fel arall eu darparu. Mae'r arian sy'n cael ei ddal yng nghronfa fasnachol S4C yn arian sydd wedi cael ei gynhyrchu gan weithgareddau masnachol y sianel yn y gorffennol.

Mae Bwrdd yr Awdurdod wedi dirprwyo'r dasg o lunio, rheoli a gorchwylio gweithgareddau masnachol S4C i Fwrdd Cyfarwyddwyr S4C Masnachol.

Mae'r amrediad ar draws y portffolio o weithgareddau wedi ei gynllunio'n friadol er mwyn rheoli a tharo cydbwysedd rhwng risgiau masnachol posibl. Neilltuwyd oddeutu chwarter asedion y gronfa i'r categori risg uchel sy'n cynnwys buddsoddiadau ecwiti mewn cwmnïau. Mae'r Bwrdd Masnachol yn cyflwyno diweddiadau perfformiad rheolaidd i Fwrdd yr Awdurdod. Gwelwyd perfformiad cymysg ar draws y portffolio yn ystod y flwyddyn.

Roedd 2017 yn flwyddyn lwyddiannus i S4C ar gyfer gwerthiant hysbysebion, gan gynyddu'r incwm o 10%, tra bod y farchnad gyffredinol yn y DU i lawr -4%.

Cafwyd perfformiad calonogol iawn gan y cronfeydd a fuddsoddiwyd ar ran S4C Masnachol gan y rheolwyr cronfeydd Sarasin & Partners. Mae natur y cronfeydd hyn yn anelu at gydbwysedd rhwng anghenion a risg dros y tymhorau byr, canol a hir.

S4C's Commercial Activities

S4C has adopted a commercial strategy that places its emphasis on exploiting opportunities to extend and promote S4C's brand and create additional income or long-term capital value for S4C.

S4C Masnachol, S4C's commercial division (which is separate from S4C's public funding) is responsible for a variety of commercial activities and investments that are designed to create an additional sustainable income stream for S4C's public service. These activities include the sale of advertisements and sponsorship on the television service and on S4C Clic (working with Sky Media, S4C's advertising agent), investment in co-production of television programmes, production of promotional materials for brands such as Cyw, investing in Investment funds, and providing financial support, usually on the basis of equity investments, to companies and enterprises active in the content and digital sectors.

S4C's commercial activities contribute an average of approximately £2m per year to S4C's public service fund. Although a small percentage of S4C's total income, this is an important financial contribution which enables S4C to invest in content and services that would otherwise not be possible. The money held in S4C's commercial reserve is money that has been generated by the channel's commercial activities in the past.

The Authority Board has delegated the task of formulating, managing and supervising S4C's the commercial activities to the board of directors of S4C Masnachol.

The portfolio is intentionally spread across a range of activities so as to manage and balance potential commercial risks. Approximately a quarter of the fund's assets are allocated to the high-risk category which includes equity investments in companies. The Commercial Board submits regular performance updates to the Authority Board. Performance across the portfolio during the year was mixed.

2017 was a successful year for S4C's advertising sales, with income increasing by 10%, while the overall UK market was down by -4%.

The funds invested on behalf of S4C by Sarasin & Partners, S4C's fund managers, have delivered commendable performance. The nature of these funds aims to ensure a balance between risk over the short, medium and long terms together with the ability to be able to access funds when required.

Buddsoddiwyd mewn cyd-gynyrchiadau, ochr yn ochr ag arian y gwasanaeth cyhoeddus, mewn nifer o gynyrchiadau lle rhagdybir y gall fod iddynt werth masnachol tymor hir. Clustnodir arian masnachol hefyd tuag at gynhyrchu nwyddau Cyw i ymestyn a chefnogi brand S4C.

Siomedig fodd bynnag oedd perfformiad yr elfen honno o'r gronfa oedd wedi ei chlustnodi ar gyfer mentrau gyda lefel risg uwch, megis buddsoddiadau ecwiti (sef lle y mae S4C Masnachol yn berchen ar gyfranddiadau mewn cwmnïau penodol) ac yn arbennig felly y bartneriaeth aflwyddiannus gyda Loteri Cymru. Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd asesiad trylwyr o berfformiad a gwerth yr holl fuddsoddiadau ac o ganlyniad fe leihawyd gwerth nifer ohonynt ar y fantolen. Er hynny, mae'r gwerth a grëwyd gan y Grŵp Masnachol yn ei gyfanrwydd dros gyfnod y strategaeth hon yn fwy nac unrhyw golledion ac mae'r Grŵp wedi parhau i gyfrannu difidend sylweddol i gronfa gyhoeddus S4C.

Yn sgîl yr asesiad penderfynwyd adolygu'r strategaeth fasnachol bresennol, gan gynnwys ail-ystyried pwrpas y gronfa fasnachol, ei pherthynas gyda gweithgareddau'r gwasanaeth cyhoeddus, y mathau o weithgareddau a buddsoddiadau sy'n briodol, proffil risg y mentrau a strwythur ac atebolrwydd am y gweithgareddau masnachol. Mae'r gwaith hwn yn parhau o dan arweiniad y Prif Weithredwr.

Mae'r Adolygiad o S4C a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018 yn argymhell y dylai'r Llywodraeth ystyried diwygio'r gofynion cymeradwyo presennol er mwyn rhoi mwy o ryddid i S4C i fuddsoddi a chynhyrchu refeniw masnachol. Derbyniwyd yr argymhelliad hwn gan y Llywodraeth, ac mae Bwrdd yr Awdurdod eisoes yn trafod opsiynau gyda'r Llywodraeth er mwyn cytuno ar fframwaith addas ar gyfer gweithgareddau masnachol yn y dyfodol. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys ystyried sut i ymgorffori gweithgareddau masnachol S4C yn uniongyrchol o dan ofalaeth Bwrdd yr Awdurdod (a'r Bwrdd Unedol cysgodol) er mwyn sicrhau cyswllt agosach rhwng strategaeth gyffredinol S4C ac atebolrwydd am berfformiad y gweithgareddau masnachol.

Investments have been made in co-production projects, alongside public service funding, in a number of productions where it is considered that they may have long-term commercial value. Commercial funds were also allocated for the production of Cyw branded merchandise which extend and support the S4C brand.

However, the performance of the element of the fund earmarked for projects with a higher risk level, such as equity investments (where S4C Masnachol owns shares in certain companies) and particularly the unsuccessful partnership with Loteri Cymru, was disappointing. During the year a thorough assessment of the performance and value of all investments was undertaken and as a result a number were re-valued on the balance sheet. Nonetheless, the value created by the commercial group as a whole over the period of the strategy is greater than any losses and the group has continued to contribute a significant dividend to S4C's public service fund.

Following the assessment it was decided to review the current commercial strategy, including reconsidering the purpose of the commercial fund, its relationship with the public service activities, the types of activities and investments that are appropriate, the risk profile of the activities and the structure and accountability of the commercial activities. This work continues under the guidance of the Chief Executive.

The Review of S4C published in March 2018 recommends that the Government should consider amending current approval requirements to give S4C greater freedom to invest and generate commercial revenue. This recommendation has been accepted by the Government, and the Authority Board is already discussing options with the Government to agree a suitable framework for future commercial activities. This work includes considering how to incorporate S4C's commercial activities directly within the Authority Board (and the shadow Unitary Board) to ensure a closer link between S4C's overall strategy and accountability for the performance of the commercial activities.

Bydd pencadlys S4C yn symud i Ganolfan S4C Yr Egin yng Nghaerfyrddin yn hydref 2018.
S4C's headquarters will move to Canolfan S4C Yr Egin in Carmarthen in the autumn of 2018.

Mae'r gwaith o adeiladu'r ganolfan newydd yn mynd rhagddo yn unol â'r amserlen a ragwelwyd.

Construction of Canolfan S4C Yr Egin is progressing in accordance with the project's schedule.

Mae'r paratoi ar gyfer y symud wedi parhau, gan gynnwys sefydlu a gweithredu trefnweithiau rheoli rhaglen safonol, a sicrhau prosesau craffu priodol i'r rhaglen gan y Pwyllgor Craffu sydd wedi ei sefydlu gan Fwrdd yr Awdurdod.

The preparation for the move continues, including the establishment and operation of programme management structures, and ensuring proper scrutiny of the programme by the Scrutiny Committee established by the Authority Board.

Mae'r Pwyllgor Craffu wedi adnabod prif ffrydiau gwaith a phrif risgiau'r prosiect. Mae rhain yn cynnwys sicrhau y bydd yr adeilad ac adnoddau penodol S4C yn barod mewn pryd ac yn unol â'r gyllideb, sicrhau trosglwyddiad hwylus o systemau S4C i'r ganolfan newydd heb beryglu'r gwasanaeth teledu ac arlein a rheoli materion staffio gan gynnwys recriwtio staff newydd yn ardal Caerfyrddin, trosglwyddo gwybodaeth a sgiliau gan staff sy'n gadael a rheoli adnoddau staffio yn ystod y cyfnod pontio pryd y bydd canran o'r staff yn ystyried a ydynt am symud eu lleoliad gwaith i'r Egin yn barhaol, neu adael S4C. Mae S4C eisoes wedi hysbysebu 12 swydd a fydd wedi eu lleoli yn Yr Egin, a rhagwelir y bydd rhagor o swyddi'n cael eu hysbysebu wrth i'r broses o symud barhau.

The Scrutiny Committee has identified the main workstreams and key project risks. These include ensuring that the building and S4C's facilities will be completed on time and in line with the budget, ensuring a smooth transition for S4C's systems to the new centre without compromising the television and online service, managing staffing issues including the recruitment of new staff in the Carmarthen area, the transfer of knowledge and skills from staff that will be leaving and managing staffing resources during the transition period when a percentage of staff will be considering whether they wish to move their work location permanently to Yr Egin or leave S4C. S4C have already advertised 12 posts which will be based in Yr Egin, and it is anticipated that more posts will be advertised as the relocation process continues.

Mae Prifysgol y Drindod Dewi Sant, datblygwr a pherchennog y ganolfan, mewn trafodaethau gyda nifer o bartneriaid yn y meysydd creadigol a digidol i ymgartrefu yn y ganolfan a disgwylir y bydd oddeutu dwy ran o dair o'r gofod sydd ar gael wedi ei lenwi yn ystod 2018.

The University of Wales Trinity Saint David, the centre's developer and owner, is in discussions with a number of partners in the creative and digital fields to move to the centre and it is expected that approximately two thirds of the available space will be filled during 2018.

Mae rhaglen waith amrywiol ar y gweill i sicrhau y bydd sefydlu Canolfan S4C Yr Egin yn fodd i gryfhau gweithgarwch cymunedol ac i sbarduno cyfleoedd dysgu, ymarfer a chyflogaeth yn y diwydiannau creadigol a digidol yn yr ardal.

A comprehensive project is underway to ensure that the establishment of the centre will strengthen community activity and promote skills and employment opportunities in the creative and digital industries in the area.



Adroddiad Llywodraethiant Governance Report

Mae S4C yn gorff cyhoeddus annibynnol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau rhaglenni teledu yn yr iaith Gymraeg.

Sefydlwyd S4C gan ddeddf gwlad yn 1981 yn unswydd ar gyfer darparu gwasanaethau teledu yn yr iaith Gymraeg.

Mae'r Adroddiad Llywodraethiant yn nodi fframwaith llywodraethiant corfforaethol y Bwrdd ac yn egluro sut y mae'r Bwrdd yn cynnal ei fusnes, sut mae aelodau Bwrdd yr Awdurdod yn cael eu penodi, sut y mae Bwrdd yr Awdurdod yn asesu ei berfformiad ac effeithiolrwydd a sut y mae'n dirprwyo cyfrifoldebau i'r Tim Rheoli a'r Prif Weithredwr tra'n sicrhau atebolrwydd priodol.

Mae'r adroddiad hefyd yn nodi asesiad y Bwrdd o'r risgiau cynradd sy'n wynebu busnes S4C ar hyn o bryd.

Mae'r ddeddfwriaeth a sefydlodd S4C yn cyfeirio at un corff statudol a gwasanaeth teledu. Cyfeirir at y gwasanaeth fel 'Sianel Pedwar Cymru' neu S4C, a chyfeirir at y corff sy'n darparu'r gwasanaeth fel Awdurdod S4C. Mae'r adroddiad hwn yn gyson gyda'r diffiniadau statudol. Cyfeirir at fwrdd cyfarwyddwyr S4C fel Bwrdd yr Awdurdod neu'r Bwrdd ac at y gwasanaeth fel S4C.

Ceir rhagor o wybodaeth am strwythur a gwaith S4C ar wefan S4C www.s4c.cymru

S4C is an independent public body responsible for the provision of television programmes in the Welsh language.

S4C was established in 1981 specifically for the provision of Welsh language television services.

The Governance Report sets out the Authority Board's corporate governance framework and explains how the Board conducts its business, how the Authority Board's members are appointed, how the Board assesses its performance and effectiveness and how the Board delegates responsibilities to the Management Team and Chief Executive whilst ensuring appropriate accountability.

The report also sets out the Board's assessment of the primary risks facing S4C's business at present.

The legislation that established S4C refers to one statutory body and television service. The service is referred to as 'Sianel Pedwar Cymru' or S4C, and the body that provides the service as the S4C Authority. This report is consistent with these statutory definitions. S4C's board of directors is referred to as the Authority Board or the Board and the service is referred to as S4C.

More information about S4C's structure and work can be found on S4C's website www.s4c.cymru

Aelodau Bwrdd Awdurdod S4C

Penodir aelodau Bwrdd Awdurdod S4C gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn dilyn ymgynghori gyda Llywodraeth Cymru a Swyddfa Cymru. Hysbysebir swyddi ar Fwrdd yr Awdurdod yn gyhoeddus, ac mae’r penodiadau’n cael eu gwneud yn dilyn trefn penodiadau cyhoeddus.

Huw Jones (Cadeirydd)

Tymor aelodaeth: 08.06.11-07.06.19

Cyn ganwr a darlledwr, un o sylfaenwyr Cwmni Recordiau Sain a rheolwr y cwmni hyd at 1981. Cyd-sefydlodd un o’r cwmnïau teledu annibynnol cyntaf, Teledu’r Tir Glas a’r cwmni adnoddau Barcud, ac roedd yn gadeirydd y cwmni hwnnw rhwng 1981-1993.

Roedd yn Brif Weithredwr S4C rhwng 1994 a 2005. Mae nawr yn Gadeirydd Portmeirion Cyf. ac yn is-Gadeirydd Canolfan Iaith Nant Gwrtheyrn.

John Davies (Prif aelod anweithredol)

Tymor aelodaeth: 01.04.10-30.09.18

Mae’r Cynghorydd John Davies yn amaethwr ac yn gyn-arweinydd Cyngor Sir Benfro. Bu’n Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru rhwng 2008 a 2012.

Mae’n Gadeirydd Bwrdd Rheoli Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru ac yn Drysorydd Ymddiriedolaeth yr Uchel Siryfion.

Hugh Hesketh Evans

Tymor aelodaeth: 20.11.14 - 19.11.18

Daeth Hugh yn Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych gyntaf ym mis Tachwedd 2007, ac yna ei ail-ethol yn 2008, 2012 a 2017. Mae’n cynrychioli Llanfair Dyffryn Clwyd a Gwyddelwern ar y Cyngor Sir ers mis Mehefin 2004 ac yn aelod o’r Cyngor Cymuned ers 1990. Mae’n aelod o Gyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Arweinydd Grwp Annibynnol Pwyllgor Gweithredol y WLGA. Mae’n aelod o Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU) ac yn ymddiriedolwr a thrysorydd Elusen Gyfunol.

Enillodd Gwleidydd Llywodraeth Leol y Flwyddyn yng ngwobrau’r Wales Year Book yn 2010, ac yn 2012, dyfarfnwyd iddo OBE am wasanaethau i Lywodraeth Leol yn Rhestr Anrhydeddau’r Frenhines.

Guto Harri

Tymor aelodaeth: 9.07.14 - 08.07.20

Dechreuodd Guto Harri ei yrfa fel newyddiadurwr BBC, a threuliodd y rhan fwyaf o’r cyfnod yn gohebu ar wleidyddiaeth y DU ar deledu a radio y gorfforaeth.

Treuliodd gyfnod yn Rhufain ac Efrog Newydd cyn gadael i fod yn Gyfarwyddwr Cyfathrebu ar gyfer Boris Johnson fel Maer Llundain. Gwnaeth swyddi tebyg i NewsUK a Liberty Global.

Mae bellach yn ymgynghorydd annibynnol, yn darlledu, yn olygydd cyfrannol i GQ ac yn un o Gyfarwyddwyr Gŵyl y Gelli.

S4C Authority Board Members

Members are appointed by the Secretary of State for Digital, Culture, Media and Sport following consultation with the Wales Office and the Welsh Government. Positions on the Authority Board are advertised publicly, and appointments are made in accordance with the public appointments process.

Huw Jones (Chairman)

Term of appointment: 08.06.11-07.06.19

Former singer and broadcaster, one of the founders of Sain Record Company and the company’s managing director until 1981. Co-founder of Teledu’r Tir Glas, one of the earliest Welsh independent production companies and the facilities company Barcud, which he chaired between 1981 to 1993.

He was S4C’s Chief Executive between 1994 to 2005. He is now Chair of Portmeirion Ltd, and Vice-Chair of the Nant Gwrtheyrn Language Learning Centre.

John Davies (Lead Non-Executive Member)

Term of appointment: 01.04.10-30.09.18

Councillor John Davies is a farmer and former Leader of Pembrokeshire County Council. He was Leader of the Welsh Local Government Association (WLGA) between 2008 and 2012.

He is Chairman of the Royal Welsh Show’s management board and a trustee of the High Sheriff’s Trust.

Hugh Hesketh Evans

Term of appointment: 20.11.14 – 19.11.18

Hugh is the Leader of Denbighshire County Council since November 2007, and was re-elected in 2008, 2012 and 2017. He represents Llanfair Dyffryn Clwyd and Gwyddelwern on the council since 2004, and is also a member of the Community Council since 1990. He is a member of the Council and Independents Group Leader of the Welsh Local Government Association (WLGA). He is a member of the National Farmers Union (NFU) and trustee and treasurer of a Consolidated Charity.

He was awarded the Local Government Politician of the Year at the 2010 Wales Year Book awards and was awarded the OBE for services to Local Government in the Queen’s Honours List in 2012.

Guto Harri

Term of appointment: 9.07.14 - 08.07.20

Guto Harri started his career as a BBC journalist, spending most of it covering UK politics for the BBC’s main TV and radio outlets.

He spent a period in Rome and New York before becoming Communications Director for Boris Johnson when he was Mayor of London. He worked in similar roles for NewsUK and Liberty Global.

He is now an independent consultant, broadcaster, a contributing editor to GQ and a Director of The Hay Festival.

Siân Lewis

Tymor aelodaeth: 9.07.14 – 08.07.20

Siân yw Prif Weithredwraig Urdd Gobaith Cymru, mudiad cenedlaethol sy’n cynnig amrywiaeth eang o gyfleon tu allan i’r ysgol i blant a phobl ifanc ddefnyddio’r Gymraeg yn hyderus. Erbyn heddiw, mae gan yr Urdd dros 54,000 o aelodau, yn cyflogi dros 300 o staff a throsiant o £10 miliwn.

Cyn ei phenodiad i’r Urdd, bu Siân yn Brif Weithredwraig i Fenter Iaith Caerdydd sy’n gyfrifol am hyrwyddo ac ehangu’r defnydd o’r Gymraeg ar lefel gymunedol. Datblygodd Sian y Fenter i fod yn un o fentrau iaith fwyaf llwyddiannus a blaenllaw Cymru a gweledigaeth Siân oedd yn gyfrifol am greu Tafwyl - Gŵyl flynyddol Menter Caerdydd i ddathlu celfyddydau a diwylliant Cymraeg yn y Brifddinas. Mae Siân hefyd yn aelod o nifer o fyrddau yn ymwneud â’r Gymraeg o fewn awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru.

Elan Closs Stephens

Tymor aelodaeth: 12.07.12-31.10.18

Rhwng 2012 a 2017 roedd Elan yn aelod o Awdurdod S4C yn rhinwedd ei swydd fel Ymddiriedolwraig Cenedlaethol Cymru y BBC. Ym mis Ebrill 2017 cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Gwladol benodiad Elan yn aelod annibynnol o’r Bwrdd.

Mae Elan yn Athro Emeritws ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae wedi darparu arweiniad strategol i gyrff megis S4C fel Cadeirydd (1998-2006), Llywodraethwr y BFI (2001-2007) ac fel Cadeirydd yr Adroddiad ar y Celfyddydau yng Nghymru (Adroddiad Stephens 2006). Ym mis Gorffennaf 2017 penodwyd Elan yn Aelod Anweithredol o Fwrdd Unedol y BBC. Mae’n Ymddiriedolwraig Anweithredol o Fwrdd Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru. Hi hefyd yw’r Comisiynydd Etholiadol tros Gymru.

Siân Lewis

Term of appointment: 9.07.14 - 08.07.20

Siân is the Chief Executive of Urdd Gobaith Cymru, a national organisation that offers a wide range of out-of-school opportunities for children and young people to learn and socialise in the Welsh language. Today, the Urdd has over 54,000 members, employs over 300 staff and a turnover of £10 million.

Prior to her appointment to the Urdd, Siân was Chief Executive of Menter Iaith Caerdydd which is responsible for promoting and extending the use of Welsh in Cardiff at community level. Sian developed the organisation to become one of Wales’s most successful and leading language ventures. Siân was responsible for creating Tafwyl - Menter Caerdydd’s annual festival to celebrate Welsh arts and culture in the Capital. Siân is also a member of a number of Welsh language boards within local authorities and the Welsh Government.

Elan Closs Stephens

Term of appointment: 12.07.12-31.10.18

From 2012 to 2017 Elan was a member of the S4C Authority in her capacity as the BBC’s National Trustee for Wales. In April 2017 the Secretary of State confirmed Elan’s appointment as an independent member of the Board.

Elan is an Emeritus Professor at Aberystwyth University. She has provided strategic leadership to cultural bodies such as Chair of the S4C Authority (1998-2006), Governor of the BFI (2001-2007) and as Chair of the Arts Report in Wales (Stephens Report 2006). In July 2017 Elan was appointed Non-Executive Member of the BBC Unitary Board. She is a Non-Executive Trustee of the Welsh Government’s Permanent Secretary’s Board. She is also the Electoral Commissioner for Wales.

Presenoldeb Aelodau'r Bwrdd

Mae'r tabl isod yn nodi presenoldeb yng nghyfarfodydd Bwrdd yr Awdurdod a'i bwyllgorau yn ystod 2017/18.

Board members' attendance

The table below notes attendance at meetings of the Authority Board and its committees during 2017/18.

	Cyfarfod Bwrdd (cyfarfodydd busnes misol a chyfarfodydd arbennig) Board Meeting (monthly business meetings and special meetings)	Pwyllgor Archwilio, Rheoli Risg, Personel a Chydnabyddiaeth Audit, Risk Management, Personnel and Remuneration Committee	Pwyllgor Cwynion a Chydymffurfiaeth Complaints and Compliance Committee	Pwyllgor Cynnwys Content Committee	Pwyllgor Craffu Adeoli a Chydeoli (trafodwyd materion craffu Adeoli a Chydeoli yng nghyfarfodydd y Bwrdd yn ystod y flwyddyn) Relocation and Co-location Scrutiny Committee (relocation and co-location scrutiny matters were discussed in the Board meetings during the year)	Y Bwrdd Masnachol Commercial Board
Nifer o gyfarfodydd yn ystod y flwyddyn Number of meetings during the year	12	5	1	5	1*	4
Huw Jones	12	5	—	5	1	4
Elan Closs Stephens	11	4	1	—	—	—
John Davies	12	—	1	4	1	—
Guto Harri	7	—	1	3	1	—
Sian Lewis	11	3	—	3	—	—
Hugh Hesketh Evans	9	5	—	—	—	4

*Estynnwyd gwahoddiad i holl aelodau'r Bwrdd i'r cyfarfodydd hyn.

*All Board members were invited to attend these meetings.

Mae Cadeirydd Bwrdd yr Awdurdod yn mynychu cyfarfodydd y pwyllgorau Archwilio a Rheoli Risg, Personel a Chydnabyddiaeth, Craffu Adeoli a Chydeoli a'r Bwrdd Masnachol fel sylwedydd

The Chairman of the Authority Board attends meetings of the Audit, Risk Management, Personnel and Remuneration; Relocation and Co-location Scrutiny Committee and the Commercial Board as an observer.

Mae Cadeirydd Bwrdd yr Awdurdod ar hyn o bryd yn cadeirio'r Pwyllgor Cynnwys.

The Chairman of the Authority Board currently chairs the Content Committee.

Tîm Rheoli S4C

Cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr a'r Tim Rheoli

Mae'r Bwrdd yn dirprwyo nifer o swyddogaethau penodol i'r Prif Weithredwr a'i swyddogion (nodir y materion hyn yn Rheolau Sefydlog y Bwrdd, sydd i'w cael ar wefan S4C), ac mae'r Prif Weithredwr yn atebol i'r Bwrdd am weithredu'r swyddogaethau hyn. Cyfrifoldeb y Prif Weithredwr, swyddogion a staff S4C ydi rheoli a chynnal S4C o ddydd i ddydd. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn cynnwys darparu gwasanaethau teledu ac arlein S4C.

Owen Evans – Prif Weithredwr

Penodwyd Owen Evans yn Brif Weithredwr S4C ym mis Hydref 2017. Fe'i addysgwyd yn Ysgol Penweddig, Aberystwyth cyn graddio mewn economeg ym Mhrifysgol Abertawe.

Cyn ymuno ag S4C roedd yn Ddirprwy Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, gyda chyfrifoldeb am Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus.

Rhwng 2008 a 2010 roedd yn Gyfarwyddwr elusen Busnes yn y Gymuned yng Nghymru ac am 10 mlynedd cyn hynny bu'n gweithio i BT gan gynnwys cyfnod fel aelod o dim Prydeinig BT ar ddatblygu eu strategaeth band-eang. Bu'n aelod o Fwrdd yr Iaith Gymraeg rhwng 2005 a 2010. Ar hyn o bryd mae'n aelod o fwrdd ymgynghorol elusen Marie Curie yng Nghymru.

Elin Morris - Cyfarwyddwr Corfforaethol a Masnachol

Yn wreiddiol o Lanrhystud, Aberystwyth, bu Elin yn gweithio fel cyfreithiwr yn Adran Gorfforaethol Geldards (Cyfreithwyr) am dros 18 mlynedd. Cafodd ei phenodi'n Gyfarwyddwr Corfforaethol a Masnachol S4C yn 2009. Mae'n gyfrifol am yr adrannau Cyfreithiol a Busnes, Adnoddau Dynol a Masnachol.

Gwyn Williams – Cyfarwyddwr Cyfathrebu

Dechreuodd Gwyn ei yrfa yn y cyfryngau gan weithio i Radio Cymru ym Mangor. Wedi hynny bu'n gweithio i Newyddion 7 a Hel Straeon cyn cychwyn ei gwmni cynhyrchu ei hun. Roedd yn un o sylfaenwyr Cwmni Da ac yna'n brif weithredwr cwmni adnoddau Barcud yng Nghaernarfon. Cyn cychwyn gyda S4C roedd yn Gyfarwyddwr Cyfathrebu gyda Chomisinydd y Gymraeg.

Amanda Rees – Cyfarwyddwr Cynnwys

Bu Amanda yn cyfarwyddo, cynhyrchu ac uwch gynhyrchu ystod eang o raglenni ffeithiol i ddarlledwyr byd eang cyn ffurfio ei chwmmi ei hun yn 2012. Enwebwyd ei rhaglen 'Finding Mum and Dad' (i Channel 4) am wobrau Grierson a Broadcast yn 2015. Penodwyd Amanda'n Gyfarwyddwr Cynnwys S4C yn Hydref 2016.

Ceir manylion am gydnabyddiaeth aelodau'r Tim Rheoli yn Nodyn 6 y Datganiad Ariannol.

S4C's Management Team

Responsibilities of the Chief Executive and the Management Team

The Board delegates a number of specific functions to the Chief Executive and his officers (these matters are set out in the Board's Standing Orders, which can be found on S4C's website), and the Chief Executive is accountable to the Board for exercising these functions. It is the responsibility of the Chief Executive, officers and staff of S4C to manage and maintain S4C on a daily basis. This responsibility includes the provision of S4C's television and online services.

Owen Evans – Chief Executive

Owen Evans was appointed S4C's Chief Executive in October 2017. Owen was educated at Ysgol Penweddig, Aberystwyth before graduating in economics from Swansea University.

Prior to joining S4C, he was Deputy Permanent Secretary of the Welsh Government, responsible for Education and Public Services.

Between 2008 and 2010 he was director of Business In The Community Wales and for 10 years before that he worked for BT, including as a member of the UK team developing BT's broadband strategy. He served as a member of the Welsh Language Board between 2005 and 2010. He is currently a member of Marie Curie's advisory board in Wales.

Elin Morris - Director of Corporate and Commercial

Originally from Lanrhystud, Aberystwyth, Elin worked as a lawyer within the Corporate Department at Geldards (solicitors) for over 18 years. She was appointed S4C's Corporate and Commercial Director in 2009. She is responsible for S4C's Legal and Business Affairs Department, Human Resources and Commercial issues.

Gwyn Williams – Director of Communications

Gwyn began his career in the media, working for Radio Cymru in Bangor. Thereafter he worked for Newyddion 7 for the BBC and Hel Straeon before starting his own production company. He was a founding member of the production company Cwmni Da before being appointed chief executive of Barcud resources company in Caernarfon. Prior to his current appointment, he was Director of Communications, with the Welsh Language Commissioner.

Amanda Rees – Director of Content

Amanda directed and produced a wide range of factual programmes for broadcasters across the world before establishing her own company in 2012. 'Finding Mum and Dad', produced by Amanda for Channel 4 was nominated for both the Grierson and Broadcast Awards in 2015. She was appointed Content Director of S4C in October 2016.

Details of the remuneration of the Management Team can be found in Note 6 to the Statement of Accounts.

Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol S4C

Mae strwythur a dyletswyddau cyfansoddiadol Bwrdd Awdurdod S4C wedi'u nodi mewn statud yn Neddf Gyfathrebiadau 2003 a Deddfau Darlledu 1990 a 1996. Mae dyletswydd benodol ar Fwrdd yr Awdurdod i gyflwyno Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol am ei weithgareddau i'r Senedd bob blwyddyn.

Cydymffurfio gyda'r Cod Llywodraethiant Corfforaethol

Mae'r Bwrdd yn ymrwymedig i ddefnyddio'r egwyddorion uchaf o ran llywodraethiant corfforaethol sy'n gymesur â'i faint. Er nad yw'n gwmni rhestredig, mae wedi dewis cydymffurfio â darpariaethau Adran 1 Cod Llywodraethiant Corfforaethol y DU hyd y bôn yn gymwys i'r Bwrdd. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Bwrdd wedi dilyn yr egwyddorion rheolaeth dda a gynhwysir yng Nghod Llywodraethiant Corfforaethol y DU.

Cyfrifoldebau Bwrdd yr Awdurdod

Mae prif gyfrifoldebau'r Bwrdd yn cynnwys:

- darparu gwasanaethau teledu S4C;
- sicrhau cydymffurfiaeth y gwasanaethau gyda'r gofynion rheoleiddio perthnasol, gan gynnwys Cod Darlledu Ofcom;
- cymryd ystyriaeth o farn y gynulleidfa am arlwy gwasanaeth S4C;
- cymeradwyo strategaeth, cyllideb flynyddol a chynlluniau ariannol tymor hir S4C;
- goruchwyllo, cymeradwyo a chraffu ar reolaeth briodol S4C;
- gweithredu fel corff cyhoeddus;
- gweithredu fel rheoleiddiwr ar nifer cyfyngedig o faterion penodol yn ymwneud a gwasanaethau arlein S4C;
- paratoi adroddiadau blynyddol a chyfrifon; a
- phenodi Prif Weithredwr ac Ysgrifennydd.

Nid yw Bwrdd yr Awdurdod yn ymwneud ag unrhyw benderfyniadau dydd i ddydd. Yn benodol, nid yw'r Bwrdd yn ymwneud ag unrhyw benderfyniadau comisiynu neu benderfyniadau golygyddol. Mae'r arfer yma wedi bodoli ers 1982. Mae'n sicrhau fod y Bwrdd yn cael ei gadw hyd braich o benderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan y swyddogion, yn arbennig felly, ynglŷn â chynnwys rhaglenni.

Ceir rhagor o wybodaeth am drefnweithiau a chyfrifoldebau'r Bwrdd yn ei Rheolau Sefydlog ar safle we.s4c.cymru.

S4C's Corporate Governance Structure

The constitutional structure and duties of the S4C Authority Board are set out in statute in the Communications Act 2003 and the Broadcasting Acts 1990 and 1996. The Authority Board has a specific duty to submit an Annual Report and Financial Statement of its activities to Parliament each year.

Compliance with the Corporate Governance Code

The Board is committed to using the highest corporate governance principles that are proportionate to its size. Although S4C is not a listed company, it has chosen to comply with the provisions of Section 1 of the UK Corporate Governance Code in so far as they apply to S4C. During the year, the Authority Board has followed the good governance principles contained in the UK Corporate Governance Code.

Responsibilities of the Board of the Authority

The Board's main responsibilities include:

- providing S4C's television services;
- ensuring compliance of the services with the relevant regulatory requirements, including the Ofcom Broadcasting Code;
- taking into account the audience's views regarding S4C's provision;
- approving S4C's strategy, annual budget and long term financial plans;
- overseeing, approving and scrutinising the proper management of S4C;
- operating as a public body;
- acting as regulator in a limited number of areas relating to S4C's online services;
- preparing annual reports and accounts; and
- appointment of the Chief Executive and Secretary.

The Authority's Board does not participate in day-to-day decisions. In particular, the Board is not involved in any commissioning or editorial decisions. This practice has existed since 1982. It ensures that it remains at arm's length from decisions made by officers - especially in the case of programme content.

Further information regarding the Board's procedures and responsibilities can be found in its Standing Orders on the s4c.cymru website.

Bwrdd yr Awdurdod a'i Aelodau

Mae gan Fwrdd yr Awdurdod gyfrifoldeb i sicrhau bod swyddogaethau statudol S4C, mewn amgylchedd gwasanaeth cyhoeddus a masnachol, yn cael eu cyflawni'n unol â pholisïau'r Awdurdod, gofynion deddfau perthnasol, Cod Darlledu Ofcom, a'r Cytundeb Partneriaeth, Ariannu ac Atebolrwydd gyda'r BBC.

Mae Bwrdd yr Awdurdod yn cynnwys y Cadeirydd a hyd at wyth aelod, a phenodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ar ôl ymgynghori â Llywodraeth Cymru a Swyddfa Cymru. Mae ganddynt brofiad a gwybodaeth helaeth ac maent yn annibynnol o'r Tim Rheoli, ac o unrhyw berthynas fusnes neu berthynas arall a allai ymyrryd ag arfer eu barn annibynnol. Mae'r strwythur hwn yn sicrhau na all y broses o wneud penderfyniadau gan yr aelodau gael ei dominyddu gan unigolyn neu grŵp bychan.

Mae amrywiaeth o fewn aelodau'r Bwrdd yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses ddethol. Mae amrywiaeth o fewn y sefydliad yn allweddol i sicrhau bod gwasanaeth S4C yn adlewyrchu ei gynulleidfa a'u hanghenion.

Hyfforddiant a Rhaglen Sefydlu Aelodau'r Bwrdd

Mae rhaglen sefydlu bwrpasol yn cael ei ddarparu i bob aelod newydd o Fwrdd yr Awdurdod. Ynghyd â darparu gwybodaeth sylfaenol sy'n ymwneud â dyletswyddau cyfarwyddwyr, mae'r broses sefydlu yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â gweithrediad busnes S4C, y sector cyfryngau a hefyd y prif risgiau ac ansicrwydd sy'n wynebu S4C.

Aelod Anweithredol Arweiniol

Ym mis Mai 2016, penododd y Bwrdd John Davies yn Aelod Anweithredol Arweiniol. Crëwyd y rôl hon yn dilyn cyngor a roddwyd gan DCMS i'r cyrff a noddir ganddi. Mae cyfrifoldebau'r Aelod Anweithredol Arweiniol yn cynnwys rhoi cyngor a chymorth i'r Cadeirydd; arwain yr asesiad o berfformiad y Cadeirydd; lle mae anawsterau neu densiwn yn bodoli yn y berthynas rhwng y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, bod yn gyfrifol am hwyluso'r gwaith o ddatrys y materion hyn a chydweithio â'r Cadeirydd ac aelodau eraill y Bwrdd i geisio datrys unrhyw ystyriaethau neu anghydfodau perthnasol sy'n effeithio ar waith y Bwrdd.

Effeithiolrwydd a Gwerthuso

Mae'r Bwrdd yn cynnal gwerthusiad rheolaidd a thrylwyr o'i berfformiad ei hun a gwaith ei bwyllogorau a'r aelodau.

Yn ystod y cyfnod arweiniodd Cadeirydd Bwrdd yr Awdurdod adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd y Bwrdd ei hun, ei bwyllogorau ac adolygiad perfformiad holl aelodau'r Bwrdd. Cynhaliwyd adolygiad o berfformiad y Cadeirydd gan yr Aelod Anweithredol Arweiniol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Rheoli Risg, Personél a Chydnabyddiaeth.

Diddordebau a Chydnabyddiaeth Aelodau

Mae cofrestr sy'n datgan diddordebau'r aelodau ar gael ar wefan S4C, s4c.cymru. Mae copïau ar gael i'w harchwilio yn swyddfeydd S4C yng Nghaerdydd a Chaernarfon.

Caiff gwybodaeth mewn perthynas â chydnabyddiaeth yr aelodau ei nodi yn Nodyn 6 y Datganiad Ariannol.

The Authority Board and its Members

The Authority's Board has a responsibility to ensure that S4C's statutory functions, in a public and commercial service environment, are carried out in accordance with the Board's policies, relevant legislative requirements, the Ofcom Broadcasting Code, and the Partnership Funding and Accountability Agreement with the BBC.

The Authority Board comprises the Chairman and up to eight members, appointed by the Secretary of State for Digital, Culture, Media and Sport, following consultation with the Welsh Government and the Wales Office. They bring a breadth of experience and knowledge and are independent of the Management Team and of any business or other relationship which could interfere with the exercise of their independent judgment. This structure ensures that the members' decision making cannot be dominated by an individual or small group.

Diversity within the board is considered as part of the selection process. Diversity within the organisation is key to ensuring that S4C's service reflects its audience and their needs.

Training and Board Members' Induction Programme

A tailored induction programme is provided to all new Board members. The induction process includes the provision of core information relating to directors' duties, information relating to the operation of S4C's business, the media sector and also the principal risks and uncertainties facing S4C.

Lead Non-Executive Member

In May 2016, the Board appointed John Davies as Lead Non-Executive Member. This role was created following advice given by DCMS to its sponsored bodies. The Lead Non-Executive Member's responsibilities include providing advice and assistance to the Chairman; leading the Chairman's performance assessment; where difficulties or tensions exist in the relationship between the Chairman and the Chief Executive to be responsible for facilitating a resolution of such matters and working with the Chairman and other Board members to seek resolution of any material issues or disputes that impact upon the Board's work.

Effectiveness and Evaluation

The Board undertakes a regular and thorough evaluation of its own performance and the work of its committees and members.

During the period the Chairman of the Board led an annual review of the effectiveness of the Board itself, its committees and a performance review of all Board members. A review of the Chairman's performance was carried out by the Lead Non-Executive Member and the Chair of the Audit, Risk Management, Personnel and Remuneration Committee.

Members' Interests and Remuneration

A register of members' interests can be found on S4C's website, s4c.cymru. Copies are available for inspection at S4C's offices in Cardiff and Caernarfon.

Details of the remuneration of the Authority Board's members can be found in Note 6 to the Statement of Accounts.

Gwrthdaro Buddiannau

Yn ystod y cyfnod nid oedd gan unrhyw aelodau o'r Bwrdd fudd mewn cytundebau gydag S4C.

Cydymffurfiaeth Rheoleiddio

Trosoglwyddwyd llawer o gyfrifoldebau rheoleiddio i Ofcom dan ddeddfwriaeth yn 2003. Mae dyletswydd statudol ar S4C i gydymffurfio gyda Chod Darlledu Ofcom a gofynion rheoleiddio eraill, ac mae gan Ofcom nifer o bwerau a chyfrifoldebau statudol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gwasanaethau S4C. Ceir rhagor o fanylion am faterion rheoleiddio ar safle we S4C [s4c.cymru](#)

Fel rhan o'r broses flynyddol o adrodd i Ofcom, mae S4C yn talu Ffi Rheoleiddio i Ofcom ac yn darparu ystod eang o wybodaeth i Ofcom, gan gynnwys gwybodaeth ariannol, gwybodaeth feintiol am berfformiad y gwasanaeth a gwybodaeth am gydymffurfio gyda chwotâu perthnasol Ofcom.

Mae Bwrdd yr Awdurdod yn parhau â nifer cyfyngedig o gyfrifoldebau rheoleiddio sy'n ymwneud gyda gwasanaethau arlein S4C sydd y tu hwnt i ddarpariaethau Cod Darlledu Ofcom.

Ceisio barn y gynulleidfa

Mae gan Fwrdd yr Awdurdod gyfrifoldeb statudol i ganfod y farn gyhoeddus am y rhaglenni sy'n cael eu darlledu ar S4C ynghyd ag effeithiau rhaglenni ar agwedd ac ymddygiad y gwylwyr ac yn ogystal y math o raglenni y byddai aelodau'r cyhoedd yn dymuno eu gweld ar S4C.

Mae'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod darpariaethau priodol yn bodoli er mwyn galluogi gwylwyr i gwyno i S4C am raglenni'r sianel. Ceir gwybodaeth am sut i gwyno am raglenni S4C ar [s4c.cymru](#), a cheir manylion cyswllt Gwifren Gwylwyr yng nghefn yr adroddiad hwn.

Conflict of Interests

During the period no members had an interest in contracts with S4C.

Regulatory Compliance

A significant number of regulatory responsibilities were transferred to Ofcom under legislation in 2003. S4C has a statutory duty to comply with the Ofcom Broadcasting Code and other regulatory requirements, and Ofcom has a number of statutory powers and responsibilities to ensure the compliance of S4C's services. Further information relating to the regulatory requirements can be found on S4C's website, [s4c.cymru](#).

As part of the annual reporting process to Ofcom, S4C pays Ofcom a Regulatory Fee and provides a wide range of information to Ofcom, including financial information, quantitative information about the performance of the service and information regarding compliance with Ofcom's relevant quotas.

The Authority Board continues to exercise a limited number of regulatory responsibilities that relate to S4C's online services that are outside the provisions of the Ofcom Broadcasting Code.

Audience opinions

The Board has a statutory duty to ascertain the state of public opinion concerning programmes broadcast on S4C, any effects of such programmes on the attitudes or behaviour of viewers as well as the types of programmes that members of the public would like to be broadcast on S4C.

The Board is also responsible for ensuring that appropriate provisions exist to enable viewers to complain to S4C about the channel's programmes. Information regarding submitting a complaint about S4C's programmes can be found on the [s4c.cymru](#) website, and the Viewers' Hotline contact details are available at the back of this report.

Strwythur Gwaith Bwrdd Awdurdod S4C

Mae Bwrdd yr Awdurdod yn cynnal cyfarfodydd busnes fel arfer unwaith y mis. Mae'r cyfarfodydd hyn yn dilyn rhaglen waith flynyddol sy'n cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd. Mae nifer o brif swyddogion S4C, gan gynnwys y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Cynnwys, y Cyfarwyddwr Masnachol, y Cyfarwyddwr Cyfathrebu, y Pennaeth Dosbarthu Cynnwys a'r Ysgrifennydd hefyd yn mynychu'r cyfarfodydd ac yn cymryd rhan yn nhrefnadaethau'r Bwrdd.

Mae Bwrdd yr Awdurdod yn gweithredu'n debyg i fwrdd unedol. Mae cyfarfodydd y Bwrdd yn caniatáu cyfle i aelodau swyddogol y bwrdd a'r uwch swyddogion sy'n mynychu'r cyfarfodydd i drafod a mynegi barn ar waith S4C. Nid oes gan yr uwch swyddogion bleidlais ffurfiol, ond cymerir ystyriaeth o'u cyngor a'u barn wrth i'r Bwrdd ddod i benderfyniadau. Mae trefnweithiau'r Bwrdd a'r Rheolau Sefydlog yn cael eu diwygio ar hyn o bryd yn dilyn argymhellion yr Adolygiad o S4C yn ymwneud â sefydlu a gweithredu fel bwrdd unedol.

Mae'r Tim Rheoli yn darparu gwybodaeth briodol ac amserol ar gyfer aelodau'r Bwrdd ac mae rhyddid i'r aelodau ofyn am unrhyw wybodaeth bellach y credant sy'n angenrheidiol. Gall pob aelod ofyn am gyngor gan yr Ysgrifennydd a gweithwyr proffesiynol annibynnol ar draul S4C.

Mae aelodau'r Bwrdd yn craffu perfformiad S4C mewn perthynas â chyflawni nodau ac amcanion a gytunwyd, maent yn monitro adrodd ar berfformiad, ac maent yn craffu cywirdeb gwybodaeth ariannol a sicrhau bod rheolaethau a systemau rheoli risg ariannol yn gadarn ac yn cael eu gweithredu'n briodol.

Yn amodol ar adolygiad cyfnodol gan Fwrdd yr Awdurdod o'r cyfrifoldebau a'r bwerau a ddirprwyir i'r Prif Weithredwr a'r Tim Rheoli a chyfrifoldebau statudol trosgynnol y Bwrdd, mae'r cyfrifoldeb ar gyfer gweithredu polisiau a darparu gwasanaethau S4C, gan sicrhau eu bod yn gyson gyda chylch gorchwyl S4C a'r Strategaeth Cynnwys, wedi ei ddirprwyo i'r Prif Weithredwr a thrwyddo ef i'r Tim Rheoli.

Swyddog Cyfrifo S4C

Dynodir y Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifo ar gyfer S4C. Mae'r Swyddog Cyfrifo yn gyfrifol i'r DCMS mewn perthynas ag ariannu statudol S4C ac felly ef yw'r person sy'n gyfrifol am y defnydd priodol o arian a delir i S4C gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

The S4C Authority Board's Work Structure

The Authority Board usually holds business meetings once a month. These meetings follow an annual work programme approved by the Board. A number of S4C's senior executives, including the Chief Executive, the Director of Content, the Corporate and Commercial Director, the Director of Communications, and the Secretary also attend the Board's meetings and take part in the Board's discussions.

The Authority Board operates in a manner similar to a unitary board. Board meetings allow the official Board Members and senior executives attending the opportunity to discuss and express opinions on S4C's work. The senior executives do not have a formal vote, but their advice and opinions are taken into consideration as the Board makes decisions. The Board and its Standing Orders are currently being revised following the recommendations of the S4C Review relating to the establishment and operation of a unitary board.

The Management Team provides the Board members with appropriate and timely information and the members are free to seek any further information they consider necessary. All members have access to advice from the Secretary and independent professionals at S4C's expense.

Board members scrutinise the performance of management in meeting agreed goals and objectives and monitor performance reporting. They satisfy themselves on the integrity of financial information and that financial controls and systems of risk management are robust and implemented appropriately.

Subject to periodic review by the Board of the delegation of powers and responsibilities to the Management Team and the Board's overriding statutory responsibilities, responsibility for the formulation and operation of detailed policy, in accordance with S4C's remit and Content Strategy and the conduct of the affairs of S4C, has been delegated to the Chief Executive and through him to the Management Team.

S4C Accounting Officer

The Chief Executive is designated as Accounting Officer for S4C. The Accounting Officer is responsible to the DCMS in respect of the statutory funding of S4C and, as such, is the person responsible for the proper use of funds paid to S4C by the Secretary of State for Digital, Culture, Media and Sport.

Strwythur Pwyllgorau Bwrdd Awdurdod S4C

Mae gan Fwrdd yr Awdurdod bedwar pwyllgor sy'n goruchwyllo gwahanol agweddau o waith S4C, ac yn ogystal fwrdd cyfarwyddwyr ar gyfer cwmnïau masnachol S4C. Mae'r pwyllgorau'n adrodd yn ôl yn rheolaidd i'r Bwrdd, gyda'r Bwrdd yn cymeradwyo argymhellion y pwyllgorau. Mae gan Gadeirydd y Bwrdd yr hawl i fynychu cyfarfodydd y pwyllgorau fel sylwedydd.

Pwyllgor Cynnwys

Mae'r Pwyllgor Cynnwys yn gyfrifol am oruchwyllo a monitro perfformiad cynnwys rhaglenni a gwasanaethau S4C. Hwn yw'r pwyllgor sy'n trafod arlwy rhaglenni S4C ac sy'n ceisio sicrhau bod arlwy'r sianel yn diwallu anghenion y gynulleidfa.

Aelodau'r pwyllgor

Huw Jones (Cadeirydd y Pwyllgor)
John Davies
Siân Lewis
Guto Harri

Pwyllgor Archwilio, Rheoli Risg, Personél a Chydnabyddiaeth

Cyfrifoldebau Archwilio a Rheoli Risg

Mae'r pwyllgor yn gyfrifol am oruchwyllo gwaith archwilio mewnol ac allanol S4C, yn ogystal â gofalaeth am fonitro rheoli risg o fewn S4C. Mae'r pwyllgor hefyd yn gyfrifol am graffu'r Datganiad Ariannol drafft ac adrodd arno i'r Bwrdd cyfan. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am faterion yn ymwneud â gwerth am arian.

Cyfrifoldebau Personél a Chydnabyddiaeth

Mae'r pwyllgor yn gyfrifol am oruchwyllo systemau personél S4C, gan gynnwys ystyried cyflogau a thelerau ac amodau gwaith eraill staff S4C, ystyried anghenion hyfforddi a datblygu staff, safonau ymddygiad a disgyblaeth, cyfleoedd cyfartal a monitro bod y systemau perthnasol yn gweithio'n effeithiol ac effeithlon o fewn S4C.

Aelodau'r pwyllgor

Hugh Hesketh Evans (Cadeirydd y Pwyllgor)
Elan Closs Stephens
Siân Lewis

Pwyllgor Cwynion a Chydymffurfiaeth

Mae'r Pwyllgor Cwynion a Chydymffurfiaeth yn gyfrifol am oruchwyllo systemau cwynion S4C a monitro eu bod nhw'n gweithio'n effeithlon. Mae'r pwyllgor hefyd yn ystyried materion cydymffurfiaeth rhaglenni S4C. Yn ogystal â hyn, mae gan y pwyllgor ddyletswyddau o fewn prosesau S4C ar gyfer ymateb i geisiadau am wybodaeth sy'n cael eu gwneud o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

The S4C Authority Board's Committees

The Authority Board has four committees that oversee different aspects of S4C's work, as well as a board of directors for S4C's commercial companies. The committees regularly report to the Board, with the Board approving the committees' recommendations. The Chair of the Board has the right to attend committee meetings as an observer.

Content Committee

The Content Committee's responsibilities include overseeing and monitoring the performance of S4C's programmes and services. This is the committee that discusses S4C's programme provision and seeks to ensure that the channel's offering meets the needs of the audience.

Committee members

Huw Jones (Committee Chair)
John Davies
Siân Lewis
Guto Harri

Audit, Risk Management, Personnel and Remuneration Committee

Audit and Risk Management Responsibilities

The committee is responsible for overseeing S4C's internal and external audit activities as well as having responsibility for monitoring risk management within S4C. The committee is charged with scrutinising the draft Statement of Accounts and reporting back to the Board. The committee's responsibilities also include matters relating to value for money.

Personnel and Remuneration Responsibilities

The committee is responsible for overseeing S4C's personnel systems, including considering salaries and other terms and conditions relating to S4C staff, staff training and development needs, disciplinary and behavioural standards, equality of opportunity and monitoring that the relevant systems are working effectively and efficiently within S4C.

Committee members

Hugh Hesketh Evans (Committee Chair)
Elan Closs Stephens
Siân Lewis

Complaints and Compliance Committee

The Complaints and Compliance Committee is responsible for overseeing S4C's complaints systems and monitoring that they work efficiently. The committee also considers issues of compliance relating to S4C's programmes. In addition, the committee has duties within S4C's processes for responding to requests for information made under the Freedom of Information Act.

Aelodau'r pwyllgor

John Davies (Cadeirydd y Pwyllgor)
Guto Harri (hyd at 19.03.18)
Siân Lewis (o 19.03.18)
Hugh Hesketh Evans (o 19.03.18)
Elan Closs Stephens

Pwyllgor Craffu Adleoli a Chytleoli

Mae'r Pwyllgor Craffu Adleoli a Chytleoli yn gyfrifol am oruchwyllo'r prosiectau i adleoli Pencadlys S4C i Gaerfyrddin yn 2018, a chyd-leoli gyda BBC Cymru yn y Ganolfan Ddarlledu Newydd yng Nghaerdydd.

Aelodau'r pwyllgor

John Davies (Cadeirydd y Pwyllgor)
Hugh Hesketh Evans

Bwrdd Is-gwmnïau Masnachol S4C

Mae Bwrdd Is-gwmnïau Masnachol S4C yn gyfrifol am oruchwyllo gweithgareddau masnachol y sianel. Mae'r rhain yn cynnwys gwerthiant hysbysebion a nawdd, buddsoddiadau masnachol a datblygu strategaeth fasnachol S4C ar gyfer y dyfodol.

Aelodau'r Awdurdod sy'n aelodau'r Bwrdd Masnachol

Cynrychiolir Bwrdd yr Awdurdod ar fwrdd Grwp Masnachol S4C fel rheol gan ddau aelod sydd wedi eu penodi'n gyfarwyddwyr anweithredol yr is-gwmnïau masnachol sy'n eiddo'n llwyr i S4C.

Ers i tymor Carol Bell fel aelod o Fwrdd yr Awdurdod ddirwyn i ben ym Medi 2016, mae un aelod, Hugh Hesketh Evans, wedi cynrychioli Bwrdd yr Awdurdod ar y Bwrdd Masnachol.

Rhwng Medi 2016 a Mehefin 2018, roedd Carol Bell yn parhau i weithredu fel cadeirydd y Bwrdd Masnachol, ac fe'i penodwyd yn gyfarwyddwr anweithredol annibynnol gan y Bwrdd.

Cyfarwyddwyr eraill

Roedd Ian Jones (hyd at Medi 2017), Owen Evans (ers Hydref 2017), Elin Morris a David Bryant (Pennaeth Datblygu Masnachol) hefyd wedi gweithredu fel cyfarwyddwyr is-gwmnïau masnachol S4C yn ystod y flwyddyn, ynghyd â David Sanders a Gwyn Roberts sy'n gyfarwyddwyr anweithredol annibynnol.

Committee members

John Davies (Committee Chair)
Guto Harri (until 19.03.18)
Siân Lewis (from 19.03.18)
Hugh Hesketh Evans (from 19.03.18)
Elan Closs Stephens

Relocation and Co-location Scrutiny Committee

The Relocation and Co-location Scrutiny Committee is responsible for overseeing the relocation projects of S4C Headquarters to Carmarthen in 2018, and co-locating with BBC Wales in their New Broadcasting Centre in Cardiff.

Committee members

John Davies (Committee Chair)
Hugh Hesketh Evans

S4C's Commercial Board

S4C's Commercial Board is responsible for overseeing the channel's commercial activities. These include airtime sales and sponsorship, commercial investments and the development of S4C's future commercial strategy.

Members of the Authority Board that are members of the Commercial Board

The Board of the Authority is usually represented on the board of S4C's Commercial Group by two members that are appointed as non-executive directors of S4C's wholly owned subsidiaries.

Since Carol Bell's term as a member of the Authority Board came to an end in September 2016, one member, Hugh Hesketh Evans, has represented the Authority Board on the Commercial Board.

Between September 2016 and June 2018, Carol Bell continued as chair of the Commercial Board, and she was appointed an independent non-executive member by the the Board.

Other directors

Ian Jones (until September 2017), Owen Evans (since October 2017), Elin Morris and David Bryant (Head of Commercial Development) have also acted as directors of S4C's commercial subsidiaries during the year, together with David Sanders and Gwyn Roberts who are independent non-executive directors.

Swyddogaethau a Systemau Cyllid

Paratoi'r Gyllideb flynyddol a chynlluniau ariannol hir dymor

Cymeradwyr cyllideb S4C ar gyfer pob blwyddyn ariannol (ac unrhyw ddiwygiadau dilynol iddo) gan Fwrdd yr Awdurdod. Mae'r Bwrdd hefyd yn ystyried a chymeradwyo cynllun ariannol 5 mlynedd sy'n gosod cyfeiriad hir dymor ac yn ogystal ceir cynllun ariannol amcanol pum mlynedd.

Mae'r Prif Weithredwr a'r Tim Rheoli yn gyfrifol am ystyried yn fanwl cyllidebau blynyddol drafft ar gyfer S4C, ynghyd â chynlluniau ariannol tymor hir ac i argymhell cyllidebau a chynlluniau o'r fath i Fwrdd yr Awdurdod i'w hystyried a'u cymeradwyo.

Swyddogaethau Archwilio

Mae gan Fwrdd yr Awdurdod ddyletswydd statudol i sicrhau trefniadau archwilio priodol ar gyfer holl agweddau o faterion ariannol S4C.

Rhennir y swyddogaeth archwilio yn ddau gytundeb – ar gyfer materion Archwilio Allanol a materion Archwilio Mewnol. Hysbsebir y tendrau hyn yn gyhoeddus bob tair mlynedd.

Yn dilyn proses dendro cyhoeddus, a chymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol, ail-benodwyd Grant Thornton yn Archwilwyr Allanol S4C yn 2016. Ail-benodwyd PriceWaterhouseCoopers yn Archwilwyr Mewnol S4C yn 2015.

Adroddiad yr Archwilwyr Allanol

Mae Adroddiad yr Archwilwyr Allanol i Aelodau Bwrdd yr Awdurdod i'w weld ar dudalennau 126-129.

Archwilio Mewnol

Cynhaliwyd swyddogaeth archwilio mewnol trwy gydol y flwyddyn i roi sicrwydd i'r pwyllgor ynglŷn â gweithrediad a dilysrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae'r Archwilwyr Mewnol yn mynd ati'n annibynnol i adolygu'r broses reoli a weithredir gan y rheolwyr ac yn adrodd i'r Swyddog Cyfrifo a'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg. Mae camu cywiro sydd wedi eu cynllunio yn cael eu monitro'n annibynnol gan y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg ar gyfer eu cwblhau'n brydlon rhag ofn bod rheolaethau gwan neu amhriodol i'w cael sydd felly'n creu elfen o risg i'r sefydliad.

Rheoli Risg a Rheolaeth Fewnol

Mae adnabod a rheoli risgiau yn greiddiol i waith y Bwrdd. Mae gan y Bwrdd a'r Tim Rheoli gyfrifoldeb clir i adnabod risgiau sy'n wynebu S4C ac am roi gweithdrefnau yn eu lle er mwyn monitro a lliniaru risgiau o'r fath. Mae'r Awdurdod a'r Tim Rheoli yn gweithredu fframwaith rheoli risg ar gyfer nodi, gwerthuso a rheoli risgiau sylweddol a wynebir gan S4C. Mae'r fframwaith hwn wedi ei ddatblygu yn unol â chanllawiau arfer da perthnasol ar reolaethau mewnol a rheoli risg.

Yn dilyn cyhoeddi arweiniad i gyfarwyddwyr ar reolaeth fewnol, Rheolaeth Fewnol; Arweiniad i Gyfarwyddwyr ar y Côd Cyfun (arweiniad Turnbull), mae Bwrdd yr Awdurdod yn cadarnhau bod proses barhaus i adnabod, gwerthuso a rheoli'r risgiau sylweddol a wynebir gan y grŵp wedi bod ar waith ar gyfer y flwyddyn dan sylw a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Datganiad Ariannol, a bod y broses hon yn cael ei hadolygu'n rheolaidd gan Fwrdd yr Awdurdod a'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a'i bod yn cydymffurfio gyda'r arweiniad perthnasol.

Financial Functions

Preparing the annual budget and long term financial plans

The S4C budget for each financial year (and any subsequent amendments to it) is approved by the Authority Board. The Board also considers and approves a projected 5 year financial plan that sets the long term direction.

The Chief Executive and Management Team are responsible for considering in detail S4C's draft annual budget, along with long-term financial plans and recommending such budgets and plans to the Authority's Board for consideration and approval.

Audit Functions

The Board of the Authority has a statutory duty to ensure proper audit arrangements for all aspects of S4C's financial matters.

The audit function is divided into two agreements - for External Audit and Internal Audit. These agreements are tenders openly every three years.

Following a public tendering process, and the approval of the Secretary of State, Grant Thornton were re-appointed as S4C External Auditors in 2016. PriceWaterhouseCoopers were re-appointed as S4C Internal Auditors in 2015.

External Auditors' Report

The External Auditors' Report to the Members of the Authority Board can be found on pages 126-129.

Internal Audit

An internal audit function has been maintained throughout the year to provide assurance to the committee as to the operation and validity of the system of internal control. The Internal Auditors independently review the Control process implemented by management and report to the Accounting Officer and the Audit and Risk Management Committee. Planned corrective actions are independently monitored by the Audit and Risk Management Committee for timely completion should there be weak or inappropriate controls in place thus creating an element of risk to the organisation.

Risk Management and Internal Control

The identification and management of risks is at the heart of the Boards work. The Board and the Management Team have a clear responsibility for the identification of risks facing S4C and for putting in place procedures to monitor and mitigate such risks. The Board and the Management Team operate a risk management framework for identifying, evaluating and managing (rather than eliminating) significant risks faced by S4C. This framework has been developed in accordance with relevant good practice guidance on internal controls and risk management.

Following publication of guidance for directors on internal control, Internal Control; Guidance for Directors on the Combined Code (the Turnbull guidance), the Board confirms that there is an ongoing process for identifying, evaluating and managing the significant risks faced by the group, that has been in place for the year under review and up to the date of approval of the Statement of Accounts, and that this process is regularly reviewed by the Board and the Audit and Risk Management Committee and accords with the guidance.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r prosesau perthnasol a roddwyd ar waith i adnabod a rheoli risgiau a hefyd yn nodi'r risgiau strategol allweddol a nodwyd gan y Pwyllgor a'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn.

Mae elfennau allweddol y system rheolaeth fewnol fel a ganlyn:

Rheolaeth Ariannol

Mae S4C yn gweithredu system gynhwysfawr ar gyfer adrodd ar reolaeth sy'n cynnwys paratoi cyllidebau blynyddol gan bob canolfan cost. Caiff y cyllidebau hyn eu cymeradwyo gan Fwrdd yr Awdurdod fel rhan o'r gyllideb gyffredinol am y flwyddyn. Adroddir yn fisol ar ganlyniadau'r canolfannau cost a chaiff y canlyniadau eu cymharu â'r gyllideb. Ymchwilir i amrywiadau sylweddol o'u cymharu â'r gyllideb fel y bo'n briodol. Mae rhagolygon ar gyfer ymrwymadau'n cael eu paratoi'n rheolaidd trwy gydol y flwyddyn.

Adroddiadau Ariannol

Mae'r Bwrdd wedi sefydlu systemau rheolaeth fewnol a systemau rheoli risg sy'n ymwneud â'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol y grŵp a phroses y grŵp ar gyfer paratoi cyfrifon cyfun. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg yn gyfrifol am oruchwyllo a monitro'r prosesau hyn, sydd wedi'u cynllunio i sicrhau bod y Bwrdd yn cydymffurfio â'r darpariaethau adrodd a rheoleiddio perthnasol.

Trefniadau Chwythu'r Chwiban

Mae gan S4C bolisi 'chwythu'r chwiban'(datgelu gwybodaeth) er mwyn hwyluso'r broses o gyfathrebu gwybodaeth gyfrinachol berthnasol neu unrhyw ddigwyddiad mewn modd gyfrinachol. Mae'r Pwyllgor, ar ran y Bwrdd, yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer ymchwilio, mewn modd cymesur, i faterion a gyflwynwyd ac ar gyfer camau priodol yn dilyn unrhyw ymchwiliad.

Monitro Rheolaethau a Risgiau'r Busnes

Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo'r dasg o adnabod a gwerthuso'r risgiau sylweddol sy'n berthnasol i'r busnes i'r Tim Rheoli, ynghyd â chynllunio a gweithredu rheolaethau mewnol priodol. Asesir y risgiau hyn ar sail barhaus a gallant fod yn gysylltiedig ag amrywiaeth o ffynonellau mewnol neu allanol gan gynnwys toriadau mewn goruchwyliaeth, amhariad ar y systemau gwybodaeth, cystadleuaeth, trychinebau naturiol a gofynion rheoleiddio. Mae'r Prif Weithredwr yn adrodd yn rheolaidd i Fwrdd yr Awdurdod a'r Pwyllgor Archwilio, Rheoli Risg, Personél a Chydnabyddiaeth am faterion rheoli risg, ac mae'r Pwyllgor yn ystyried y Gofrestr Risgiau Strategol yn gyfnodol.

Mae'r Prif Weithredwr yn adrodd i Fwrdd yr Awdurdod ar ran y Tim Rheoli ar newidiadau sylweddol yn y busnes a'r amgylchedd allanol sy'n effeithio'r risgiau sylweddol. Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn darparu gwybodaeth ariannol i'r Bwrdd yn chwarterol, sy'n cynnwys dangosyddion perfformiad allweddol a risg. Lle nodir meysydd ar gyfer gwelliant yn y system, mae'r Bwrdd yn ystyried yr argymhellion a wneir gan y Tim Rheoli a'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg.

Asesu'r Prif Risgiau, Ansicrwydd a Chyfleoedd

Yn ystod y flwyddyn datblygwyd ymhellach y Gofrestr Risgiau Strategol sy'n cysylltu prif risgiau strategol S4C ag amcanion strategol a fframwaith mesur perfformiad S4C a rhoddyd ystyriaeth bellach i ddatblygu system ar gyfer asesu a monitro archwaeth risg S4C ar gyfer ystod o feysydd a phrosiectau o fewn busnes S4C.

This report sets out the relevant processes implemented to identify and manage risks and also identifies the key strategic risks identified by the Committee and the Board during the year.

The key elements of the system of internal control are as follows:

Financial Management

S4C operates a comprehensive management reporting system that includes preparing annual budgets from each cost centre. These budgets are approved by the Authority Board as part of the overall budget for the year. The results of the cost centres are reported monthly and compared to the budget. Significant variances from budget are investigated as appropriate. Forecasts of commitments are prepared regularly throughout the year.

Financial Reports

The Board has established systems of internal Control and risk management systems that relate to the group's financial reporting process and the group's process for the preparation of consolidated accounts. The Audit and Risk Management Committee is responsible for overseeing and monitoring these processes, which are designed to ensure that the Board complies with relevant reporting and regulatory provisions.

Whistleblowing Arrangements

S4C has a 'whistle-blowing' (disclosure) policy to facilitate the confidential communication of relevant information or any incident in confidence. The committee, on behalf of the Board, is responsible for ensuring that there are appropriate arrangements in place for the proportionate investigation of matters reported and for appropriate follow-up action.

Monitoring of Business Controls and Risks

The Board has delegated the task of identifying and evaluating significant business-related risks to the Management Team, together with the planning and implementation of appropriate internal controls. These risks are assessed on a continuous basis and may be associated with a variety of internal or external sources including control breakdowns, disruption in information systems, competition, natural disasters and regulatory requirements.

The Chief Executive reports regularly to the Authority Board and the Audit, Risk Management, Personnel and Remuneration Committee on risk management issues, and the Committee periodically considers the Strategic Risk Register.

The Chief Executive reports to the Board on behalf of the Management Team on significant changes in the business and the external environment that affect significant risks. The Chief Finance Officer provides quarterly financial information to the Board, which includes key performance indicators. Where areas for improvement in the system are identified, the Board considers recommendations made by the Management Team and the Audit and Risk Management Committee.

Assessing Main Risks, Uncertainties and Opportunities

During the year the Strategic Risk Register that links S4C's main strategic risks with S4C's strategic objectives and performance measurement framework was developed further and consideration was given to the development of a system for assessing and monitoring S4C's risk appetite relating to a range of areas and projects within S4C business.

Mae Cofrestr Risg Strategol S4C yn seiliedig ar asesiad o Flaenoriaethau Strategol S4C a'r risgiau all effeithio ar ddarparu'r blaenoriaethau hyn.

Darparodd swyddogion adroddiadau rheolaidd yn ystod y flwyddyn ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg er mwyn iddynt allu monitro rheoli risg a gwelliannau i'r gofrestr risg. Yn ogystal, darparwyd adroddiadau a sicrwydd perthnasol gan yr archwilwyr mewnol er mwyn galluogi'r pwyllgor i asesu proffil risg S4C yn ystod y flwyddyn.

Mae'r asesiad risg a nodir isod yn cynnwys crynodeb o'r prif risgiau ac ansicrwydd a adnabuwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg yn ystod y flwyddyn. Bwriad y rhain yw nodi ar lefel strategol risgiau posibl allai gael effaith sylweddol ar allu S4C i gyflawni ei rwymedigaethau statudol.

Mae'r prif feysydd risg a nodwyd yn parhau'n debyg i'r rhai a nodwyd yn y flwyddyn flaenorol, a gellir eu categorioeddio fel rhai'n ymwneud â darparu ac ansawdd gwasanaeth S4C, materion strategol, a materion ariannol a llywodraethiant.

1. Y Gynulleidfa a Pherfformiad y Gwasanaeth

Prif ddyletswydd S4C yw darparu gwasanaeth teledu digidol iaith Gymraeg sy'n cynnwys ystod eang o raglenni amrywiol o ansawdd uchel. Er mwyn darparu gwasanaeth o'r fath, rhaid i'r Bwrdd sicrhau ei fod yn gwrandio ar anghenion ei gynulleidfa, bod S4C yn ymateb yn briodol i'r anghenion hyn a bod y sector cynhyrchu annibynnol yn gallu darparu cynnwys o ansawdd uchel.

Mae'r Bwrdd yn arolygu ansawdd y gwasanaeth drwy gydol y flwyddyn ac ymgynghorodd yn eang â'r gynulleidfa gan ddefnyddio nifer o wahanol ddulliau gan gynnwys Nosweithiau Gwylwyr, paneli ymateb a grwpiau ffocws. Mae S4C yn ogystal, gan weithio'n agos gyda chynhyrchwyr annibynnol, wedi trafod sylwadau'r gynulleidfa a nodi ffyrdd o wella'r allbwn rhaglenni tra hefyd yn sicrhau gwerth am arian drwy'r cydweithio hyn.

Mewn amgylchedd o lwyfannau cyfryngol sy'n datblygu'n gyflym, mae angen i S4C sicrhau ei fod yn gallu mynd i'r afael â phatrymau gwyllo a gofynion y gynulleidfa ar gyfer cynnwys ar draws gwahanol lwyfannau digidol cyfredol ac yn y dyfodol, gan gynnwys gwasanaethau ar-lein, Manylder Uwch a fformatau cynnwys eraill.

Mae'r Bwrdd yn fodlon bod S4C wedi rhoi mewn lle paratoadau priodol er mwyn ei galluogi i fonitro perfformiad gwasanaeth S4C a'i Strategaeth Ddigidol, er bod pryder yn parhau parthed gallu S4C i gynnal cydraddoldeb gyda darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill o ran buddsoddi mewn llwyfannau a gwasanaethau newydd.

Mae gofyn i'r system gymhleth o seilwaith technegol sy'n ganolog i allu S4C i ddarparu ei gynnwys dros ystod gynyddol o lwyfannau i gynnal lefel uchel iawn o argaeledd gwasanaethau ac ansawdd ar sail 24/7. Mae cynlluniau parhad busnes o fewn S4C wedi eu cynllunio er mwyn sicrhau bod y systemau technegol hyn yn gadarn a bod trefniadau priodol a chymesur yn eu lle er mwyn dygymod gyda digwyddiadau technegol sylweddol.

S4C's Strategic Risk Register is based on an assessment of S4C's Strategic Priorities and the risks that can affect the delivery of these priorities.

Officers provided regular reports during the year for the Audit and Risk Management Committee to monitor risk management and enhancements to the risk register. In addition, relevant reports and assurances were provided by the internal auditors thus enabling the committee to critically assess S4C's risk profile during the year.

The risk assessment set out below contains the principal risks and uncertainties identified by the Audit and Risk Management Committee during the year. These are intended to capture at a strategic level the potential risks that could have significant impact upon S4C's ability to deliver its statutory obligations.

The main areas of risks identified remain similar to the previous year and can be categorised as being related to the provision and quality of the service, and strategic, financial and governance matters.

1. The Audience and Service Performance

The Board's primary duty is to provide a Welsh language digital television service consisting of a broad range of high quality and diverse programming. To provide such a service, the Board must ensure that it listens to the needs of its audience, that S4C responds appropriately to these needs and that the independent production sector is able to deliver high quality content.

The Board actively monitored the quality of the service throughout the year and consulted widely with the audience through a range of different methods including Viewers Evenings, response panels and focus groups. Working closely with independent producers, S4C has discussed audience comments and identified ways of improving the programme output whilst also securing value for money through this collaboration.

In an environment of rapidly developing media platforms, S4C needs to ensure that it can address viewing patterns and audience requirements for content across different current and future digital platforms, including Online services, High Definition and other content formats.

The Board is satisfied that S4C is sufficiently advanced in its preparations to monitor the performance of the S4C service and its Digital Strategy although concern remains regarding S4C's ability to maintain parity with other public service broadcasters in relation to investment in new platforms and services.

S4C's technical infrastructure is required to deliver its content over an increasing range of platforms, to deliver a very high level of service availability and quality on a 24/7 basis. Business continuity plans within S4C are designed to ensure that these technical systems are robust and that appropriate and proportionate arrangements are in place to deal with major technical incidents.

2. Strategol ac Ariannol

Daw incwm S4C ar hyn o bryd o dair ffynhonnell, cymhorthdal gan yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, o Ffi'r Drwydded drwy Fwrdd y BBC ac incwm masnachol a gynhyrchir gan S4C. Gallai'r hinsawdd economaidd bresennol arwain at ragor o bwysau ar gyllid S4C, ac fe allai hyn yn ei dro gael effaith economaidd ar y diwydiannau creadigol yng Nghymru. Mae'r Prif Weithredwr wedi adrodd eto i'r Bwrdd ar y bygythiadau hyn ac mae wedi arwain trafodaethau ar yr effaith ar y gwasanaeth o dan nifer o amgylchiadau, gan gynnwys yr effaith ar y sector annibynnol.

3. Strwythur a Llywodraethiant

Mae system a gweithdrefnau llywodraethiant corfforaethol Bwrdd yr Awdurdod wedi eu diwygio'n sylfaenol ers 2010 er mwyn sicrhau eu bod yn gadarn ac yn addas.

Mae'r Bwrdd wedi ystyried argymhellion yr Adolygiad o S4C a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018 yn ymwneud â strwythur a llywodraethiant S4C ac mae eisoes yn paratoi ar gyfer cyflwyno trefnweithiau newydd ar gyfer llywodraethiant S4C o dan fodel bwrdd unedol ffurfiol.

Daeth y Cytundeb Ariannu, Partneriaeth ac Atebolrwydd newydd rhwng S4C a'r BBC i rym ym mis Tachwedd 2017, ac mae'r Bwrdd eisoes wedi rhoi prosesau adrodd ar gyfer cyflwyno sicrwydd ariannol i Fwrdd y BBC yn eu lle.

2. Strategic and Financial

The Board's funding is currently derived from three sources, grant in aid from the Department for Digital, Culture, Media and Sport, from the Licence Fee through the BBC Board and commercial income generated by S4C. The current economic climate could lead to further pressures on S4C's finances and in turn have an economic impact on the creative industries in Wales. The Chief Executive has reported to the Board on these threats and has led discussions on the service impact given different scenarios, including the effect on the independent sector.

3. Governance and Structure

The Board's system of and procedures for corporate governance have been radically overhauled since 2010 to ensure that they are robust and fit for purpose.

The Board has considered the recommendations of the Review of S4C published in March 2018 relating to the structure and governance of S4C and is already preparing for the introduction of new structures for S4C's governance under a formal unitary board model.

The new Partnership, Funding Agreement and Accountability Agreement between S4C and the BBC came into effect in November 2017. The Board has already put in place reporting processes for the provision of financial assurance to the BBC.

Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Rheoli Risg, Personél a Chydnabyddiaeth

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r cyfrifoldebau a ddirprwyir i'r pwyllgor gan y Bwrdd, ynghyd â chrynodeb o waith y pwyllgor yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2017 - 31 Mawrth 2018.

Mae'r adroddiad hefyd yn nodi sut y mae'r pwyllgor wedi cynorthwyo'r Bwrdd i adolygu amgylchedd rheoli mewnol S4C, gwaith y pwyllgor mewn perthynas ag adolygu effeithiolrwydd yr archwilwyr mewnol ac allanol, ynghyd â goruchwylio datblygiad rhaglen gwerth am arian.

Mae gan aelodau'r Pwyllgor rhyngddynt ystod eang o brofiad busnes, ariannol, llywodraethiant a materion personél sy'n galluogi'r pwyllgor i gyflawni ei gylch gorchwyl mewn modd cadarn ac annibynnol.

Yn unol â Rheolau Sefydlog y Bwrdd, mae'r pwyllgor yn cynnwys o leiaf tri aelod anweithredol o Fwrdd yr Awdurdod:

Aelodau'r pwyllgor yn ystod y flwyddyn:

Hugh Hesketh Evans (Cadeirydd y Pwyllgor)
Elan Closs Stephens
Siân Lewis

Mae Cadeirydd Bwrdd yr Awdurdod hefyd yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor.

Mae Prif Weithredwr S4C, y Cyfarwyddwr Corfforaethol a Masnachol (gyda chyfrifoldeb am faterion personél), y Prif Swyddog Ariannol ac Ysgrifennydd Bwrdd yr Awdurdod hefyd yn mynychu cyfarfodydd y pwyllgor. Mae cynrychiolwyr o archwilwyr mewnol S4C, PriceWaterhouseCoopers a hefyd lle y bo'n berthnasol, archwilwyr allanol S4C, Grant Thornton hefyd yn mynychu cyfarfodydd y pwyllgor. Yn ogystal, mae'r pwyllgor yn cyfarfod yn breifat gyda'r archwilwyr mewnol ac allanol yn flynyddol.

Cylch Gorchwyl y Pwyllgor

Mae rhaglen waith flynyddol y Pwyllgor yn cynnwys:

Materion Archwilio a Rheoli Risg

- Adolygu ac argymhell ar gyfer cymeradwyaeth y Datganiad Ariannol Blynyddol ar ôl trafodaeth gyda'r archwilwyr allanol;
- Adolygu cwmpas y swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol a chymeradwyo anghenion archwilio strategol S4C;
- Ystyried canfyddiadau'r archwilwyr mewnol, yn enwedig mewn perthynas â systemau ariannol craidd a phrosesau adrodd;
- Adolygu cofrestr risg S4C, y broses o adnabod a chofnodi risgiau, a'r camau a gymerwyd gan y Tim Rheoli i reoli a lliniaru risgiau a'u canlyniadau i S4C;
- Datblygu rhaglen gwerth am arian ac adolygu'r gwerth am arian a ddarperir gan weithgareddau S4C.

Report of the Chair of the Audit, Risk Management, Personnel and Remuneration Committee

This report sets out the responsibilities delegated to the committee by the Board, together with a summary of the work of the committee during the period 1 April 2017 - 31 March 2018.

The report also sets out how the committee has assisted the Board to review S4C's internal control environment, the work of the committee in relation to reviewing the effectiveness of the internal and external auditors, as well as overseeing the development of the value for money programme.

Members of the Committee have a wide range of experience in the fields of business, financial, governance and personnel that enables the committee to fulfill its terms of reference in a robust and independent manner.

In accordance with the Board's Standing Orders, the committee consists of at least three non-executive members of the

Authority Board:

Committee members during the year:
Hugh Hesketh Evans (Committee Chairman)
Elan Closs Stephens
Siân Lewis

The Chairman of the Authority Board also attends Committee meetings.

S4C's Chief Executive, the Corporate and Commercial Director (with responsibility for personnel matters), the Chief Finance Officer and the Secretary to the Authority Board also attend committee meetings. Representatives from S4C's internal auditors, PriceWaterhouseCoopers and also where relevant, S4C's external auditors, Grant Thornton also attend committee meetings. In addition, the committee meets in private with the internal and external auditors annually.

Committee's Terms of Reference

The Committee's annual work plan includes:

Audit and Risk Management Issues

- Reviewing and recommending for approval the Annual Statement of Accounts after discussion with the external auditors;
- Reviewing the scope of the internal and external audit functions and approving S4C's strategic audit needs;
- Consideration of the findings of the internal auditors, in particular in relation to core financial systems and reporting processes;
- Reviewing S4C's risk register, the process of identifying and recording risks, and of steps taken by the Management Team to control and mitigate risks and their consequences for S4C; and
- Developing a value for money programme and reviewing the value for money provided by S4C's activities.

Materion Personél a Chydnabyddiaeth

- Goruchwylio systemau personél S4C a monitro eu heffeithiolrwydd;
- Cynghori'r Bwrdd ar uwch benodiadau, gan gynnwys telerau ac amodau; a
- Cynghori'r Bwrdd ar bob mater yn ymwneud â chydnabyddiaeth a thelerau staff.

Mae'r Pwyllgor yn gweithredu rhaglen strwythuredig o weithgareddau, gydag eitemau ar yr agenda sy'n cyd-fynd â dyddiadau pwysig y cylch adrodd ariannol blynyddol, themâu neu feysydd risg y mae'r Pwyllgor wedi eu hadnabod, ynghyd ag eitemau sefydlog y mae'n ofynnol i'r Pwyllgor eu hystyried yn rheolaidd o dan ei gylch gorchwyl. Mae Cadeirydd y pwyllgor yn adrodd yn ffurfiol i'r Bwrdd ar ôl pob cyfarfod o'r pwyllgor.

Cyfarfu'r pwyllgor pum gwaith yn ystod y flwyddyn.

Prif feysydd gwaith y Pwyllgor yn ystod 2017/18 oedd:

Materion Archwilio a Rheoli Risg

Rheolaethau mewnol: Adolygodd y pwyllgor effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol, gan ystyried canfyddiadau'r adroddiadau archwilio mewnol ac allanol.

Adroddiadau ariannol: Adolygodd y pwyllgor ddatganiadau ariannol y Bwrdd ac ystyriodd adroddiadau gan y rheolwyr a'r archwilwyr allanol parthed cydymffurfiaeth gyda safonau cyfrifo a chydymffurfio â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol. Yn ogystal, ystyriodd y Pwyllgor briodoldeb trefniadau adrodd presennol i gyfarfodydd misol y Bwrdd.

Rheoli risg: Ystyriodd y pwyllgor brosesau ar gyfer rheoli risgiau ac ansicrwydd sylweddol o fewn S4C. Yn ystod y flwyddyn, datblygwyd y gofrestr risgiau strategol ymhellach er mwyn sicrhau ei fod yn adnabod a cheisio rheoli'r risgiau strategol yn effeithiol gan gysylltu prif risgiau strategol S4C ag amcanion strategol a fframwaith mesur perfformiad S4C.

Cynllun gwaith ac asesiad gofynion archwilio mewnol: Parhaodd y pwyllgor i oruchwylio gwaith archwilwyr mewnol S4C a rhoddodd ystyriaeth i'w hadroddiadau, ymatebion gan reolwyr a chynlluniau gweithredu oedd yn ymateb i argymhellion perthnasol. Rhoddodd y Pwyllgor hefyd ystyriaeth i asesiad o anghenion archwilio'r Bwrdd a chymeradwyodd gynllun gwaith blynyddol yr archwilwyr mewnol.

Perthynas gyda'r archwilwyr allanol: Roedd y Pwyllgor yn gyfrifol am oruchwylio'r berthynas gydag archwilwyr allanol S4C, gan gynnwys cwmpas eu gwaith a'u dull gweithredu, eu ffioedd, eu perfformiad a'u hannibyniaeth (gan gynnwys y polisi ar waith nad yw'n waith archwilio).

Personnel and Remuneration Issues

- Reviewing and monitoring S4C's personél systems and their effectiveness;
- Advising the Board on senior appointments, including terms and conditions; and
- Advising the Board on all matters relating to staff remuneration and terms.

The committee works to a structured programme of activities with agenda items focused to coincide with key events of the annual financial reporting cycle, themes or areas of risk that the committee has identified, together with standing items that the committee is required to consider regularly under its terms of reference. The Chairman of the committee reports formally to the Board after each meeting of the committee.

The committee met five times during the year.

Key areas of work for the committee during 2017/18 were:

Audit and Risk Management Issues

Internal Controls: The committee reviewed the effectiveness of the system of internal control, taking into account the findings of internal and external audit reports.

Financial reports: The committee reviewed the Board's financial statements and considered reports from the external auditors regarding compliance with accounting standards and compliance with legal and regulatory requirements. In addition, the committee considered the appropriateness of current reporting arrangements to the Board's monthly meetings.

Risk management: The committee considered processes for managing significant risks and uncertainties within S4C. During the year, the strategic risk register was further developed to ensure that it identified and sought to manage the strategic risks effectively, linking S4C's main strategic risks with the strategic objectives and S4C's performance measurement framework.

Internal audit requirements, scheme of work and assessment: The committee continued to oversee the work of S4C's internal auditors and took account of their reports, management's responses and action plans that responded to relevant recommendations. The Committee also considered an assessment of the Board's audit needs and approved the internal auditors' annual work plan.

Relationship with external auditors: The Committee was responsible for overseeing the relationship with S4C's external auditors, including the scope and approach to their work, their fees, performance and independence (including the policy relating to non-audit work).

Llywodraethiant corfforaethol: Mae'r pwyllgor yn parhau i oruchwylio gweithrediad system llywodraethiant corfforaethol S4C, gan gynnwys ystyried asesiad o effeithlonrwydd trefnweithiau'r Bwrdd ac arolygu'r trefniadau ar gyfer cyflwyno trefnweithiau llywodraethiant newydd a pharatoadau ar gyfer gweithredu fel bwrdd unedol ffurfiol.

Parhad busnes: Rhoddodd y pwyllgor ystyriaeth i drefniadau parhad busnes S4C yn ystod y cyfnod.

Y berthynas gyda'r BBC: Datblygodd y Pwyllgor Adroddiad Sicrwydd Ariannol i'w gyflwyno i Bwyllgor Archwilio'r BBC yn unol â gofynion y cytundeb Partneriaeth, Ariannu ac Atebolrwydd newydd gyda'r BBC.

Rhaglen gwerth am arian: Ystyriodd y pwyllgor adroddiadau ac argymhellion ar gyfer asesu a chynnal gwerth am arian gwasanaethau S4C.

Materion Personél a Chydnabyddiaeth: Yn ystod y cyfnod rhoddodd y pwyllgor ystyriaeth i faterion yn cynnwys polisi cyflogaeth a chydnabyddiaeth S4C, y polisi diswyddo, system gwerthuso staff, y ddarpariaeth hyfforddiant, Ymrwymiad S4C i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth a Chynllun Gweithredu ar gyfer 2016-2020 a pharatoadau ar gyfer Adleoli pencadlys S4C i'r Egin yng Nghaerfyrddin yn 2018.

Adroddiad Cynladwyedd

Nid yw'r Bwrdd yn cyflwyno adroddiad cynladwyedd llawn gan fod cyrff sydd â llai na 1,000m² o ofod adeilad neu sydd â llai na 250 o aelodau staff (ar sail nifer staff llawn amser – FTE) wedi eu heithrio o'r angen i ddarparu'r cyfryw wybodaeth.

Corporate governance: The committee continues to oversee the implementation of S4C's corporate governance system, including considering an assessment of the efficiency of the Board's procedures and overseeing the arrangements for introducing new governance arrangements and preparations for operating as a formal unitary board.

Business continuity: The committee considered S4C's business continuity arrangements during the period.

Relationship with the BBC: The Committee developed a Financial Assurance Report to be submitted to the BBC's Audit Committee in accordance with the requirements of the new Partnership, Funding and Accountability agreement with the BBC.

Value for money: The committee considered reports and recommendations for assessing and maintaining the value for money of S4C services.

Personnel and Remuneration Issues: During the period the committee considered issues including S4C's employment and remuneration policy, the redundancy policy, staff appraisal system, training provision, S4C's Commitment to Equality and Diversity and Action Plan for 2016-2020 and preparations for the relocation of S4C's headquarters to the Egin in Carmarthen in 2018.

Sustainability Report

The Board has not included a full sustainability report, as organisations occupying less than a total of 1,000m² of floor area or with fewer than 250 FTE staff are exempt from providing such a report.

▼
Her yr Hinsawdd



Adroddiad Polisi Cyflogaeth S4C

Mae'r adroddiad hwn yn nodi materion yn cynnwys polisi cyflogaeth a chydabyddiaeth S4C ac, adroddiad cyflog ar sail rhyw.

Cyfleoedd cyfartal

Mae S4C yn gyflogwr cyfle cyfartal. Nid yw'n goddef gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig neu economaidd-gymdeithasol, oedran, sefyllfa deuluol, statws priodasol, rhan-amser neu weithwyr llawn-amser, crefydd, daliadau gwleidyddol, tueddfryd rhywiol, defnydd o iaith neu unrhyw wahaniaeth amherthnasol arall ac mae'n ymroddedig i weithio gydag amrywiaeth mewn ffordd gadarnhaol.

Defnyddir egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored a gwneir penodiadau ar sail teilyngdod.

Mae S4C yn gweithredu system arfarnu sy'n pennu amcanion personol ar gyfer pob aelod o staff gan gynnwys y Tim Rheoli. Mae'r amcanion hyn yn seiliedig ar amcanion corfforaethol blynyddol S4C a chaiff perfformiad mewn perthynas â'r amcanion hyn gan bob aelod o staff ei fonitro a'i werthuso fel rhan o system arfarnu staff S4C.

O dan y polisi cydnabyddiaeth a chytundebau cyflogaeth presennol nid yw S4C yn gweithredu unrhyw drefniadau cyflog neu gydnabyddiaeth sy'n gysylltiedig â pherfformiad ac nid oes unrhyw daliadau bonws neu elfennau cyflog dewisol yn cael eu talu i staff S4C.

Cydnabyddiaeth Aelodau Bwrdd yr Awdurdod

Caiff cydnabyddiaeth a chyfnod penodiad y Cadeirydd ac aelodau Bwrdd yr Awdurdod eu pennu gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Nodir manylion tâl y Cadeirydd a'r Aelodau yn Nodyn 6 y Datganiad Ariannol.

Ni ddyfarnwyd unrhyw gynydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn ystod y cyfnod i lefel cydnabyddiaeth aelodau Bwrdd yr Awdurdod na'r Cadeirydd.

Cydnabyddiaeth ar gyfer staff S4C

Mae cyflog y Prif Weithredwr, yr Ysgrifennydd ac aelodau'r Tim Rheoli yn cael ei bennu gan y Bwrdd. Caiff cyflogau aelodau eraill staff S4C eu pennu gan y Prif Weithredwr a'r Tim Rheoli o fewn y gyllideb flynyddol a gymeradwywyd gan y Bwrdd.

Caiff pob codiad cyflog cyffredinol ar gyfer aelodau staff ei gadarnhau gan y Bwrdd ar argymhelliad y Prif Weithredwr a'r Tim Rheoli.

Cyflog canolrif yr holl staff ac eithrio'r Tim Rheoli ar 31 Mawrth 2018 oedd £34,118 (ar 31 Mawrth 2017 - £34,500).

S4C's Employment Policy Report

This report provides information relating to S4C's employment and remuneration policy and gender pay report.

Equal opportunities

S4C is an equal opportunities employer. It does not tolerate discrimination based on gender, race, color, disability, ethnic or socio-economic background, age, family situation, marital status, part-time or full-time employees, religion, political holdings, sexual orientation, use of language or any other irrelevant difference and is committed to working with diversity in a positive way.

The principles of fair and open competition apply and appointments are made on merit.

S4C operates an appraisal system which sets personal objectives for all members of staff including the Management Team. These objectives are based on S4C's annual corporate objectives and performance against these objectives by all members of staff is monitored and evaluated as part of S4C's staff appraisal system.

Under the remuneration policy and existing employment agreements S4C does not operate any performance related pay arrangements and no bonus payments or discretionary salary elements are paid to S4C staff.

Remuneration of Authority of Board Members

The remuneration and period of appointment of the Chairman and members of the Board are determined by the Secretary of State for Digital, Culture, Media and Sport.

Details of the remuneration of the Chairman and Members are set out in Note 6 to the Statement of Accounts.

No remuneration increases were awarded by the Secretary of State to the Chairman or Authority Board members during the period.

Remuneration of S4C staff

The remuneration of the Chief Executive, the Secretary and the members of the Management Team is determined by the Board. The salaries of other S4C members of staff are determined by the Chief Executive and the Management Team within the annual budget approved by the Board.

Any general salary increases for staff are ratified by the Board on the recommendation of the Chief Executive and Management Team.

The median salary of all staff excluding the Management Team at 31 March 2018 was £34,118 (at 31 March 2017 - £34,500).

Polisi Cydnabyddiaeth

Cymeradwyodd Fwrdd yr Awdurdod bolisi cydnabyddiaeth yn 2012. Yn ystod y flwyddyn dyfarnwyd codiad cyflog cyffredinol o 1% i'r holl staff a oedd wedi eu cytundebu ar y pryd i ddarparu gwasanaeth i S4C.

Bwriad y polisi yw sicrhau cydbwysedd rhwng cydnabod cyfraniad pwysig staff i lwyddiant y gwasanaeth gyda'r angen i sicrhau fod costau staffio S4C yn parhau i gyfrif am ganran fechan o gyfanswm gwariant S4C ac yn darparu gwerth am arian o fewn setliad ariannol presennol S4C.

Mae lefel cydnabyddiaeth penodiadau newydd yn cael ei feincnodi gyda swyddi tebyg o fewn y farchnad yng Nghymru er mwyn sicrhau bod S4C yn parhau i allu denu'r dalent gorau posibl.

Perfformiad y Prif Weithredwr a'r Tim Rheoli

Mae perfformiad y Prif Weithredwr yn cael ei asesu yn flynyddol gan y Bwrdd. Mae'r broses hon yn cael ei arwain gan y Cadeirydd.

Mae S4C yn gweithredu system o asesu perfformiad ac amcanion personol a chorfforaethol ar gyfer aelodau'r Tim Rheoli. Caiff yr amcanion hyn eu cytuno rhwng y Prif Weithredwr ac aelodau unigol y Tim Rheoli ar ddechrau'r flwyddyn a bydd eu perfformiad yn eu herbyn yn cael eu hasesu gan y Prif Weithredwr yn ystod ac yn dilyn diwedd y flwyddyn.

Cyflog canolrif y Tim Rheoli ar 31 Mawrth 2018 oedd £99,643 (ar 31 Mawrth 2017 - £98,657).

Roedd y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf yn derbyn 4.4 gwaith yn fwy na thâl canolrifol yr holl staff ac eithrio'r Tim Rheoli (2016/17 - 4.4 gwaith).

Adroddiad Blynyddol ar Gydnabyddiaeth y Prif Weithredwr a'r Tim Rheoli

Nodir manylion cyflog y Prif Weithredwr a'r Tim Rheoli yn Nodyn 6 y Datganiad Ariannol.

Mae aelodau'r Tim Rheoli a gyflogwyd cyn Ionawr 2012 yn cael eu cyflogi ar gytundebau parhaol. Mae unrhyw benodiadau i'r Tim Rheoli a'r Tim Comisiynu ers mis Ionawr 2012 ar sail cytundebau tymor penodol, ar wahân i'r unigolion a gyflogwyd eisoes gan S4C cyn 2012 ar gytundebau parhaol oedd eisoes yn bodoli.

Cyfansoddiad gweithlu S4C

Mae'r cydbwysedd rhwng y rhywiau o fewn gweithlu S4C yn dda, gydag ychydig yn fwy o fenywod na dynion, 54% o fenywod a 46% o ddynion.

Remuneration Policy

The Authority Board approved a remuneration policy in 2012. During the year, all staff who were contracted at that time to provide services to S4C were awarded a general salary increase of 1%.

The policy is intended to ensure a balance between recognising the contribution of all staff to the success of the service, with the need to ensure that S4C's total staff costs continue to account for a small percentage of S4C's total spend and provide value for money within the current funding settlement.

Remuneration of new appointments is benchmarked with comparable positions within the market in Wales to ensure S4C continues to be able to attract the best possible talent.

Performance of the Chief Executive and Management Team

The Chief Executive's performance is assessed annually by the Board. This process is led by the Chairman.

S4C operates a system of performance assessment and personal and corporate objectives for Management Team members. These objectives are agreed between the Chief Executive and the individual members of the Management Team at the beginning of the year and their performance is assessed by the Chief Executive during and following the end of the year.

The median salary of the Management Team as at 31 March 2018 was £99,643 (at 31 March 2017 - £98,657).

The salary of the highest paid director was 4.4 times the median remuneration of all staff excluding the Management Team (2016/17 - 4.4 times).

Annual Report on Remuneration of the Chief Executive and Management Team

Details of the remuneration of the Chief Executive and Strategic Management Board are set out in Note 6 of the Statement of Accounts.

Members of the Management Team employed before January 2012 are employed on permanent contracts. Appointments to the Management Team and Commissioning Team since January 2012 have been made on the basis of fixed term contracts, other than for those already employed by S4C prior to 2012 on pre-existing permanent contracts.

Composition of S4C's workforce

The gender balance of S4C's workforce is good, with slightly more women than men - 54% women and 46% men.

Adroddiad Cyflog ar Sail Rhyw

Daeth deddfwriaeth cyflog rhwng y rhywiau newydd i rym ym mis Ebrill 2017, gan ei gwneud yn ofynnol i bob cwmni yn y DU sydd â thros 250 o weithwyr gyhoeddi eu bwllch cyflog rhwng y rhywiau. Er nad oes gan S4C fwy na 250 o weithwyr, rydym wedi penderfynu cyhoeddi data cyflog ar sail rhyw.

